# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 26AIN IONAWR, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd:18/01/17)

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

**AELODAETHP (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
E. Selwyn Griffiths
Sian Wyn Hughes
Ann Williams
R. H. Wyn Williams
Aled Ll. Evans
Christopher Hughes
Elin Walker Jones
R. Hefin Williams
Gareth A. Roberts

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Beth Lawton
Eirwyn Williams

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd
Peter Read

## Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorwyr Linda Ann Jones

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

## Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---|---|
| *Dylan Davies* | *Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd* |
| *Rhian Roberts* | *Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor* |
| *Rita Price* | *Yr Eglwys Gatholig* |
| *Disgwyl Enwebiad* | *Yr Eglwys yng Nghymru* |

### Heb Bleidlais:

| | |
|---|---|
| *Sion Amlyn* | *NASUWT* |
| *Dilwyn Elis Hughes* | *UCAC* |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 6 - 14

Bydd y Cadeiryd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2016, fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD DRAFFT ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU — 15 - 54

***Aelodau Cabinet: Cyng. Mair Rowlands – Plant a Phobl Ifanc***
***Cyng. W. Gareth Roberts – Oedolion, Iechyd a Llesiant***

I ystyried adroddiad gan yr Aelodau Cabinet ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

10.00 a.m. – 10.45 a.m.

## 6. YMCHWILIAD CRAFFU O'R YSBYTY I'R CARTREF — 55 - 94

***Aelod Cabinet: Y Cyng. W. Gareth Roberts***

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal, Iechyd a Llesiant ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

10.45 a.m. – 11.15 a.m.

## 7. <u>MODELAU AMGEN ARWAIN YSGOLION</u>

***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

I dderbyn cyflwyniad ar yr uchod.

11.15 a.m. – 12.00

## 8. <u>YMCHWILIAD CRAFFU ADDYSG GYMRAEG - ADRODDIAD CYNNYDD</u> 95 - 143

***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

I ystyried:

(a) Adroddiad cynnydd ar weithrediad argymhellion yr Ymchwiliad Craffu i Addysg Gymraeg
(b) Adroddiad gan Mr Alun Charles, Ymgynghorydd Allanol, ar weithrediad yr argymhellion.

(Copïau'n amgaeedig)

12.00 – 1.00 p.m.

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
# 17.11.16

**Yn bresennol**:

**Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)**
**Y Cynghorydd Eirwyn Williams (is-gadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Alan Jones Evans, Aled Evans, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Wyn Hughes, Elin Walker Jones, Siôn Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Gareth A. Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams, Hefin Williams.

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol – ar gyfer Eitem 4), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Hefyd yn bresennol:**

**Ar gyfer Eitem 4 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg
Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
Elfyn Vaughan Jones, Uwch Ymgynghorydd Her GwE

**Ar gyfer Eitem 5 isod:**
Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

**Ar gyfer Eitemau 6 a 7 isod:**
Y Cynghorydd W. Gareth Roberts
Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Manon Williams, Rheolwr Ardal, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Ffion Johnstone, Cyfarwyddwr Rhanbarth y Gorllewin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Linda Ann Wyn Jones, Peter Read, ac R H Wyn Williams.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams fuddiant personol yn Eitem 7 – Ymchwiliad Gweithwyr Gofal, Iechyd a Gofalwyr ond ni fyddai'n gadael y Siambr oni bai bod trafodaeth benodol ynghylch gofalwyr yn ystod trafodaeth ar yr eitem.

## 2. DATGANIAD GAN Y CADEIRYDD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr e-bost uniongyrchol anfonwyd at yr holl aelodau gan y Prif Weithredwr am newidiadau yn GwE, sydd yn effeithio'r Pennaeth Addysg a phrosiect y mae yntau yn arwain arno dros dro o ran gwaith GwE. Yn dilyn negeseuon gan nifer o aelodau, trafodwyd y mater gyda'r Prif Weithredwr a'r gobaith gwreiddiol ydoedd medru ei drafod yn y Pwyllgor Craffu hwn ond roedd yn amhosib i'r Prif Weithredwr fod yn bresennol achos bod ganddo gyfarfod pwysig arall na all ei osgoi.

Roedd y Cadeirydd wedi trafod gyda'r Prif Weithredwr y math o bryderon oedd gan aelodau a theimlai bod yr atebion yn rhai sydd yn gwneud synnwyr ac yn rhoi sicrwydd bod buddiannau plant Gwynedd wrth ganol y penderfyniadau hyn.

Nododd y Cadeirydd na fyddai yn caniatáu trafodaeth na sylwadau ar y mater yn y Pwyllgor gan nad oedd y Prif Weithredwr yn medru bod yn bresennol i ateb unrhyw bwyntiau ond bydd modd gwyntyllu'r cyfan yng nghyfarfod Paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn ar 13 Rhagfyr pryd fydd y Prif Weithredwr yn bresennol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Medi 2016.

**4. ADRODDIAD GwE**

Cyflwynwyd adroddiad gan Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth GwE yn ymateb i ymholiadau penodol gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod y berthynas rhwng GwE a'r awdurdod yn hynod bwysig ac roedd yn ymfalchïo yn y gwaith a wneir drwy'r Sir ac yn y ffaith nad oedd 'run ysgol yng Ngwynedd o fewn categori statudol Gwelliant Sylweddol/Mesurau Arbennig. Gwelwyd cynnydd o 5% ym mherfformiad disgyblion o fewn trothwy TL2+ ac ers 2012 roedd y perfformiad wedi gwella 13.5% ers cychwyn y Cyngor hwn. Eglurwyd bod gan GwE gynllun busnes ar draws rhanbarth y Gogledd a bod gan y 6 awdurdod fanylebau benodol. Sefydlwyd Bwrdd Ansawdd Sirol lle mae swyddogion GwE a'r awdurdodau addysg yn trafod ysgolion unigol.

Amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol ac fe dderbyniwyd ymateb iddynt fel a ganlyn:

(a) Faint o staff ysgolion Gwynedd sydd ar secondiad gyda GwE ar hyn o bryd?

Nodwyd bod 1 Pennaeth ac 1 Dirprwy ar secondiad hefo GwE ac yn gweithredu yng Ngwynedd/Mon. Eglurodd y Pennaeth Addysg bod hysbysebu am swyddi i GwE yn broses agored ac oherwydd yr elfen ieithyddol a'r gofyn am ddwyieithrwydd, 'roedd y swyddi yn ddeniadol i staff ysgolion Gwynedd. Ni ellir gwahardd staff rhag ymgeisio am swyddi ond ar hyn o bryd 'roedd y cydbwysedd yn eitha' cyfartal. Nid oedd yr awdurdod addysg yn awyddus i weld Penaethiaid yn symud i weithio i GwE ond ar yr un pryd ei fod yn fodd o allu rhannu arbenigedd a bod hyn yn ei dro yn gallu bod yn werthfawr. Y broblem a wynebai'r Sir ydoedd denu arweinwyr ysgolion a rhaid meithrin arweinwyr a sicrhau safonau gwydn i'r dyfodol.

Cyfeiriwyd at enghraifft hanesyddol o golli Pennaeth Adran Mathemateg ac o'r herwydd bod y disgyblion yn dioddef, esboniodd y Pennaeth Addysg bod diffyg athrawon yn y pynciau craidd yn bryder ac yn deillio o gyfarfod gyda Grŵp y Sector Uwchradd yn ddiweddar penderfynwyd:

- Cyd-benodi athrawon yn ganolog uwchben yr hyn sydd ei angen fel y gellir llenwi swyddi mewn achosion o absenoldebau salwch, absenoldebau mamolaeth, a.y.b.
- Bod Grŵp o Benaethiaid Uwchradd yn cyd-drafod gyda Phrifysgol Bangor y math o raglen a ddymunir ar gyfer y dyfodol. Trwy gyd-drafod a dechrau meithrin

arbenigedd disgyblion yn y 6ed dosbarth efallai y byddai'n ymateb diffyg athrawon pynciol yn y tymor hir.

(b) A oes cynrychiolaeth o'r ysgolion yn gwasanaethu ar y Bwrdd Ansawdd Sirol?

Atgoffwyd y Pwyllgor bod y model cenedlaethol yn seiliedig ar ranbarthau wedi ei osod ar fframwaith penodol a threfniant llywodraethu. Eglurwyd bod 6 Aelod Cabinet Addysg ar draws y Gogledd yn gwasanaethu ar Cydbwyllgor GwE sydd yn gosod cyfeiriad strategol i GwE a bod y cynllun busnes bellach gyda chydbwysedd yn agos i'w le ac fe welwyd hyn o'r canlyniadau diweddar. Nodwyd bod y Bwrdd Ansawdd Sirol yn cyfarfod pob pythefnos i drafod ac adnabod ysgolion sydd angen cefnogaeth.

Mewn ymateb i honiadau bod capasiti GwE yn mynd i leihau, nid oedd y Pennaeth Addysg yn ymwybodol o hyn, roedd o'r farn bod y staffio yn sefydlog. Fodd bynnag nodwyd bod grantiau yn cael eu torri yn gyson gan Lywodraeth Cymru ac nad yw yn glir beth fydd y setliad o safbwynt y grantiau.

(c) Croesawyd y ffaith bod cytundeb bellach na ystyrir secondiadau cyn trafod yn gyntaf gyda'r awdurdod beth fyddai goblygiadau ac effaith apwyntiadau ar sefyllfa ysgol unigol. Fodd bynnag, teimlai Aelod y dylai hyn fod wedi digwydd eisoes a chyfeiriwyd yn benodol at bedwar Pennaeth medrus wedi eu colli i GwE dros y misoedd diwethaf o fewn ei Ward. Teimlwyd bod yn ofynnol cynnal golwg craff iawn ar waith Gwe a gofynnwyd a oedd yn cynnig gwerth am arian?

O safbwynt atebolrwydd, nododd y Pennaeth Addysg bod GwE yn atebol i'r Aelod Cabinet Addysg ac mai gwaith y Pwyllgor Craffu ydoedd sicrhau bod plant Gwynedd yn cael y gorau o'r gwasanaeth. Rhaid cofio bod y model yn aeddfedu a'i fod yn cymryd amser i ymddiried mewn unrhyw endid newydd. Sicrhawyd bod Gwynedd yn cael gwerth am arian o'r gwasanaeth gan GwE.

Awgrymwyd ymhellach gan y Pennaeth Addysg y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor Craffu pe byddai yn cynnal sesiwn ar wahân iddynt ar drefniadaeth GwE yn ei gyfanrwydd.

(d) Faint sydd yn gweithio yn GwE?

Nododd yr Uwch Ymgynghorydd Her GwE bod y tîm craidd o'r cynllun busnes yn cyllido oddeutu 30 Ymgynghorydd Her ar draws y rhanbarth sy'n gweithio gydag 465 o ysgolion cynradd ac uwchradd. Nodwyd bod unigolion ychwanegol sydd yn cyfrannu at agweddau o'r gwaith yn cael eu cyllido gan grantiau o Lywodraeth Cymru ac yn aml grantiau tymor byr oeddynt yn arwain ar flaenoriaethau penodol.

(ch) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r cyfraniad cyllidol i GwE, nododd Uwch Ymgyngorydd Her GwE bod y fformwila yn seiliedig ar yr IBA h.y. ar niferoedd disgyblion cynradd, uwchradd, a dysgwyr sydd a hawl i brydau ysgol am ddim a bod pwysiad penodol i'r grwpiau uchod yn y gwahanol oedran.

(e) Beth yw gwerth y model ysgol i ysgol?

Eglurodd y Pennaeth Addysg bod y model uchod yn syniad cenedlaethol ar gyfer ysgolion i adnabod eu cryfderau eu hunan.

Ymhelaethodd yr Uwch Ymgynghorydd Her GwE ar drefniadau'r model ysgol i ysgol gan nodi bod y rhaglen yn seiliedig ar 3 model:

(i) Grŵp Ysgolion sydd yn y categori melyngoch / coch lle cynhelir y gweithrediad dwysaf gyda chynllun cymorth i bob un ysgol a'r Ymgynghorydd Her GwE yn

ganolog i'r daith o wella safonau addysg ysgol. Mae'r model wedi arwain at welliannau sylweddol.

(ii) Grŵp Ysgolion sydd yn y categori melyn - lle mae ysgolion yn parhau ar y daith gwella hefo ffocws i ddatblygu gwell gwydnwch i ansawdd arweinyddiaeth yn yr ysgol. Mae presenoldeb Ymgynghorydd Her yn llai o ran gweithredu ond fe geir hyd at 10 diwrnod ychwanegol o gefnogaeth. Yn y categori hwn gwelir ysgolion sydd ag anghenion cyffredin yn dod at ei gilydd ac yn cydweithio.

(iii) Grŵp Ysgolion Gwyrdd (neu felyn cadarn) - lle mae ysgolion yn cael rhyddid ac annibyniaeth i arwain agenda eu hunain. Pan sefydlwyd y model yn wreiddiol diffiniwyd rôl Penaethiaid yng nghyd-destun rôl yr Ymgynghorydd Her a gofyn i Benaethiaid gyd-herio cymeriad a chymryd cyfrifoldeb o waith categoreiddio'r ysgolion unigol sef proses oeddynt yn wneud i'w gilydd. Fodd bynnag roedd Penaethiaid yn teimlo'n anghyfforddus gyda'r drefn a thrwy broses o ymgynghori fe dynnwyd y gofyn hyn oddi wrthynt, a bellach roedd y model yn gosod yr Ymgynghorydd Her yn fwy canolog iddynt. Gwelwyd dros y flwyddyn bod yr ysgolion wedi eu gosod o fewn teuluoedd a chynhaliwyd cyfres o weithgareddau, hyfforddiant a sesiynau cyd-ddatblygu o fewn y teuluoedd ac maent wedi arloesi ar sawl agwedd gan greu cyfundrefn hunan wella. Gwelwyd lefel uwch o aeddfedrwydd mewn ysgolion a chynnydd yn y nifer o ysgolion yn yr haen yma sy'n tystiolaethu i effeithiolrwydd y model. Fodd bynnag parheir i esblygu'r model.

Estynnodd yr Uwch Ymgynghorydd gwahoddiad i Aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn gysgodi Ymgynghorwyr Her GwE er mwyn i aelodau ddyfnhau eu dealltwriaeth o'u gwaith a'r trefniadau.

(f) O ran ddisgyblion sydd ddim yn derbyn addysg mewn ysgolion oherwydd nifer o resymau megis anawsterau emosiynol, salwch, a.y.b. eglurodd y Pennaeth Addysg bod Bwrdd penodol wedi ei sefydlu yn lleol i ganolbwyntio ar y plant hyn i sicrhau eu bod yn derbyn yr hawl a haeddiant i addysg gyflawn ac sydd yn arwain at gymhwyster. Rhaid cofio bod diogelwch y plant yn hanfodol ac fe fyddir yn monitro'r canlyniadau.

(ff) O safbwynt un ysgol sydd wedi ei dyfarnu yn "Rhagorol" yn dilyn arolwg ESTYN ond eto mewn categori monitro awdurdod, esboniwyd oherwydd gweithdrefnau a fframwaith arolygu ESTYN ynglŷn á phresenoldeb disgyblion gosodwyd yr ysgol yn yr hanner isaf a dyna'r rheswm pam bu'n rhaid monitro.

(g) Beth yw natur a statws y rhaglen o gefnogaeth fydd yn adnabod arweinwyr y dyfodol?

Eglurodd yr Uwch Ymgynghorydd Her GwE bod gwaith wedi cychwyn i adnabod arweinwyr canol cyfredol gyda photensial i fod yn Benaethiaid effeithiol a bellach bod rhaglen ddatblygu gyflawn yn ei lle ac yn cael ei weithredu. Pan fydd cyfleoedd yn codi i'r unigolion yntau i fod yn ysgwyddo rôl fel Pennaeth Gweithredol neu Bennaeth mewn gofal nodwyd bod rhaglen i'w cefnogi nhw fel eu bod yn gallu ymgymryd â'r dasg yn y tymor byr ac fe ellir teilwro'r rhaglen i anghenion y Pennaeth.

(h) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â yw ysgolion yn gwbl barod am arolygiadau?

Eglurodd y Pennaeth Addysg bod Penaethiaid wedi mynychu hyfforddiant oddeutu blwyddyn yn ôl ac wedi eu trwytho ynglyn a chynlluniau datblygu ysgolion, hunan arfarniadau, tracio disgyblion a bod yr Ymgynghorwyr Her Gwe wedi dilyn y materion hyn i fyny ac fe welwyd ei fod wedi dwyn ffrwyth. Sicrhaodd y Pennaeth Addysg ei fod yn herio yn rheolaidd ac o'r farn bod bron pob un o'r ysgolion yn agos o fod yn barod am arolwg.

(e) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhannu ei ddyletswyddau rhwng y Sir a GwE, argyhoeddodd y Pennaeth Addysg y Pwyllgor mai ei brif ddyletswydd ydoedd cadw golwg ar safonau addysg ysgolion Gwynedd ac o ran y secondiad i GwE bod ganddo waith i'w gyflawni o'r hyn sydd yn effeithiol ac angen newid o fewn y rhanbarth.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch am yr ymatebion i ymholiadau penodol y Pwyllgor.**

**(b) Cymeradwyo i'r awgrymiadau wnaed sef:**

(i) **Gwahodd y Pennaeth Addysg i esbonio trefn llywodraethu GwE i'r Pwyllgor Craffu mewn sesiwn i'w drefnu ar wahan**

**(ii) Bod yr Uwch Ymgynghorydd Her GwE, mewn ymgynghoriad gyda'r Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol, yn gwahodd aelodau i gysgodi Ymgynghorwyr Her GwE iddynt ehangu eu dealltwriaeth o waith GwE**

**(c) Bod y Pennaeth Addysg, yn dilyn ei secondiad i Gwe, yn cyflwyno asesiad o'i ganfyddiadau ar gryfderau a gwendidau o drefniadau presennol GwE i sicrhau trefniadau hyfyw a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.**

**5. DECHRAU I'R DIWEDD – GWASANAETH PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc mewn ymateb i gwestiynau penodol godwyd gan aelodau yn y cyfarfod paratoi ar 18 Hydref 2016.

Rhoddwyd cyfle i aelodau ofyn cwestiynau pellach i'r Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac fe ymatebodd fel a ganlyn:

(a) Bod 15 o blant mewn gofal mewn unedau preswyl ac roedd y ffigwr yma yn sylweddol llai nag sydd wedi bod yn y gorffennol. Nodwyd bod y strategaeth o ran lleihau'r nifer o blant sydd yn mynd i leoliadau all sirol i dderbyn gofal mewn unedau preswyl yn weddol effeithiol. Pwysleisiwyd bod rhai o'r achosion yn anorfod.

(b) Ei fod yn anodd rhagweld os fyddai'r ffigwr uchod yn cynyddu ond cadarnhawyd nad oedd dim achos arall o'r boblogaeth ar hyn o bryd sydd mewn gofal yn edrych am leoliad all-sirol.

(c) Byddai'r Uned Egwyl fer sy'n atodol i Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth, yn cynnig darpariaeth i blant anabl sydd yng Ngwynedd ac mai'n debygol y bydd yn cyfrannu at gynyddu gallu'r Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd i gefnogi teuluoedd yn sylweddol.

(ch) O safbwynt cynlluniau i ddatblygu darpariaeth ar gyfer ambell i sector penodol megis awtistiaeth, esboniwyd bod y mater wedi ei drafod yn y Grŵp Penaethiaid Plant rhanbarthol. Cydnabuwyd bod carfan o blant yn syrthio rhwng dwy stôl yn sicr rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd o ran ei anghenion, ond nid oedd awydd gan y Grŵp i fod yn sefydlu darpariaeth isranbarthol neu ranbarthol. Bwriad a blaenoriaeth y Penaethiaid ydoedd ceisio cefnogi'r plant yn eu cartrefi yn hytrach na sefydlu darpariaeth breswyl.

(d) Mewn ymateb i'r ymholiad ynglyn a fyddai modd i'r awdurdod ddatblygu darpariaeth eu hun ar gyfer plant mewn gofal, eglurwyd mai barn y Gwasanaeth ydoedd ni ellir darparu ar gyfer pob angen yn sirol mewn Uned Breswyl. Esboniwyd bod gofal ysbaid drwy rieni maeth yn cael ei ddarparu trwy'r gwasanaeth cefnogol ac yn ogystal bod modd i'r plant dderbyn cefnogaeth mewn gweithgareddau cymunedol. Nodwyd bod Gweithwyr Cefnogol yn gweithio o fewn y Gwasanaeth sydd yn cynnig gwasanaeth i

dros 300 o blant. Strategaeth y Gwasanaeth ydoedd darparu ar gyfer plant a theuluoedd yn eu cartrefi. O safbwynt y 15 plentyn a leolir yn all sirol, heblaw am 3 neu 4, nodwyd bod y plant yn destun gorchmynion llawn i'r awdurdod sy'n golygu bod angen eu symud er mwyn eu diogelu.

(e) O safbwynt trefniadau craffu lleoliadau newydd, ymhelaethwyd nad oedd cost i'r drefn gan mai proses a sefydlwyd yn fewnol o fewn y Gwasanaeth ydoedd a elwir yn Banel Craffu Lleoliadau sydd yn cael ei gynnal yn fisol. Y Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd sydd yn cadeirio'r panel ac fe wahoddir yr uwch dim rheoli a'r rheolwyr y timau i'r panel i graffu'n fanwl ar achosion unigol gan roi sylw i:

- A yw'r cynllun gofal yn addas i'r plentyn
- Bod y plentyn yn y lleoliad cywir
- Bod dim oedi o ran cynllunio ac y ceir gwerth am arian yn y lleoliad
- Bod y lleoliad yn diwallu anghenion y plentyn
- Achosion gorchmynion gofal sydd wedi eu lleoli adref hefo'r rhieni sef edrych ar ddiogelwch
- Gofal gwirfoddolwyr lle mae rhieni yn gofyn i'r Gwasanaeth gymryd plant i'w gofal

Nodwyd bod y Tîm Trothwy yn allweddol ar gyfer y broses uchod a bod y gwaith yn llwyddiannus iawn. Pwysleisiwyd ei fod yn allweddol i'r Gwasanaeth ddychwelyd plentyn i'w rhieni o fewn yr 8 wythnos gyntaf gan fo ymchwil yn dangos eu bod yn well i'r plant a chanlyniadau i deuluoedd yn well.

Fel Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, 'roedd yn hyderus bod y plant sydd mewn gofal angen bod mewn gofal.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

## 6. YMCHWILIAD GWEITHWYR GOFAL, IECHYD A GOFALWYR

Cyflwynwyd briff drafft ar gyfer ymchwiliad o ba mor effeithiol ydoedd trefniadau'r Cyngor ar gyfer cefnogi gofalwyr di-dâl, a sut orau i gefnogi a chynyddu'r gweithlu nyrsio a gofal.

Gosododd y Rheolwr Aelodau a Chraffu'r cefndir gan dynnu sylw at y briff a'r nod o ateb y cwestiwn "pa mor gynaliadwy yw'r ddarpariaeth o ran gweithlu a gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr di-dâl yng Ngwynedd heddiw ac i'r dyfodol"? Roedd 7 aelod eisoes wedi datgan diddordeb i wasanaethu ar yr Ymchwiliad.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Lles y bwriad ond mynegodd ychydig o bryder bod ystod y gwaith yn eang o ystyried amserlen weddill oes y Cyngor ac y byddai'n rhaid cadw ffocws os am gwblhau yr ymchwiliad o fewn yr amser sydd ar gael.

Nododd y Pennaeth Adran Oedolion Iechyd a Llesiant bod gwaith yn mynd rhagddo ar lefel rhanbarthol ac y gellir rhannu'r dystiolaeth a gasglir gyda'r ymchwiliad ym mis Ionawr.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, mynegodd sawl aelod bryder ynglyn a'r amserlen heriol ac y dylid penderfynu yntau cynnal ymchwiliad ar lefel strategol neu roi ffocws ar un ffrwd gwaith penodol o fewn y maes. Yn dilyn ystyriaeth o'r amserlen, awgrymwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai cynnal ymchwiliad fyddai yn canolbwyntio ar ddarpariaeth i ofalwyr cefnogol a sut all y Cyngor helpu gofalwyr teuluol. Nodwyd y gellir ehangu'r ymchwiliad ar lefel mwy strategol ar ddyfodiad y Cyngor newydd os y byddai cyfiawnhad y gallai hynny ychwanegu gwerth. Pwysleisiwyd yr angen i gael llais y defnyddiwr fel rhan o'r Ymchwiliad.

**Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo:**

**(i) i gynnal ymchwiliad gan ganolbwyntio ar faes penodol sef darpariaeth i ofalwyr cefnogol**
**(ii)bod yr aelodau canlynol yn gwasanaethu ar yr Ymchwiliad:**
**Y Cyng. Selwyn Griffiths, Siân Wyn Hughes, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams, Ann Williams, Eirwyn Williams ac R H Wyn Williams**

**(b) Gofyn i'r Rheolwr Aelodau a Chraffu ail-lunio'r briff, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet a Phennaeth Adran Oedolion Iechyd a Llesiant, gan fwrw ymlaen yn ddi-oed yn wyneb yr amserlen heriol.**

## 7. YMCHWILIAD CRAFFU ALLTWEN

Cyflwynwyd adroddiad terfynol drafft yr Ymchwiliad Craffu Alltwen a oedd yn amlinellu gwaith yr Ymchwiliad ynghyd ag argymhellion i'w cyflwyno i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles er gweithrediad pellach.

Yn absenoldeb Cadeirydd yr Ymchwiliad, cymerodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths y cyfle i ddiolch i aelodau'r Ymchwiliad am eu gwaith clodwiw ac yn arbennig hefyd i'r rhai a restrwyd ar dudalen 51 o'r adroddiad, yn ogystal â Gareth James (Rheolwr Aelodau Craffu) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau). Tynnodd sylw'r Aelod Cabinet at yr argymhellion ac yn benodol gofyn iddo sicrhau gwasanaeth derbynnydd i ateb ffôn yn ystod oriau gwaith craidd y tim integredig yn Ysbyty Alltwen

Ategodd yr Aelod Cabinet y diolchiadau i bawb a gymerodd ran yn yr Ymchwiliad a thalodd deyrnged a llongyfarch staff y Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol am y cynllun arloesol hwn gyda'r canlyniadau wedi bod yn werthfawr tu hwnt. 'Roedd yn croesawu ac yn derbyn yr argymhellion, yn enwedig yr argymhelliad i ymestyn y model gweithio'n integredig i weddill y Sir gan ei fod o'r farn mai dyma'r ffordd i weithio i'r dyfodol. Roedd rhai o'r argymhellion yn rhai gweithredol ac roedd nifer o elfennau gwaith i ddelio â'r materion yma eisoes ar y gweill a/neu yn eu lle yn barod.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol gwnaed y sylwadau canlynol:

(a) derbyniwyd eglurhad o'r term powlen pysgodyn gan nodi mai cyfarfod aml-asiantaethol ydoedd ac iddo strwythur penodol a oedd yn cynnwys nyrs a ffisiotherapydd, ac yn fodd gwerthfawr i ystyried datrysiadau. Fodd bynnag, nid oedd modd ei gynnal gyda phob achos oherwydd dibyniaeth ar amserlen.
(b) Er mwyn i argymhelliad 4.1 lwyddo, pwysleisiwyd yr angen i gael un system gyfrifiadurol er mwyn cofnodi manylion cleifion fel bo staff y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu cael mynediad i'r un system.
(c) Gofynnwyd a oedd bwriad i gael barn defnyddwyr y gwasanaeth fel atodiad i'r adroddiad?
(d) Mewn ymateb i'r uchod, roedd y Tîm Alltwen yn casglu gwybodaeth ac yn ei nodi ar system RAISE. Hefyd, mae'r drefn wedi ei seilio ar gael sgwrs wyneb yn wyneb gyda'r defnyddwyr ac fe fyddir yn casglu barn defnyddwyr pan yn cynnal adolygiadau gyda phawb.
(e) Gofynnwyd beth oedd ymateb y Bwrdd Iechyd ac yn benodol a oedd yr Uwch Reolwyr yn gefnogol?
(f) Mewn ymateb, nodwyd eu bod yn gefnogol iawn a rhestrodd Cyfarwyddwr Rhanbarth y Gorllewin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wobrwyon a ddaeth i ran staff rhanbarth y Gorllewin ac ymysg oddeutu 50 o wobrwyon braf ydoedd nodi'r buddugwyr isod:
    - Tîm Ffordd Gwynedd - Gwobr am Ffurf Newydd o Weithio
    - Ysbyty Alltwen – Gwobr gwaith gyda Dementia

- Ysbyty Dolgellau – Gwobr Rhoi Arfer Dda i bractis
- Fferyllfa Ysbyty Gwynedd – Gwobr Gweithio'n Ddwyieithog
- Prif Weinyddes Nyrsio Ward y Plant Ysbyty Gwynedd – Gwobr Arweinyddiaeth

(g) Gwelir llawer o nyrsys yn cymryd nodiadau wrth ymweld â chleifion ac yn gorfod bwydo'r wybodaeth i gyfrifiadur wedi hynny - a oedd unrhyw symudiad i newid y dull hwn o weithio?

(h) Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Ardal, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant tra'n derbyn bod nyrsys yn parhau i ddefnyddio dyddiaduron ar gyfer cymryd nodiadau bod disgwyl yn eiddgar am system newydd all wneud cyfraniad pwysig i leihau hyn.

(i) Ers misoedd lawer bellach bod canmoliaeth enfawr i weithio integredig fel y gweithredir yn Ysbyty Alltwen a gofynnwyd be all y Cyngor wneud i symud y dull hwn ymlaen?

(j) Mewn ymateb, nododd Pennaeth Adran Oedolion Iechyd a Llesiant bod canlyniad gwaith yr Ymchwiliad yn gymorth i'r Adran ac yn cynnig y math o gefnogaeth sydd ei angen i godi momentwm o'i ehangu. Pan mae rhwystrau penodol yn codi, yn naturiol mae gan y Rheolwr Ardal, Adran Oedolion Iechyd a Llesiant eu cyfrifoldebau, ynghyd â'r Uwch Reolwr a Phennaeth yr Adran a chyfeirir rhai materion at yr Aelod Cabinet. Os oes elfennau penodol i gael penderfyniad gwleidyddol, sicrhawyd y byddir yn eu codi gydag Aelodau.

(k) Ategwyd a phwysleisiwyd yr angen i gyflogi derbynnydd a phryderwyd y byddai gwaith caled yr Ymchwiliad a'r Tîm yn cael ei danseilio.

(l) Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ei fod yn deall pam y gwneir y sylw ac wrth gwrs rhaid bod yn ofalus i beidio colli galwadau. Fodd bynnag, o'r ochr rheolaethol, bod angen edrych ar y darlun ehangach a'r adnoddau sydd angen o ran y dull newydd o weithio, cyn ymrwymo i hyn yn barhaol. Sicrhawyd y byddir yn rhoi sylw i'r mater.

(m) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â gwelyau preswyl (EMI), nododd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod bwriad i ymgymryd â darn o waith yn y cyswllt hwn. Rhaid gwneud y defnydd gorau o'r hyn sydd ar gael a cheisio sicrhau bod y sector breifat yn gynaliadwy oherwydd treulir llawer iawn o amser y staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ceisio cynorthwyo rhai o'r cartrefi. Nodwyd bod y sefyllfa yn un anodd ar hyn o bryd ac fe fyddai'n angenrheidiol ystyried be ellir gwneud o ran y defnydd gorau o'r stoc cartrefi sydd ym meddiant y Cyngor. Nodwyd bod y gwir bwysau yn ymwneud ag elfennau nyrsio yn hytrach nag elfennau preswyl. Byddai'n ofynnol edrych yn wrthrychol i newid y cydbwysedd o fewn y cartrefi ac addasu'r ddarpariaeth ar draws y Sir.

(n) Mewn ymateb i ymholiad a oedd hyn felly yn golygu cofrestriad deublyg (dual registration), eglurodd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y byddai'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol gydweithio i geisio darparu gwasanaeth ychydig mwy dwys nag a ddarperir yn y cartrefi presennol. Byddai hyn yn golygu addasu cofrestriadau y cartrefi. Nododd Cyfarwyddwr Rhanbarth y Gorllewin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ymhellach bod AGGCC yn nodi'n glir bod yn rhaid cael nyrs ar alwad o fewn y cartrefi. Ond bod gwaith yn mynd rhagddo gan y Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol i ystyried model ychydig yn wahanol o sut i gael cyswllt agos rhwng y ddarpariaeth iechyd ar lefel lleol a darpariaeth gofal yn y cartref ar gyfer cleifion dwys i osgoi iddynt orfod teithio yn bell i dderbyn gwasanaeth. Yn ogystal, rhaid ysytried y math o ofalwyr ac yn benodol y llwybr gyrfa ar gyfer dyrchafu gofalwyr i fod yn nyrsys.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant dderbyn argymhellion yr Ymchwiliad Craffu fel amlinellir ym mhwyntiau 4.1 – 4.10 o'r adroddiad ac i gyflwyno diweddariad o'r camau gweithredu ynghyd ag adborth gan y defnyddwyr o effaith y model gweithio integredig i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwn ymhen 6 mis.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 12.35 o'r gloch

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **Dyddiad:** | 26 Ionawr 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Mair Rowlands |
| **Arweinydd y prosiect:** | Jenny Williams (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistrefol Sir Conwy) |
| **Swyddog Cyswllt:** | Rhion Glyn (Uwch Reolwr Busnes, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) |
| **Pwnc:** | Adroddiad Drafft Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru |

## 1 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Cyflwyno Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru a gynhyrchwyd yn unol â gofyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## 2 Y penderfyniad a geisir

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu Adroddiad Drafft Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru (Manylion yn rhan 3.4 o'r adroddiad hwn).

## 3 Rhesymau am argymhellion

3.1 Mae Adran 14 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd i asesu ar y cyd:

a) I ba raddau y mae pobl mewn ardal awdurdod lleol angen gofal a chefnogaeth
b) I ba raddau y mae gofalwyr mewn ardal awdurdod lleol angen cefnogaeth
c) I ba raddau y mae pobl mewn awdurdod lleol ble nad yw eu hanghenion gofal a chefnogaeth yn cael eu diwallu
d) Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn ardal yr awdurdod lleol
e) Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i gyflawni'r pwrpas yn Adran 15(2) (gwasanaethau ataliol) yn ardal yr awdurdod lleol
f) Y gweithrediadau sydd eu hangen i ddarparu ystod a lefel y gwasanaethau a ganfuwyd yn unol â pharagraffau (d) ac (e) drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.2 Mae disgwyliad fod yr asesiad yn rhoi ystyriaeth i'r themâu canlynol: plant a phobl ifanc, pobl hŷn, anabledd iechyd / corfforol; anabledd dysgu / awtistiaeth; iechyd meddwl; nam ar y synhwyrau, gofalwyr sydd angen cefnogaeth; trais yn erbyn merched, trais yn y cartref a thrais rhywiol. Yng ngogledd Cymru, mae'r themâu canlynol hefyd wedi eu cynnwys: digartrefedd, cyn-filwyr, carcharorion a chyn garcharorion, ynghyd â chyswllt i'r Asesiad Anghenion Camddefnyddio Sylweddau y Bwrdd Cynllunio Ardal.

3.3 Gofynnir am gynhyrchu un adroddiad ar gyfer rhanbarth gogledd Cymru, a sicrhau cymeradwyaeth gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor llawn ym mhob Awdurdod Lleol. Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad ar 1 Ebrill 2017, a hynny ar wefan pob Awdurdod


Lleol a Bwrdd Iechyd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd copi hefyd yn cael ei yrru at Weinidogion Cymreig.

3.4 Mae fersiwn cryno o'r asesiad wedi ei chynnwys fel Atodiad 1. Mae copi llawn o'r Adroddiad Asesiad Poblogaeth ar gael drwy gysylltu gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

## 4 Gwybodaeth gefndirol

4.1 Ar gais Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru, mae Grŵp Llywio Rhanbarthol wedi bod yn arwain y gwaith yn strategol o ran ymgysylltu a sefydlu grwpiau technegol a phenodol yn ôl yr angen. Eto serch yr arweiniad rhanbarthol, mae trwch o'r gwaith casglu gwybodaeth, y dadansoddi a'r ymgysylltu wedi'i wneud yn lleol o fewn Gwynedd.

### Strwythur Rheoli Prosiect Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru




4.2 Mae'r Adroddiad Asesiad Poblogaeth wedi'i arwain a'i lywio gan yr ymgysylltu a wnaethpwyd; ac yn seiliedig felly ar yr adborth gan staff, partneriaid, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd ynghylch sut i adnabod yr anghenion strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i strategaethau comisiynu ac asesiadau anghenion cyfredol. Bu tîm y prosiect yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth er mwyn herio'r rhagdybiaethau, ac fe wnaed hyn trwy ddadansoddi data, adolygu dogfennau cefndirol, adolygu gwasanaethau a gwaith ymgysylltu ychwanegol.

4.3 Mae'r gofyn am lunio adroddiad hygyrch a rhanbarthol o fewn amserlen dynn wedi cyfyngu rhywfaint ar yr hyn sydd wedi ei gynnwys ynddo. Ond serch hyn rhagwelir y bydd yr adroddiad hwn yn sail tystiolaeth ar gyfer gwasanaethau a strategaethau'r dyfodol, ac yn greiddiol hefyd i ddatblygiadau integreiddio gwasanaethau yn ogystal â chefnogi trefniadau cydweithio.

4.4 Cam nesaf y prosiect yn rhanbarthol fydd defnyddio'r Asesiad Poblogaeth i ddatblygu cynllun ardal ar gyfer rhanbarth y gogledd, ac i'r perwyl hwnnw rydym ar hyn o bryd yn disgwyl arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

4.5 Yn ystod y misoedd nesaf byddwn hefyd yn datblygu'r asesiad ymhellach ar gyfer Gwynedd, er mwyn sicrhau y bydd gennym sail tystiolaeth addas ar gyfer comisiynu yn y dyfodol.

4.6 Bu i'r ymgysylltu ar gyfer yr asesiad gynnwys: holiadur i sefydliadau yn gofyn eu barn ac am dystiolaeth; canllaw i hwyluswyr er mwyn i bartneriaid eu defnyddio i gynnal grwpiau trafod gyda defnyddwyr gwasanaeth; holiadur i'r cyhoedd ar wefan y Panel Dinasyddion ynghyd â chyfweliadau gydag aelodau'r Panel Dinasyddion; yn ogystal â gweithdai hefo staff a chynghorwyr. Rhagwelir y bydd ymgysylltu pellach yn digwydd fel rhan o'r gam nesaf y prosiect.

4.7 Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus lunio Asesiad Llesiant fel gofyniad o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a hynny o fewn amserlen debyg i'r Asesiad Poblogaeth. Tra mae'r Asesiad Poblogaeth yn ystyried anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth, mae'r Asesiad Llesiant yn rhoi sylw i lewyrch, iechyd, gwydnwch, cydraddoldeb, diwylliant egnïol, cyfrifoldeb byd-eang, a chymunedau cydlynol. Ond gyda'r ddau faes cyfrifoldeb yn amlwg yn gorgyffwrdd mae cydweithio a chyfathrebu cyson wedi bod gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws y gogledd. Er enghraifft, fe wnaed gwaith ymgysylltu ar y cyd ar gyfer y ddau asesiad.

4.8 Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn yn cael ei gwblhau fel rhan o'r prosiect.

## 5 Goblygiadau adnoddau

5.1 Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru yn ariannu'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol i gefnogi'r cynllun, yn ogystal â chostau costau eraill megis cyfieithu ac ymgysylltu arbenigol. Er hyn, mae'r gwaith wedi golygu costau ychwanegol i'r awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff i gefnogi'r prosiect e.e. staff i ymgymryd â gwaith ymgysylltu efo'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, ac aelodau etholedig ayyb.

| **Papurau cefndirol** | **Gwybodaeth gwefan** |
|---|---|
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer | http://www.cgcymru.org.uk/codau-ymarfer-ac-arweiniad-statudol / |

**ATODIAD 1**

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru

# Adroddiad Cryno

## Drafft 0.2

## 24 Tachwedd 2016

Draft

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

**Nodiadau ar adroddiad yr asesiad poblogaeth**

Dyma'r adroddiad drafft terfynol, a luniwyd i'w drafod a'i gymeradwyo gan y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 1 Ebrill 2017, a hynny ar wefan pob cyngor a gwefan y Bwrdd Iechyd. Cyn ei gyhoeddi, bydd newidiadau'n cael eu gwneud, a bydd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei hychwanegu.

- Gwybodaeth am sut i wneud cais am gopi o'r ddogfen mewn fformatau eraill.
- Fersiwn i blant a phobl ifanc, ynghyd â fersiwn hawdd ei deall o'r adroddiad.
- Bydd cyfeiriad gwefan ar gyfer lawrlwytho'r ddogfen yn cael ei ychwanegu, ynghyd â hyperddolenni rhwng y penodau, er mwyn hwyluso'r llywio.
- Gwybodaeth am sut i gyrchu'r adroddiad Cymraeg o'r fersiwn Saesneg, ac i'r gwrthwyneb.
- Atodiadau ychwanegol, gan gynnwys adroddiadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu. Mae negeseuon allweddol eisoes wedi'u cynnwys ym mhob pennod, ac mae'r cyflwyniad yn rhoi crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, mae adrannau wedi'u huwcholeuo'n las, lle bydd angen i ddolenni i'r atodiadau gael eu hychwanegu cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Draft

# 1 Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Fe'i lluniwyd gan y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf).

Nod yr adroddiad yw gwella ein dealltwriaeth o'n poblogaeth, ynghyd â sut y gallai newid dros y blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Er mwyn paratoi'r adroddiad, aethom ati i edrych ar ystadegau, i siarad â chymunedau, ac i ddefnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth a oedd wedi'i chasglu gan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau, a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau.

Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cynllun ardal, y mae'n rhaid iddo gael ei baratoi ar y cyd rhwng y bwrdd iechyd â'r cynghorau lleol, a hynny dan oruchwyliaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ôl y canllawiau drafft ar y cynllun ardal, mae'n rhaid i ni gynnwys y gwasanaethau penodol sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i bob thema graidd sydd wedi'i nodi yn yr asesiad poblogaeth. Rhaid i gynllun ardal cyntaf Gogledd Cymru gael ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2018 (Llywodraeth Cymru, 2016d).

## Dulliau ymchwil

Roedd yr asesiad poblogaeth yn seiliedig ar 'ymgysylltu'. Mae hyn yn golygu ein bod wedi defnyddio'r hyn yr oedd pobl yn ei ddweud wrthym am anghenion gofal a chymorth, i lunio ein cwestiynau ymchwil. Yna, aethom ati i gasglu data o nifer o ffynonellau gwahanol, er mwyn ateb y cwestiynau a herio ein canfyddiadau cychwynnol.

**Asesiad poblogaeth mewn ffigurau**

- Aethom ati i adolygu dros 100 o bolisïau, strategaethau a chynlluniau presennol ar draws y chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd.
- Cawsom 133 o ymatebion gan sefydliadau i'n harolwg ynghylch angen pobl am ofal a chymorth.
- Aethom ati i ddefnyddio canfyddiadau dros 300 o ymgyngoriadau ac adroddiadau ymchwil.
- Ar y cyd â'n partneriaid, bu i ni gynnal 16 o ddigwyddiadau a dosbarthu tri holiadur, a gyrhaeddodd dros 260 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.
- Cynhaliodd y Panel Dinasyddion gyfweliadau â 34 o aelodau o'r cyhoedd.

Draft

- Trefnodd cynghorau lleol tua 20 o weithdai ar gyfer staff a chynghorwyr.

## Ymgynghori ac ymgysylltu

### Dulliau ymgynghori ac ymgysylltu

Mae gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru bolisi rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion (Cyngor Sir Ynys Môn *et al.*, 2016). Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru, ynghyd ag egwyddorion cydgynhyrchu, a lywiodd ein cynllun ymgynghori. Cynlluniwyd proses ymgysylltu'r asesiad poblogaeth gan grŵp o staff o bob cyngor lleol, y bwrdd iechyd, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Aethant ati i restru'r gwahanol grwpiau o bobl y gallai'r asesiad poblogaeth effeithio arnynt, ac i gynllunio sut y byddent yn eu cynnwys. Adolygwyd y rhestr hon hanner ffordd trwy'r prosiect, a chynlluniwyd cyfleoedd ychwanegol i lenwi'r bylchau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Roedd y cynllun ymgysylltu yn cynnwys:

- Holiadur ar gyfer sefydliadau, a oedd yn gofyn am eu barn ac am unrhyw dystiolaeth ategol a oedd ganddynt, er enghraifft mesurau perfformiad neu adroddiadau ymgynghori.
- Grwpiau trafod â defnyddwyr gwasanaethau, wedi'u cefnogi gan ganllaw i hwyluswyr. Roedd rhai siroedd hefyd wedi dosbarthu holiaduron hunanlenwi.
- Holiadur ar gyfer y cyhoedd (pobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth) ar wefan y Panel Dinasyddion, ynghyd â chyfweliadau ag aelodau'r Panel Dinasyddion. Roedd un sir hefyd wedi dosbarthu holiadur ychwanegol i bobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.
- Gweithdai â staff a chynghorwyr, wedi'u trefnu gan bob cyngor lleol.
- Adolygiad o waith ymchwil ac ymgynghori perthnasol, gan gynnwys ynghylch deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau anghenion, ac adroddiadau ymgynghori.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r ymgynghoriad, a hynny trwy'r cynghorau gwirfoddol sirol yng Ngogledd Cymru ac amrywiol rwydweithiau rhanbarthol eraill. Hyrwyddodd y cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd yr ymgynghoriad trwy eu gwefannau, ynghyd â'u tudalennau Facebook a Twitter. Anfonwyd datganiadau i'r wasg at bapur newydd y Leader, Wrexham.com, y Daily Post, BBC Cymru, yn ogystal â gorsafoedd radio Capital a Heart. Cysylltwyd â grwpiau penodol, gan gynnwys pobl â nodweddion wedi'u diogelu, trwy grwpiau a rhwydweithiau a oedd yn bodoli eisoes (gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb). Lluniwyd cylchlythyr chwarterol, a oedd yn cynnwys diweddariadau am y prosiect ar gyfer staff a sefydliadau partner, ac a fu hefyd yn fodd i nodi grwpiau i gysylltu â nhw am y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Mae yna bobl o hyd nad oeddem wedi llwyddo i

Draft

gysylltu â nhw o fewn yr amserlen, a'r rheiny fydd yn cael blaenoriaeth yng ngham nesaf y prosiect.

Ochr yn ochr â'r asesiad poblogaeth hwn, roedd gwaith yn mynd rhagddo i gynhyrchu asesiadau llesiant ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae yna bedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru a oedd yn paratoi ar gyfer hyn. Lle bo modd, roedd unrhyw waith ymgysylltu yn cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion y ddau asesiad. Mewn rhai ardaloedd, roedd hyn yn golygu anfon holiaduron ar y cyd, tra bo gweithdai a grwpiau trafod ar y cyd yn cael eu cynnal mewn ardaloedd eraill.

## Gwasanaethau ataliol

Draft

Yn 2015, cynhaliwyd prosiect yng Ngogledd Cymru i edrych ar wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, yn barod ar gyfer y Ddeddf, a hynny gyda chefnogaeth Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru (NWSCWIC). Y nod oedd datblygu fframwaith o ymyraethau targededig; cyfrannu at yr asesiad poblogaeth; darparu llinell sylfaen ar gyfer gwaith comisiynu a chaffael integredig; a chefnogi trothwyon cymhwystra cyson. Aeth y grŵp ati i asesu tystiolaeth ac asesiadau anghenion lleol, er mwyn nodi'r prif achosion neu'r ffactorau sbarduno sy'n gwneud i bobl gysylltu â gwasanaethau ac sydd, mewn llawer o achosion, yn arwain at bobl yn cael gwasanaethau gofal a chymorth a reolir. Roeddent hefyd wedi edrych ar ymyraethau a allai fynd i'r afael â ffactorau sbarduno, ac wedi'u cysylltu â chanlyniadau llesiant y Ddeddf. Yna, aeth y grŵp ati i ddatblygu offeryn asesu risg, er mwyn ystyried y risgiau o ran hygyrchedd, cyllid a threfniadaeth a oedd yn gysylltiedig ag argaeledd pob ymyrraeth ym mhob sir. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i greu blaenoriaethau ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Hefyd, yn rhan o'r asesiad poblogaeth, aeth Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ati i chwilio trwy lenyddiaeth, er mwyn nodi'r sail dystiolaeth ar gyfer yr ymyraethau a ddisgrifiwyd.

Mae'r gwaith hwn yn llywio rhan o asesiad poblogaeth cyffredinol Gogledd Cymru, ac mae ar gael yma: sail dystiolaeth.

### Eiriolaeth

'Ystyr eiriolaeth yw cymryd camau i helpu pobl i ddweud beth y mae arnynt ei eisiau, i sicrhau eu hawliau, i gynrychioli eu buddiannau, ac i gael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.

Mae eiriolwyr a chynlluniau eiriolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r bobl y maent yn eu cefnogi, ac yn ochri â nhw. Mae eiriolaeth yn hybu cynhwysiant cymdeithasol, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol (Action for Advocacy, 2002)'

Mae Eiriolaeth yn rhan o'r portffolio o wasanaethau ataliol sydd ar gael, a chafodd ei gynnwys yn yr ymarfer asesu risg ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Hefyd, comisiynodd NWSCWIC waith ymchwil i lais a rheolaeth y dinesydd yng

Ngogledd Cymru (Wavehill, 2016). Mae'r ymchwil hon yn cynnwys crynodeb o'r gwasanaethau eirioli annibynnol ledled Gogledd Cymru ar gyfer plant, pobl ifanc, ac oedolion, ac mae'n rhan o'r asesiad poblogaeth.

Yng ngham nesaf y prosiect, sef paratoi cynlluniau a strategaethau mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth, mae angen i ni edrych ar drefniadau comisiynu'r cynghorau a'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer gwasanaethau eirioli, er mwyn cydnabod unrhyw orgyffwrdd posibl yn y trefniadau, ac ymateb iddo. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda Rhaglen Golden Thread Age Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen hon yn anelu at wella llesiant unigolion trwy eiriolaeth, ac at roi llais cryfach iddynt; gwella'r ddealltwriaeth o eiriolaeth; a gweithio gyda chynghorau lleol a darparwyr gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau.

## Llywodraethu

### Llywodraethu prosiectau

Sefydlodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru grŵp llywio rhanbarthol i arwain gwaith yr asesiad poblogaeth, gyda grwpiau technegol, ymgysylltu, a thema yn arwain ar dasgau penodol. Cadeiriwyd y grŵp llywio gan Jenny Williams, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac Andrew Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Roedd pob grŵp yn cynnwys aelodau o bob cyngor lleol yng Ngogledd Cymru, ynghyd ag aelodau o BIPBC, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd adroddiad interim ar gynllun y prosiect ei gynhyrchu ym mis Gorffennaf, ynghyd ag adroddiadau amlygu, a gafodd eu rhannu â byrddau rhanbarthol trwy Partnership Friday, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chynghorau lleol. Cafodd cylchlythyrau prosiect eu cynhyrchu bob chwarter (ym misoedd Mawrth, Mehefin a Medi 2016), a'u dosbarthu'n eang trwy gynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd a phob cyngor.

## Trosolwg ar boblogaeth Gogledd Cymru

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth breswyl o oddeutu 690,000 o bobl, a hynny dros ardal o oddeutu 2,500 milltir sgwâr. Gwynedd, yn y gorllewin, yw'r ardal sydd â'r dwysedd poblogaeth isaf, gyda 49 o bobl fesul cilometr sgwâr, a Sir y Fflint, yn y dwyrain, yw'r ardal sydd â'r dwysedd poblogaeth uchaf, gyda 350 o bobl fesul cilometr sgwâr.

Disgwylir i boblogaeth Gogledd Cymru gynyddu i 720,000 erbyn 2039. Gellir priodoli poblogaeth gynyddol Gogledd Cymru i gyfradd genedigaethau sy'n cynyddu a chyfradd marwolaethau sy'n gostwng, sydd wedi arwain at ddisgwyliad oes estynedig (Llywodraeth Cymru, 2016a).

Draft

Disgwylir i boblogaeth y rhan fwyaf o gynghorau lleol yng Nghymru gynyddu rhwng 2014 a 2039. Disgwylir mai Wrecsam fydd yn gweld y cynnydd ail fwyaf yng Nghymru (10%); disgwylir i boblogaethau Gwynedd a Wrecsam gynyddu'n raddol; disgwylir i boblogaeth Ynys Môn ostwng yn raddol; a disgwylir i boblogaethau Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint gynyddu, cyn gostwng, ond gan barhau'n uwch yn 2039 nag yr oeddent yn 2014.

### Y Gymraeg

Yng Ngogledd Cymru, Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 65%, er y gall y gyfran hon fod yn uwch mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru, mae 57% o breswylwyr Ynys Môn yn siarad Cymraeg, 27% yng Nghonwy, a 25% yn Sir Ddinbych. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint (13.2%) a Sir Ddinbych (12.9%) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r holl ardaloedd cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru wedi gweld gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011, gyda'r gostyngiad mwyaf yng Ngwynedd (-3.6%). Mae ychydig dros hanner (53%) y siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru yn rhugl yn yr iaith, ac mae 63% yn siarad Cymraeg yn ddyddiol; yng Ngwynedd, mae 78% o'r preswylwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae 85% yn siarad Cymraeg bob dydd.

### Tlodi ac amddifadedd

Yng Ngogledd Cymru, mae 12% o'r boblogaeth yn byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, o gymharu ag 19% ledled Cymru; fodd bynnag, mae hyn yn celu'r pocedi sylweddol o amddifadedd ar draws y rhanbarth, y mae rhai ohonynt ymhlith y lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru. Gorllewin y Rhyl 2 (Sir Ddinbych) a Queensway 1 (Wrecsam) yw'r ail a'r drydedd ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn y drefn honno. Mae tair ardal arall yn y Rhyl (Gorllewin y Rhyl 1, Gorllewin y Rhyl 3, a De y Rhyl), o blith yr 20 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2014).

## Cyfyngiadau, gwersi a ddysgwyd, a'r camau nesaf

Mae paratoi un asesiad poblogaeth hygyrch ar draws chwe sir ac un bwrdd iechyd o fewn yr amserlenni a osodwyd, wedi bod yn broses heriol. Mae llawer iawn wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlenni, a hynny'n ddiolch i ymdrechion: tîm y prosiect; grŵp llywio'r prosiect, y grŵp technegol, a'r grŵp ymgysylltu; sefydliadau partner a gyfrannodd wybodaeth a chanllawiau; aelodau o staff, aelodau etholedig, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd, a gymerodd ran yn y gwaith ymgysylltu; y grwpiau a ysgrifennodd y penodau; a'r llu o bobl a fu wrthi'n adolygu ac yn gwneud sylwadau ar ddrafftiau cynnar o bob pennod.

Serch hynny, rydym wedi dysgu llawer o'r broses, ac mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Dylai'r asesiad poblogaeth gael ei ystyried yn ddechrau proses, yn hytrach nag

yn gynnyrch gorffenedig. Lle y mae cyfyngiadau wedi'u nodi yn yr adroddiad, gellir mynd i'r afael â'r rhain mewn gwaith ar y cynllun ardal, ac yn yr adolygiad o'r asesiad poblogaeth. Mae'r canllawiau'n nodi bod angen i'r asesiad gael ei adolygu ymhen dwy flynedd, o leiaf, tra bo'r pecyn cymorth yn argymell y dylai gael ei adolygu'n amlach.

Mae rhai o'r materion a nodwyd yn ystod y broses, y mae angen mynd i'r afael â nhw, wedi'u rhestru isod.

- Bydd yr adroddiad yn darparu sail dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau a strategaethau, ac yn ategu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau a chefnogi trefniadau partneriaeth. Dylai fod yn offeryn defnyddiol i gynllunwyr a chomisiynwyr mewn awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, mae angen strategaethau comisiynu a datganiadau o sefyllfa'r farchnad, er mwyn nodi'r cynllun a'r weledigaeth leol ar gyfer gwasanaethau mewn ardal, ynghyd â'r cymorth sydd ar gael ar gyfer darparwyr.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd, ond nid yw'n eu disgrifio'n fanwl nac yn ceisio mapio'r holl ddarpariaeth leol. Oherwydd cymhlethdod y dasg hon, efallai y byddai'n well blaenoriaethu meysydd ar gyfer y math hwn o adolygiad.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys peth gwybodaeth mesur perfformiad gwasanaeth lefel uchel, ond nid yw'n cynnwys dadansoddiad manwl o ddangosyddion perfformiad y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y catalog o ddata cenedlaethol neu'r dadansoddiad o gyllidebau neu wariant gwirioneddol gwasanaeth.
- Mae yna grwpiau nad oeddem wedi gallu eu cynnwys yn y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu, a'r rhain a ddylai gael blaenoriaeth mewn gwaith yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y cynllun ymgysylltu a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [add link].
- Mae angen i'r adroddiad gael cyhoeddusrwydd eang, er mwyn adeiladu ar y cysylltiadau a wnaed hyd yma a chyrraedd pobl nad ydynt wedi cael cyfle i fod yn rhan o gam cyntaf y prosiect.
- Cysylltu'r asesiad poblogaeth a'r asesiadau llesiant a gynhyrchwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r asesiad poblogaeth yn cynnwys anghenion gofal a chymorth pobl, tra bo'r asesiad llesiant yn ymdrin â ffyniant, iechyd, cydnerthedd, cydraddoldeb, diwylliant bywiog, cyfrifoldeb byd-eang, a chymunedau cydlynus. Mae'r asesiadau wedi cael eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd, ac mae'r swyddogion sydd wedi bod yn rhan o'r ddau ohonynt wedi cydweithio ar elfennau o'r prosiectau. Serch hynny, bydd mwy o gysylltiadau yn dod i'r amlwg wrth iddynt gael eu cyhoeddi.

Draft

- Mae yna bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth y mae eu hanghenion penodol y tu hwnt i'r themâu yr ymdrinnir â nhw ym mhenodau'r adroddiad. Mae angen gwneud rhagor o waith i nodi eu hanghenion, ynghyd â'r bobl sydd ag anghenion lluosog neu gymhleth.

Yn ogystal â'r uchod, mae materion penodol wedi'u nodi ar ddiwedd pob pennod, er mwyn gwneud gwaith pellach yn y dyfodol.

Mae gwersi hefyd wedi'u dysgu am y broses, sydd wedi'u cofnodi, a byddant yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith ar y cynllun ardal a'r adolygiad o'r asesiad poblogaeth.

## Rhagor o wybodaeth

Roedd llawer mwy o wybodaeth wedi cael ei chasglu i lywio'r adroddiad hwn nag y bu modd ei chynnwys. Mae gwybodaeth gefndir ychwanegol ar gael ar gais [add link to contact details on website]:

Draft

# 2 Plant a Phobl Ifanc

**Y prif ganfyddiadau**

- Mae tua 124,000 o blant 0-15 oed yng Ngogledd Cymru. Ni welwyd fawr o newid yn nifer y plant a phobl ifanc yn y pum mlynedd diwethaf, ac mae’r tuedd hwn yn debygol o barhau am y 25 mlynedd nesaf.
- Mae’r mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru yn iach ac yn fodlon eu byd, ond mae angen gwneud mwy i: daclo pwysau geni isel; lleihau cyfradd marwolaethau babanod; gwella cyfraddau bwydo ar y fron a chyfraddau imiwneiddio; lleihau gordewdra mewn plant, a lleihau smygu ac yfed alcohol.
- Bu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i’r gwasanaethau plant, ond ni wyddys eto sut y bydd nifer yr atgyfeiriadau yn newid mewn ymateb i ehangu cymhwystra o dan y Ddeddf newydd.
- Caiff y mwyafrif o atgyfeiriadau i’r gwasanaethau plant eu gwneud gan yr heddlu, neu gan adran gwasanaethau cymdeithasol y cynghorau eu hunain, a’r prif resymau dros atgyfeirio yw camdriniaeth neu esgeulustod.
- Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gwelwyd cynnydd o 9% yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ac yn nifer y plant sy’n derbyn gofal yng Ngogledd Cymru.
- Mae yna bryder cynyddol ynghylch secstio a bwlio ar-lein.
- Mae nifer mawr o blant o’r tu allan i’r rhanbarth yn derbyn gofal yng Ngogledd Cymru, a bu’r nifer hwn yn cynyddu. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau lleol megis iechyd, addysg, yr heddlu a’r gwasanaethau cefnogi.
- Mae’r galwadau ar y gwasanaeth maethu yn newid yn sgil y cynnydd mewn maethu gan berthnasau/person cysylltiedig.
- Wrecsam sydd â’r nifer mwyaf o droseddwyr ifanc, yn ogystal â’r gyfradd troseddu uchaf yn y rhanbarth. Mae pob awdurdod lleol, ac eithrio Ynys Môn, wedi gweld gostyngiad yn nifer y troseddwyr ifanc dros y tair blynedd diwethaf.
- Mae nifer y plant a phobl ifanc sy’n dioddef troseddau yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Gall hyn fod oherwydd nifer o resymau sy’n cynnwys: cynnydd yn y gallu/parodrwydd i riportio troseddau; cynnydd yn nifer y troseddau a gyflawnir, neu gynnydd o ran mathau penodol o droseddau, er enghraifft seiberdroseddu.
- Mae nifer y plant anabl wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Roedd iechyd meddwl ac iechyd emosiynol plant yn bryder a godwyd yn gyson. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd o ran hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta, yn ogystal â phroblemau ymlyniad.
- Mae angen i’r holl wasanaethau cyffredinol ddefnyddio dull gweithredu integredig o ran iechyd a lles plant a’u teuluoedd er mwyn atal cynifer o broblemau â phosibl, ac er mwyn hyrwyddo gwytnwch mor gynnar â phosibl. Gall tystiolaeth

Draft

newydd am effeithiau lluosol Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gyfeirio rhagor o ymwybyddiaeth a chefnogaeth tuag at atal y profiadau hyn a lleihau eu heffaith.

- Mae angen darparu cefnogaeth rhianta i dorri cylchoedd rhianta amhriodol a chodi hyder rhieni yn eu sgiliau i fagu eu plant mewn amgylchedd cefnogol a chadarnhaol.
- Mae'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhan bwysig o'r gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.
- Nodwyd bod dros 1,000 o ofalwyr ifanc yng Ngogledd Cymru, a bod y nifer hwn wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar. Mae yna angen cynyddol am gefnogaeth un i un ar gyfer gofalwyr ifanc, ynghyd â chefnogaeth i ofalwyr ifanc dan 8 oed.

## Yr argymhellion a'r camau nesaf

Gan fod yr amserlen yn dynn, ac oherwydd yr amrywiaeth eang o anghenion a drafodwyd yn y bennod hon, dylai'r camau nesaf ganolbwyntio ar glustnodi'r wybodaeth bellach y mae ei hangen yn y meysydd â blaenoriaeth. Dylai hynny gynnwys ymgynghori ac ymgysylltu ychwanegol i gytuno ar yr argymhellion fel rhan o'r cynllun ardal. Dylai gwaith yn y dyfodol fod yn seiliedig ar CCUHP, a dylai gynnwys hawl plant i chwarae.

- Eiriolaeth: mae angen rhoi gwrandawiad i lais pob plentyn a pherson ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant. Cafodd rhywfaint o wybodaeth ei chynnwys yn y rhagarweiniad i'r adroddiad, ond mae angen rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, a pha mor effeithiol ydynt.
- Mae rhagor o waith i'w wneud i gyflwyno'r dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf, ac mae prosiectau rhanbarthol ar waith i gefnogi'r gwaith hwn, yn cynnwys asesiadau a gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- Bu pryderon trwy gydol y gwaith o lunio'r bennod hon ynghylch ansawdd y gwaith cofnodi data. Mae angen safoni'r dulliau cofnodi ar gyfer data plant mewn angen (a beth bynnag fydd yn dod yn lle hynny) ynghyd â meini prawf cymhwystra a throthwyon.
- Mae angen rhagor o wybodaeth am fasnachu mewn plant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant er mwyn llywio'r asesiad poblogaeth.
- Mae angen rhagor o wybodaeth am y cynnydd yn anghenion cymhleth plant anabl, a phontio o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion.

Draft

- Darganfod mwy am y pryderon a godwyd bod plant cynyddol iau yn cael eu hatgyfeirio i CAMHS, yn ogystal ag anghenion y plant sy’n derbyn gofal ac sy’n cael eu hatgyfeirio i CAMHS.
- Gwybodaeth am ddefnyddio dulliau adferol wrth weithio â theuluoedd, yn cynnwys cysylltiadau pob dydd, cyfarfodydd â defnyddwyr gwasanaethau, cylchoedd anffurfiol, cyfryngu a chynadleddau ffurfiol ar gyfer grwpiau.
- Mae enghreifftiau da o ddarparu gwasanaethau ym mhob sir, er enghraifft y prosiect ‘ymyl gofal’, gwasanaethau therapiwtig mewnol, a chydweithredu â’r gwasanaethau cymdeithasol a CAMHS. Caiff gwybodaeth am y gwasanaethau hyn ei rhannu’n anffurfiol rhwng y siroedd eisoes, ond bydd angen i waith ar yr asesiad poblogaeth yn y dyfodol roi sylw pellach i’r mater hwn.

Draft

# 3 Pobl Hŷn

## Trosolwg ar y boblogaeth

Roedd tua 150,000 o bobl 65 oed a hŷn yng Ngogledd Cymru yn 2015. Mae’r amcanestyniadau poblogaeth yn awgrymu y gallai’r ffigur hwn godi i 210,000 erbyn 2039 os bydd y gyfran o bobl 65 oed a hŷn yn parhau i gynyddu.

Rhagwelir y bydd y gyfran o bobl hŷn yn y boblogaeth yn parhau i gynyddu. Ar yr un pryd, disgwylir y bydd y gweithlu sydd ar gael, sef y gyfran o bobl 16-64 oed, yn parhau i leihau. Mae’r newid hwn yn strwythur y boblogaeth yn cynnig cyfleoedd a heriau o ran darparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Gwelir bod y newid yn strwythur y boblogaeth yn dilyn patrwm tebyg ym mhob sir yng Ngogledd Cymru, er y disgwylir mai Conwy, Ynys Môn a Sir Ddinbych fydd y siroedd â’r gyfran fwyaf o bobl 65 oed a hŷn.

Mae ymchwil yn awgrymu y gall byw â chyflwr hirdymor fod yn ffactor cryfach nag oed o ran rhagweld anghenion am ofal a chymorth (Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC), 2016). Gweler y bennod iechyd, anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau i gael rhagor o wybodaeth.

## Unigrwydd ac arwahanrwydd

Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd yw un o’r prif heriau a nodwyd yn ein gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Byddai taclo’r flaenoriaeth hon yn llwyddiannus yn cynnig llawer o fuddion o ran iechyd a llesiant pobl, ac yn lleihau’r angen am ddefnyddio gwasanaethau statudol.

Mae rhagor o wybodaeth am gynlluniau i ddatblygu gwasanaethau a chymorth i fynd i’r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ar gael yng Nghynlluniau Heneiddio’n Dda pob cyngor, sydd ar gael yma: http://www.ageingwellinwales.com/wl/localplans. Mae’n debygol y bydd y cynlluniau llesiant a lunnir gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi sylw i’r mater hwn hefyd.

I gael gwybodaeth am y gwasanaethau yn eich ardal, ewch i wefan Dewis Cymru https://www.dewis.cymru/

## Cymorth i fyw gartref

Mae parhau i fyw yn eu cartref eu hunain yn flaenoriaeth i lawer o bobl hŷn, ac mae’n rhan bwysig o gynnal eu hannibyniaeth. Mae’r galw am wasanaethau yn debygol o gynyddu wrth i nifer y bobl 65 oed a hŷn gynyddu. Ymddengys hefyd fod galw cynyddol am gymorth mwy cymhleth a mwy o oriau gofal bob wythnos.

Draft

Mae’r gwasanaethau presennol yn darparu cymorth o ansawdd uchel, sy’n helpu i gynnal annibyniaeth pobl, ac mae llawer o bobl yn dweud eu bod yn hapus â’r gofal a gânt. Mae’n anodd recriwtio a chadw gweithwyr gofal, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gofalwyr gwrywaidd a siaradwyr Cymraeg. Mae angen gwella ymwybyddiaeth o’r gwasanaethau sydd ar gael, a helpu darparwyr i ddiwallu anghenion dwys ac arbenigol, ac i ddarparu gwasanaeth hyblyg.

Yr heriau sy’n wynebu comisiynwyr a darparwyr yw parhau i ddarparu cymorth hyblyg er mwyn galluogi pobl: i fod yn annibynnol; i gynnig eu hatebion eu hunain gan ddefnyddio’u hasedau personol, teulu, ffrindiau, y gymuned a’r trydydd sector; i gynllunio ar gyfer anghenion gofal yn y dyfodol; i gyflawni eu hamcanion personol a llesiant.

## Dementia

Amcangyfrifir bod 11,000 o bobl yn byw â dementia yng Ngogledd Cymru. Disgwylir i’r nifer hwn gynyddu, ond mae’n bosibl y bydd y cynnydd yn llai na’r hyn a dybiwyd yn wreiddiol oherwydd gwelliannau iechyd. Mae dementia yn cael effaith sylweddol ar unigolion, ac yn rhoi pwysau mawr ar y gwasanaethau statudol, y trydydd sector a’r perthnasau a’r ffrindiau sy’n eu cefnogi. Er gwaethaf yr heriau a ddaw yn sgil dementia, gellir cefnogi pobl i fyw yn dda neu i fyw yn well, o leiaf, nag yr oeddent wedi meddwl, a’r her i ni yw darparu’r gefnogaeth honno.

Mae’r gwasanaethau presennol yn darparu amrywiaeth eang o gymorth sy’n diwallu anghenion llawer o bobl.

**Meysydd ar gyfer gwella ac argymhellion**

1. Darparu rhagor o wybodaeth a chymorth yn dilyn diagnosis.
2. Hyfforddiant ychwanegol i weithwyr gofal ynghylch gweithio gyda phobl sydd â dementia.
3. Datblygu gwasanaethau ychwanegol sy’n diwallu anghenion unigol, yn enwedig ar gyfer pobl iau â dementia, a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Sicrhau bod digon o ddarpariaeth nyrsio o ran iechyd meddwl henoed a gofal preswyl i’r henoed bregus eu meddwl (EMI).
5. Gwella’r cydweithio rhwng gwasanaethau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Natganiad Sefyllfa’r Farchnad Ddementia yng Ngogledd Cymru, a gellir gweld gwybodaeth am y datblygiadau penodol ym mhob sir yn y Cynlluniau Heneiddio’n Well sydd ar gael yma:
http://www.ageingwellinwales.com/wl/localplans

Draft

## Cartrefi gofal

**Y prif faterion i'w datblygu yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru:**

- Bydd angen i ni fod yn glir ynghylch faint yn rhagor o bobl yr hoffem eu cefnogi mewn llety gofal ychwanegol yn y dyfodol, a ph'un a fydd y gwasanaethau nyrsio cymunedol yn gallu darparu ar gyfer anghenion iechyd/gofal nyrsio pobl ai peidio.
- Rhagwelir y bydd angen rhagor o leoliadau cartrefi nyrsio yn y dyfodol, yn enwedig i gefnogi pobl â chyflyrau iechyd meddwl a dementia. Bydd gofyn am gynlluniau ar y cyd i ddatblygu'r gweithlu er mwyn hyfforddi, recriwtio a datblygu rheolwyr nyrsio, gweithwyr cymorth a gweithwyr gofal i ddiwallu anghenion pobl o ran gofal iechyd.
- Mae'r Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio i weld sut y gellir diwallu anghenion gofal iechyd pobl mewn cartrefi preswyl a/neu gynlluniau gofal ychwanegol trwy ddefnyddio staff therapi/nyrsio cymunedol, er enghraifft therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion, i leihau nifer y bobl sy'n gorfod symud i gartref gofal.
- Mae angen rhagor o ddarpariaeth gofal a chymorth yn Gymraeg mewn cartrefi gofal. Bydd hyn yn cael ei gryfhau trwy gytundebau contract yn y dyfodol.
- Mae angen i gomisiynwyr adolygu a newid y Cytundeb Cyn Lleoli (y contract) ar gyfer cartrefi gofal i adlewyrchu'r safonau newydd a'r gofynion rheoleiddiol a ragwelir, a hynny erbyn mis Ebrill 2018. Bydd hyn yn cynnwys datblygu manylebau (gan gynnwys gofynion cymwyseddau'r gweithlu) ar gyfer yr holl ofynion yn y dyfodol, yn cynnwys cymorth ar gyfer pobl â dementia, gofal canolraddol, er enghraifft cymorth cam i fyny neu gam i lawr (sy'n cynnwys manylion yr ymyraethau adsefydlu neu'r gofynion cymorth i'w darparu gan staff y cartref gofal), a gwasanaethau 'rhyddhau cyn asesu'.
- Yn gyffredinol, mae adolygiadau o ansawdd a diogelwch mewn cartrefi gofal yn ardal Gogledd Cymru yn awgrymu bod angen y canlynol ar rai cartrefi gofal:
  - Gwella arweinyddiaeth rheolwyr, yn cynnwys arweinyddiaeth glinigol mewn cartrefi nyrsio.
  - Datblygu'r adeilad er mwyn darparu'n well ar gyfer anghenion tra chymhleth unigolion (yn cynnwys amhariadau o ran symudedd, a dryswch/dementia).

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol ar Ynys Môn yn cynnwys:**

- Archwilio'r dewisiadau o ran defnyddio cartrefi gofal y cyngor lleol yn y ffordd fwyaf effeithiol, yn cynnwys gofal canolraddol a diwallu anghenion mwy cymhleth, ar y cyd â staff iechyd.
- Cynyddu'r ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol fel dewis arall yn lle gofal preswyl; fel hyn, rhagwelir y bydd y galw am ddarpariaeth breswyl yn gostwng, yn unol â'r patrymau diweddar. Bydd hwn yn newid graddol, yn ôl pob tebyg.

- Cynyddu capasiti’r ddarpariaeth breswyl EMI (i gyd-fynd â’r cynnydd yn nifer y bobl sy’n byw â dementia). Bydd hwn eto yn newid graddol.
- Bydd gofyn am gynnydd cyflym mewn nyrsio EMI yn y byrdymor a’r tymor canolig gan fod y ddarpariaeth bresennol yn llawer llai na’r galw.
- Gwella adnoddau iechyd cymunedol i gefnogi pobl ag anghenion nyrsio yn eu cartrefi. Mae hyn yn cael effaith ar y galw am leoliadau Nyrsio Cyffredinol, a disgwylir i’r galw hwn barhau.
- Sicrhau bod y llety a ddarperir mewn cartrefi gofal yn awr ac yn y dyfodol yn cydymffurfio â’r safonau cyfredol.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yng Ngwynedd yn cynnwys:**

- Cefnogi pobl i barhau i fyw gartref yn eu cymunedau cyhyd â phosibl, a lleihau’r angen am leoliadau preswyl traddodiadol yw’r weledigaeth. Bydd gofyn bod mwy o lety ar gyfer Pobl Hŷn yn gyffredinol, a rhagwelir y bydd y galw mwyaf am dai gwarchod a thai gofal ychwanegol, lle y gwelir y bylchau mwyaf hefyd.
- Yn ôl y datganiad o sefyllfa’r farchnad leol yng Ngwynedd, nid oes darpariaeth o ran cartrefi gofal mewn ardaloedd allweddol yn y sir lle mae’r boblogaeth 65 oed a hŷn yn neilltuol o uchel. Mae’r ardaloedd hyn yn cynnwys Abermaw, Llanbedr, Dyffryn Ardudwy, Aberdyfi/Bryncrug/Llanfihangel a Harlech. Yn ogystal, dengys y dadansoddiad o anghenion fod gan gymuned Llanbedr boblogaeth sy’n heneiddio’n sylweddol, ond nad oes yna gartref gofal lleol.
- Yn y byrdymor, mae Gwynedd yn bwriadu lleihau nifer y lleoliadau gofal preswyl hirdymor, traddodiadol, a chynyddu’r ddarpariaeth gofal preswyl i bobl â dementia. Byddai Gwynedd hefyd yn hoffi cynyddu’r cyfleoedd i bobl gael cyfnodau ysbaid estynedig, a chynnig cyfleoedd gofal ysbaid hyblyg sy’n diwallu anghenion gofalwyr.
- Yn yr hirdymor, os bydd nifer y lleoliadau yn parhau fel y mae, mae Gwynedd yn rhagweld, erbyn 2030, y bydd gofyn darparu llety a chymorth ychwanegol ar gyfer 631 o bobl y bydd arnynt angen gofal preswyl, a 600 o bobl y bydd arnynt angen gofal nyrsio.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yng Nghonwy yn cynnwys:**

- Parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ardal integredig a chartrefi gofal o ansawdd da, a hynny â’r nod o greu Sector Cartrefi Gofal sefydlog a chynaliadwy yng Nghonwy, gan wella profiadau preswylwyr ac osgoi ymweliadau amhriodol ag Unedau Damweiniau ac Achosion Brys a/neu dderbyniadau i’r ysbyty.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yn Sir Ddinbych yn cynnwys:**

- Cynyddu’r ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol fel dewis arall yn lle gofal preswyl (oni bai fod angen gofal nyrsio neu ofal iechyd meddwl arbenigol).

Draft

- Rhesymoli nifer y gwelyau preswyl, lle mae'n ymddangos bod gormod o ddarpariaeth yn y byrdymor i'r tymor canolig. Fodd bynnag, os yw'r rhagolygon o ran y cynnydd yn nifer y bobl â dementia yn gywir, bydd angen mwy o welyau Nyrsio Iechyd Meddwl Henoed (EMH) yn Sir Ddinbych. Mae'n bosibl na fydd yna ddigon o welyau preswyl EMH. Mae'r dadansoddiad a wnaed ym mis Chwefror 2016 yn awgrymu bod digon o welyau mewn cartrefi gofal, ac eithrio gwelyau Nyrsio EMH, i ateb y galw yn y rhan fwyaf o ardaloedd, a bod gormod o gapasiti mewn ardaloedd penodol.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yn Sir y Fflint yn cynnwys:**

- Cynnal darpariaeth cartrefi gofal y cyngor lleol, ac ymchwilio i ddatblygu canolfan gofal canolraddol i ganolbwyntio ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar.
- Cynnydd (ar sail yr angen a ragwelir yn sgil newidiadau demograffig) o 178 o leoliadau ychwanegol mewn cartrefi gofal erbyn 2020: 67 o leoliadau preswyl; 52 o leoliadau preswyl EMH; 51 o leoliadau nyrsio, ac 8 lleoliad nyrsio EMH.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yn Wrecsam yn cynnwys:**

- Datblygu Gofal Ychwanegol sy'n cynnig deiliadaeth gymysg ar gyfer byw'n annibynnol (Dementia, Anabledd, Anawsterau Dysgu), yn cynnwys darpariaeth arbenigol (Gofal Ychwanegol) ar gyfer oedolion iau ag anableddau er mwyn gostwng nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir. Mae diddordeb hefyd mewn datblygu Gofal Canolraddol gan ddefnyddio cyfleusterau Gofal Ychwanegol a datblygu gwelyau cam i fyny a cham i lawr.
- Cynlluniau i leihau nifer y lleoedd preswyl cyffredinol, ac i gynyddu lleoedd nyrsio cyffredinol ac EMI yn Wrecsam. Yn ddelfrydol, byddai gan y cartrefi gofrestriad deuol.

Draft

# 4 Iechyd, Anableddau Corfforol a Nam ar y Synhwyrau

**Y prif negeseuon**

Er bod pob un o'r chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo i weithio i'r model cymdeithasol o anabledd, mae llawer mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio yn adlewyrchu'r model hwn yn llawn.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn atgyfnerthu'r angen i feddwl am agweddau ehangach ar lesiant ym mywyd bob dydd unigolyn, a gallu'r unigolyn i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Bydd canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yn ein helpu i fynd i'r afael â'r agweddau ehangach yn well. Bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth â phobl, eu teuluoedd, y trydydd sector a darparwyr annibynnol, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus eraill, i gyflawni hyn.

Mae nifer y bobl sy'n byw â chyflwr hirdymor, yn ogystal â nifer y bobl sy'n byw yn hirach ag anabledd neu nam ar y synhwyrau, yn cynyddu wrth i'n poblogaeth fyw'n hirach ac wrth i nifer y bobl hŷn gynyddu.

Bydd angen i ni adolygu ein blaenoriaethau sefydliadol a'n cynlluniau comisiynu i sicrhau ein bod yn adnabod gwell ffyrdd o gefnogi cyfranogiad a chynhwysiant, ac o alluogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth.

Mae angen i ni ganolbwyntio mwy ar ymyrraeth gynnar ac atal salwch – gan gymryd y camau gweithredu y mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fydd yn helpu pobl i aros yn fwy iach ac yn fwy annibynnol yn hirach.

Bydd angen i ni adolygu'r gwasanaethau mwy arbenigol yr ydym yn eu darparu i sicrhau bod pobl yn gallu cael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt, a hynny ar yr adeg gywir.

**Bylchau yn y gwasanaeth/gefnogaeth**

Mae cefnogaeth i bobl fyw bywydau mwy iach a chynnal annibyniaeth yn cael ei nodi fel un o'r elfennau allweddol. Mae angen i bob sefydliad roi mwy o bwyslais ar hyn.

Mae rôl y trydydd sector a'r sector annibynnol yn cael ei nodi fel un bwysig o ran darparu rhwydweithiau cefnogaeth ehangach i bobl. Mae angen i sefydliadau fod yn ymwybodol o allu'r sectorau hyn i ymestyn y gefnogaeth y maent yn ei chynnig.

Mae rhai gwasanaethau yn brin mewn ardaloedd gwahanol; nodwyd bod yna ddiffygion yn y ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig.

Draft

Mae llawer o'r gwasanaethau yn y sector cyhoeddus o dan bwysau ac, er bod gwasanaethau ar gael, efallai y bydd yna restr aros, neu anhawster o ran cael mynediad prydlon at wasanaethau.

Mae yna rwystrau i grwpiau penodol y mae angen mynd i'r afael â hwy – wrth geisio gwybodaeth, cael mynediad at wasanaethau, neu geisio cynnal annibyniaeth, gyda chefnogaeth yn ôl yr angen.

**Ein hymateb**

Byddwn yn ceisio cydweithio wrth gynllunio a gweithredu rhaglenni gwella iechyd effeithiol, gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn anelu at roi ymrwymiad strategol ar lefel uwch i weithredu ac ymgorffori dull cynaliadwy i roi'r rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) ar waith yng Ngogledd Cymru, gan ddarparu diwylliant sy'n annog ac yn hybu atal salwch a gwella iechyd.

Byddwn yn ymchwilio i'r opsiwn o ddefnyddio rhagnodi cymdeithasol fel llwybr i gleifion ar gyfer practisau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru i gryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol, gwirfoddol ac awdurdodau lleol a allai wella iechyd a llesiant.

Byddwn yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar asedau, gan nodi'r hyn sy'n bwysig i bobl, a'u cefnogi i gymryd rheolaeth dros eu bywydau. Byddwn yn gweithio gyda phobl a'r cymunedau lle maent yn byw i adeiladu ar yr adnoddau sydd ar gael, ac i gefnogi pobl i gysylltu.

Byddwn yn ceisio cryfhau ymhellach y model cymdeithasol o anabledd ym mhob peth a wnawn, gan geisio sicrhau bod ein cefnogaeth a'n gwasanaethau yn hwyluso cyfranogiad ac yn parchu dymuniadau ac anghenion unigol, a'u bod yn gynhwysol.

Byddwn yn adolygu'r angen i'n gwasanaethau mwy arbenigol ddarparu gofal yn nes at adref, lle bo modd.

Draft

# 5 Anabledd dysgu

## Y prif ganfyddiadau

- **Demograffeg:** Mae nifer y bobl ag anabledd dysgu y mae angen cefnogaeth arnynt yn cynyddu, ac mae pobl ag anabledd dysgu yn byw'n hirach. Mae'r tueddiadau demograffig hyn y debygol o barhau. Mae nifer cynyddol y bobl sydd ag anabledd dysgu a dementia yn cynnig heriau sylweddol i'r gwasanaethau gofal, ac i'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny, i ddarparu'r math iawn o gymorth.
- **Anghenion iechyd:** Mae pobl ag anabledd dysgu yn tueddu i gael iechyd gwaeth, mae mwy o angen gofal iechyd arnynt, ac maent mewn mwy o berygl o farw'n gynnar o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.
- **Pobl ifanc ag anghenion cymhleth:** Bydd angen i wasanaethau addasu i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc ag anghenion cymhleth, wrth iddynt symud i wasanaethau oedolion.
- **Agweddau a disgwyliadau:** Mae'r rhan fwyaf o unigolion am gael lefel uwch o annibyniaeth a bod yn rhan allweddol o'u cymuned, neu maent yn disgwyl hynny. Gall hyn gynnwys rhieni hŷn nad ydynt erioed wedi gofyn am gymorth, neu ofalwyr sy'n darganfod nad yw'r cymorth yr oeddent yn ei ddisgwyl yn cael ei ddarparu bellach, neu ei fod yn cael ei ddarparu mewn ffordd wahanol.
- **Pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion:** Mae hyn yn gweithio'n dda ar y cyfan, a bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn canolbwyntio fwyfwy ar ddull integredig a fydd yn helpu gyda'r broses bontio.
- **Cyllid:** Mae lefel y gwariant ar wasanaethau anabledd dysgu wedi bod yn codi, ond erbyn hyn rydym yn wynebu cefnogi mwy o bobl gyda llai o arian.
- **Deddfwriaeth:** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio, gan gynnwys y ffordd yr ydym yn canfod yr hyn sy'n bwysig i bobl, a'r ffordd y mae pobl yn cael eu cefnogi.
- **Darpariaeth gyfredol:** Ar hyn o bryd, mae cymorth yn cael ei ddarparu, yn gyffredinol, gan aelodau o'r teulu agos a/neu staff gofal hirdymor cyflogedig.

## Argymhellion

1. Cefnogi gofalwyr hŷn, a sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r gwasanaethau ysbaid y mae eu hangen arnynt. Dylai hyn gynnwys gwasanaethau ‘cynllunio ymlaen llaw’ ar gyfer teuluoedd, sy'n cynnwys gwaith i nodi gofalwyr cudd, ac i asesu eu hanghenion o ran cymorth.
2. Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i weithio'n well gyda'i gilydd, gan sicrhau bod digon o gefnogaeth ar gael ar gyfer materion iechyd pobl hŷn ag anabledd dysgu, yn cynnwys pobl â dementia.

Draft

3. Parhau i gefnogi pobl ag anabledd dysgu i gael mynediad at ofal iechyd trwy'r Gwasanaethau Cyswllt Iechyd ar gyfer Anabledd Dysgu, a hynny trwy ddatblygu gwybodaeth hygyrch i bobl ag anabledd dysgu er mwyn gwella dulliau cyfathrebu, a chefnogi darparwyr gofal iechyd i adnabod yn well bobl ag anabledd dysgu er mwyn iddynt wneud 'addasiadau rhesymol' i'w gofal. Hybu mynediad at wasanaethau hyrwyddo iechyd a thriniaeth gynnar.
4. Darparu modelau cymorth cynaliadwy ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion unigolion ag anghenion cymhleth. Dylai hyn gynnwys mynd i'r afael ag angen sydd heb ei ddiwallu am leoliadau nyrsio o'r raddfa flaenaf, wedi'u hariannu ar y cyd, ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu difrifol sydd ag anghenion yn ymwneud ag iechyd.
5. Staff cymorth i reoli disgwyliadau sy'n newid o ran cymorth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, yn cynnwys y newidiadau sy'n ofynnol gan y ddeddf newydd.
6. Recriwtio mwy o staff cymorth sy'n siarad Cymraeg.
7. Darparu mwy o gymorth ar gyfer pobl o ran cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd.
8. Annog mwy o gymorth anffurfiol, di-dâl, i leihau'r ddibyniaeth ar gymorth ffurfiol cyflogedig. Byddai hyn yn helpu i hwyluso cyfeillgarwch a bywydau cymdeithasol ehangach ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, y tu hwnt i ofalwyr cyflogedig.
9. Recriwtio mwy i'r cynllun Cysylltu Bywydau/Lleoli Oedolion.
10. Datblygu'r ddarpariaeth o dechnoleg gynorthwyol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.
11. Parhau i archwilio a datblygu opsiynau o ran tai er mwyn diwallu anghenion pobl ag anabledd dysgu, a hynny mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

## Agenda datblygu data

- Sicrhau bod yna ddealltwriaeth gyffredin a chysondeb ledled y chwe sir yng Ngogledd Cymru o ran y ffordd y caiff data eu cofnodi a'u dadansoddi.
- Gwneud mwy o waith dadansoddi i gefnogi gwasanaethau oedolion er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion pobl ifanc ag anghenion cymhleth.

# 6 Iechyd meddwl

## Y prif negeseuon

- Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn adrodd am iechyd meddwl sydd ychydig yn well nag yng Nghymru gyfan
- Mae nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn debygol o gynyddu
- Y mathau o salwch meddwl mwyaf cyffredin a gofnodwyd yw gorbryder ac iselder
- Mae ymchwil yn awgrymu na fydd nifer fawr o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn ceisio cymorth
- Mae nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yn lleihau
- Mae nifer y bobl sydd ag anghenion mwy cymhleth yn cynyddu
- Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o fod ag iechyd corfforol gwael

Mae nifer y cleifion sy'n ceisio mynediad i'r ysbyty wedi cynyddu ledled y rhanbarth. Mae adborth gan staff yn awgrymu y gall y nifer cyfyngedig o dderbyniadau fod o achos pwysau ar welyau – mae Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC) a diffyg lleoliadau priodol, lle bo angen, yn dylanwadu ar hyn. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio gwelyau acíwt y tu allan i Ogledd Cymru, sydd yn bell o fod yn ddelfrydol ar gyfer cleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Mae egwyddorion cyffredin a rennir gan y cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd yn cynnwys cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr; eiriolaeth gymunedol; cymorth i ofalwyr, a rôl cyfleoedd dysgu a gweithio yn ystod y cyfnod adfer; cydweithio rhwng asiantaethau.

Mae angen cael llwybr clir o'r gwasanaethau acíwt i wasanaethau yn y gymuned. Dylai fod mwy o waith o ran yr agenda ataliol er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu ac arwain at fynd i'r ysbyty, ac er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Mae enghreifftiau yn cynnwys cymorth cartref a gwasanaethau cofleidiol, yn ogystal ag ymyraethau a pholisïau i gefnogi rhieni a phlant ifanc, newidiadau i ffordd o fyw, gwella gweithleoedd, darparu cymorth cymdeithasol a gwelliannau amgylcheddol sy'n cefnogi cymunedau (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016). Gallai cydweithio â'r trydydd sector a mentrau cymdeithasol ddarparu hyn.

Mae'n rhaid i gynghorau lleol ac iechyd reoli'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn wyneb cyllidebau sy'n lleihau.

## Bylchau yn y gwasanaeth/cymorth

- Yn yr ymgynghoriad, nodwyd yn gyson fod yna fwlch o ran cymorth i bobl ag anhwylder sbectrwm awtistig.
- Mae yna fwlch o ran cyfleoedd cyfeillio (rhaid iddynt rymuso, nid annog dibyniaeth) i gefnogi pobl i gael mynediad at weithgareddau cymdeithasol sy'n bodoli.

Draft

- Nodwyd tlodi a diwygio lles fel risgiau i ddefnyddwyr gwasanaethau, gan y gall yr ymgyrch i gael pobl yn ôl i waith achosi straen ychwanegol i bobl sy'n agored i niwed. Gall hyn fod yn arbennig o anodd i bobl iau â phryderon budd-daliadau tai.
- Mae angen cyflenwad digonol o lety i gefnogi pobl i symud o ofal preswyl i adnoddau cymunedol.
- Rhaid i ni ddatblygu iechyd meddwl cyhoeddus yng Ngogledd Cymru a hybu llesiant meddyliol i atal afiechyd meddwl. Dylai iechyd meddwl cyhoeddus fod yn rhan o strategaeth iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## Agenda datblygu data/awgrymiadau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol

- Anghenion pobl agored i niwed heb ddiagnosis, ac arfer gorau o ran darparu cymorth
- Ymchwilio i bryderon a godwyd ynghylch diffyg darpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl
- Cael gwybod mwy am y rhesymau dros y nifer gostyngol o dderbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl.

## Ein hymateb

Cam nesaf y prosiect fydd trafod yr wybodaeth yn yr adroddiadau hyn a chytuno ar ddull o fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Gallai hyn gynnwys gwneud gwaith ymchwil pellach mewn ardal, neu gamau gweithredu lleol neu ranbarthol.

Draft

# 7 Gofalwyr

Mae gofalwyr yn chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu gofal a chymorth, ac yn darparu gwasanaeth ataliol eu hunain. Amcangyfrifir bod gofalwyr yn darparu rhwng 70% a 95% o ofal, gan arbed £7.72 biliwn bob blwyddyn yng Nghymru (Yeandle a Buckner, 2015; Llywodraeth Cymru, 2016c). Mae pob sefyllfa ofalu yn unigryw.

## Y prif ganfyddiadau

- Mae nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn cynyddu, yn enwedig yng ngogledd-orllewin Cymru.
- Pobl 50 i 64 oed sy’n fwyaf tebygol o fod yn darparu gofal di-dâl.
- Mae hanner yr holl ofalwyr yng Ngogledd Cymru mewn cyflogaeth: ar gyfer gofalwyr mewn cyflogaeth, mae cymorth eu cyflogwr a chydweithwyr yn hanfodol i’w helpu i barhau yn eu rôl ofalu.
- Mae'r cynnydd yn yr angen am ofal cymdeithasol, a nodwyd ym mhenodau eraill yr adroddiad asesu poblogaeth, yn debygol o arwain at fwy o bobl yn darparu gofal di-dâl ac yn darparu gofal am gyfnod hwy.
- Nodwyd bod dros 1,000 o ofalwyr ifanc yng Ngogledd Cymru, a bod y nifer hwn wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar.

## Bylchau yn y gefnogaeth ac argymhellion

Mae yna her i wasanaethau yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gyda gwasanaethau yn cael eu torri ar gyfer gofalwyr ac ar gyfer y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae llawer o'r cymorth i ofalwyr, yn enwedig gan y trydydd sector, yn dibynnu ar gyllid byrdymor, ac mae yna risgiau o ran cynaliadwyedd y cymorth hwn.

Ceir adborth bod darpariaeth gofal ysbaid/ysbaid byr yn lleihau, yn ogystal â materion sy’n ymwneud â pha mor bell ymlaen llaw y mae angen iddo gael ei gynllunio, sy'n golygu ei bod yn anodd i ofalwyr wneud cynlluniau munud olaf. Mae’n rhaid i ni ailfeddwl sut yr ydym yn darparu gwasanaethau i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer gofalwyr a'r unigolyn y gofelir amdano yn yr hinsawdd hon.

Mae cymorth mewn ysbytai acíwt yn anghyson – mae swyddog cymorth gofalwyr ar gael yn rhanbarthau’r Gorllewin a’r Dwyrain yng Ngogledd Cymru a gynhelir gan y trydydd sector, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth yn yr ardal ganolog. Yn yr ardal hon, ac mewn ardaloedd eraill, mae angen ystyried sut i ddarparu mwy o gysondeb ar draws y rhanbarth.

Mae yna angen cynyddol am gefnogaeth un i un ar gyfer gofalwyr ifanc, ynghyd â chefnogaeth i ofalwyr ifanc dan 8 oed.

Draft

Yn ogystal â’r enghreifftiau uchod, amlygodd yr ymgynghoriad yr angen am well cymorth i ofalwyr trwy ddiwallu anghenion yr unigolyn y gofelir amdano yn well, yn ogystal â darparu cymorth penodol ar gyfer gofalwyr. Amlygodd fylchau o ran cludiant, gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, ymwybyddiaeth staff gofal sylfaenol, gwasanaethau cwnsela ar gyfer gofalwyr a chymorth i’r rheiny sy’n gofalu am unigolion sy’n camddefnyddio sylweddau. Amlygodd yr adolygiad o wasanaethau fod darpariaeth ar gael yng Ngogledd Cymru i ddiwallu llawer o'r anghenion hyn, er nad yw'r ddarpariaeth hon yn gyson ledled y rhanbarth.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cytuno i benodi swydd ranbarthol i fapio’r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yng Ngogledd Cymru. Mae'r ymarfer cwmpasu yn debygol o nodi bylchau ac anghysonderau eraill ar draws Gogledd Cymru, ac o amlygu blaenoriaethau ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae grŵp gweithredol gofalwyr rhanbarthol yn bodoli, a fydd yn edrych ar gyfleoedd i weithio’n rhanbarthol, sy’n deillio o'r asesiad poblogaeth hwn.

## Y camau nesaf ar gyfer yr asesiad poblogaeth a’r cynllun ardal

- Cael gwybodaeth am effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr, gwella’r gwaith o werthuso prosiectau, ac edrych ar yr hyn y gellir ei ailadrodd ledled y rhanbarth i ddarparu cymorth mwy cyson, hyd yn oed o ystyried amrywiadau lleol.
- Ystyried sut yr ydym yn nodi canlyniadau a systemau i nodi angen heb ei ddiwallu, er enghraifft, mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ddinbych yn treialu defnyddio sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' gyda gofalwyr.
- Mapio gwasanaethau gofalwyr ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys argaeledd y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhannu’r canfyddiadau o'r asesiad poblogaeth a’r cynllun ardal â Llywodraeth Cymru i lywio datblygiad Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Gofalwyr.

Draft

# 8 Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

## Y prif negeseuon

- Ni roddir gwybod i'r heddlu am bob achos o drais a cham-drin domestig a rhywiol, ond mae nifer yr adroddiadau yn y cynyddu
- Mae trais a cham-drin domestig a rhywiol yn effeithio ar fenywod a dynion, ond mae menywod yn fwy tebygol o'u dioddef.
- Mae achosion o orfodi a rheoli 'nawr yn cael eu cofnodi yng Ngogledd Cymru ers cyflwyno'r drosedd yn Rhagfyr 2015
- Mae cam-drin domestig yn costio £66 miliwn y flwyddyn i wasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru o ran gofal iechyd, cyfiawnder troseddol, y gwasanaethau cymdeithasol, tai a llochesau, costau cyfreithiol, a cholli allbwn economaidd.

## Y bylchau mewn gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael

Mae'r asesiad poblogaeth yn awgrymu y dylid ystyried rhoi sylw i'r canlynol yn y dyfodol:

- Datblygu cysylltiadau cryfach o ran strategaeth ac ymarfer rhwng cam-drin domestig a diogelu oedolion.
- Effaith torri cyllidebau ar allu darparwyr gwasanaethau arbenigol i ateb y galw ac i ddiwallu'r angen am wasanaethau.
- Y cymorth y mae ei angen ar blant a phobl ifanc sy'n dystion i drais a cham-drin domestig.
- Sicrhau bod digon o ddewisiadau o ran cartrefu dioddefwyr trais a cham-drin domestig sydd ag anghenion gofal a chymorth ychwanegol sy'n gofyn bod staff ar gael ddydd a nos.
- Casglu rhagor o wybodaeth am yr angen am gymorth arbenigol, megis cymorth hyblyg, ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Ngogledd Cymru.

## Y blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021 (Llywodraeth Cymru, 2016b) wedi cael ei gyhoeddi, ac mae'n cynnwys y 10 prif argymhelliad (gweler adran 8.3) ynghyd â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (gweler adran 8.1).

Draft

Nodir yr amcanion canlynol yng Nghynllun Blynyddol y Cynghorydd Cenedlaethol (Bowen-Davies, 2016):

1. Cynghori ar weithrediad strategol y ddeddfwriaeth a'i gefnogi
2. Datblygu dull gweithredu strategol, cydlynol ac integredig o ran materion polisi a phenderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau
3. Datblygu argymhellion ymarferol i wella effaith ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir gan y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol
4. Darparu llwyfan strategol ar gyfer rhannu addysg ac ymchwil
5. Galluogi cyfathrebu effeithiol a chynhwysol â goroeswyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

## Y camau nesaf

Mae'n rhaid i gynghorau lleol a'r bwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi strategaeth o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2014 erbyn 1 Ebrill 2018. Defnyddir yr asesiad poblogaeth i lywio'r strategaeth hon.

Gwelsom hefyd fod angen i ni gynnwys rhagor o wybodaeth am drais rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl, a chaethwasiaeth fodern pan fyddwn yn adolygu'r asesiad poblogaeth. Cofiwch gysylltu â ni os bydd gennych unrhyw dystiolaeth yr hoffech ei chyflwyno [add link].

Draft

# 9 Sefydliadau Diogel

Mae'r ddeddf newydd yn arwydd o newid hanesyddol yng nghyfrifoldebau gofal cymdeithasol llywodraeth leol ar gyfer dynion, merched a phlant a gedwir mewn sefydliadau diogel, ac wrth iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned. Yn flaenorol, roedd y cyfrifoldebau ar gyfer diwallu anghenion gofal cymdeithasol y rheiny mewn sefydliadau diogel yn aneglur, ac arweiniodd hyn at ddryswch rhwng awdurdodau lleol, carchardai, gwasanaethau prawf a sefydliadau eraill.

Mae'r Ddeddf yn egluro cyfrifoldebau ac yn sicrhau bod gan y rheiny a gedwir mewn sefydliadau diogel hawl i gael darpariaeth gyfatebol i bobl yn y gymuned, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a'r gwasanaethau iechyd. Mae'n cynnig cyfleoedd i weithredu llwybrau gofal integredig ac i ddarparu gwasanaethau ar y cyd ar gyfer anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y rhai mewn sefydliadau diogel.

O ystyried efallai y bydd gan garcharorion anghenion iechyd a gofal a chymorth cymhleth, yn aml, a'u bod yn gyffredinol yn dioddef iechyd corfforol a meddwl gwaeth, mae hyn yn ddatblygiad arwyddocaol.

Mae ffocws ar iechyd a lles hefyd yn cyfrannu at ganolbwyntio o'r newydd ar adsefydlu, ailsefydlu a lleihau aildroseddu.

Ceir tystiolaeth o hyn yn y gwaith cynllunio ar gyfer Carchar y Berwyn, a fydd yn agor yng Ngogledd Cymru ym mis Chwefror 2017. Mae Carchar y Berwyn yn modelu dulliau newydd, a bydd ei ddiwylliant yn cael ei lywio gan ffocws ar adsefydlu. Mae'r ethos yn ymroddedig i ddarparu amgylchedd diogel, gweddus a chyfiawn, lle bydd dynion yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i baratoi ar gyfer dechrau newydd mewn bywyd. Mae pwysigrwydd y Gymraeg wrth adsefydlu troseddwyr o Gymru yn cael ei gydnabod, fel y mae rôl allweddol partneriaid cydgomisiynu.

Mae hyn yn rhoi'r boblogaeth categori C sy'n oedolion gwrywaidd mewn sefyllfa dda. Bydd yn helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru a'r carchar, a bydd yn cefnogi ailsefydlu effeithiol. Fodd bynnag, bydd menywod a throseddwyr ifanc yn parhau i gael eu cadw y tu allan i'r rhanbarth, yn ogystal â dynion o gategorïau eraill, a'r rheiny na ellir rheoli eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiogel yng Ngharchar y Berwyn.

Mae angen gwell dealltwriaeth o anghenion y grwpiau hyn ac, wrth iddynt gael eu rhyddhau, bydd y ddyletswydd ar gyfer oedolion yn symud i'r cyngor lleol y maent yn ailsefydlu ynddo, fel rhan o'r gofyniad am barhad gofal dan y Ddeddf; mae hyn yn cynnwys gwasanaethau megis tai. Mae hyn yn rhoi cyfle unigryw i ddatblygu model ar gyfer creu cysylltiadau â charchardai y tu allan i Ogledd Cymru, gan gynnwys y rheiny sy'n dal menywod o Ogledd Cymru.

## Argymhellion

- Ymgynghori pellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau.
- Cynnal asesiad anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer Carchar y Berwyn ar ôl i'r carchar ddod yn weithredol, a hynny mewn partneriaeth rhwng BIPBC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Y data ar anghenion gofal cymdeithasol y boblogaeth Categori C a'r boblogaeth remánd i gael eu coladu pan fydd Carchar y Berwyn yn weithredol.
- Rhoi protocolau ar waith gyda phartneriaid yn manylu ar y math o wybodaeth y gellir ei rhannu.
- Ymgysylltu â'r Llysoedd i ddatblygu protocolau ar gyfer remandio pobl anabl, er mwyn sicrhau bod amgylchiadau eu remánd yn gallu diwallu eu hanghenion penodol pan fyddant yn mynd i'r ddalfa.
- Datblygu gwaith partneriaeth â'r carchardai yn Ne Cymru er mwyn rhannu dysg.
- Gwell dealltwriaeth o anghenion gofal cymdeithasol menywod ac ieuenctid, yn ogystal â'r ystyriaethau penodol iawn sydd ynghlwm wrth y grwpiau hyn.
- Datblygu gwasanaethau iechyd a llesiant o ansawdd da ar gyfer y carcharorion.
- Plant a theuluoedd – cymorth ar gyfer y dull rhanbarthol o ddatblygu model plant a theuluoedd, ynghyd â chysylltiadau â'r gwaith hwn.
- Digartrefedd: yr angen am gael systemau prydlon ar waith er mwyn ymgysylltu â'r rheiny sy'n gadael sefydliadau diogel ar y cyfle cyntaf posibl; bydd hyn yn golygu y gellir rhoi'r ymyrraeth gywir ar waith, a gwneud atgyfeiriadau i'r cyngor priodol.
- Mae angen i'r gwaith o drosglwyddo gofal ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau 'trwy-y-giât' gael ei ymgorffori yn y gymuned, gan ddarparu parhad gofal i sicrhau bod y gwelliant mewn iechyd a gafwyd pan oedd yr unigolyn yn y carchar yn cael ei gynnal ar ôl iddo gael ei ryddhau.

Draft

# 10 Cyn-filwyr

Diffinnir cyn-filwr fel unigolyn sydd wedi gwasanaethu am o leiaf ddiwrnod yn Lluoedd Ei Mawrhydi. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn/Cynorthwyol. Yn ôl yr amcangyfrifon, roedd tua 51,000 o gyn-filwyr yn byw yng Ngogledd Cymru yn 2014.

## Gwybodaeth ac ymchwil

Mae angen gwella'r wybodaeth ddemograffig a llesiant sydd ar gael am gyn-filwyr, y dulliau o gipio'r wybodaeth am eu defnydd o wasanaethau cam-drin domestig, a'r wybodaeth a ddarperir i gyn-filwyr am y gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

- Dylai Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru (NWAFF) gefnogi ymgyrch "Count Them In" y Lleng Brydeinig Filwrol
- Dylai NWAFF ystyried comisiynu astudiaeth o broffil iaith cyn-filwyr yng Ngogledd Cymru
- Dylai pob darparwr gwasanaethau wella'r ffordd y mae'n adnabod cyn-filwyr, yn ogystal â'r data ar eu defnydd o wasanaethau (yn enwedig gofal sylfaenol a gofal eilaidd y GIG, a gwasanaethau awdurdodau lleol)
- Dylai NWAFF ystyried datblygu "dangosfwrdd o ddata cyn-filwyr" sy'n tynnu ynghyd ddata am gyn-filwyr
- Dylai pob darparwr gwasanaethau wella'r wybodaeth a ddarperir i gyn-filwyr am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, a hynny trwy eu cyfeirio'n well at wasanaethau, rhoi gwell cyhoeddusrwydd iddynt trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a chefnogi datblygiad gwefan newydd y Weinyddiaeth Amddiffyn, "Porth y Cyn-filwyr"
- Dylai NWAFF ystyried comisiynu ymchwil mewn meysydd megis ymddygiad ffordd o fyw cyn-filwyr, a sut y mae cyn-filwyr yn rhyngweithio â materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig.

## Cynllunio gwasanaethau

Dylai cyn-filwyr gael eu hystyried yn grŵp â blaenoriaeth o fewn trefniadau cynllunio rheolaidd. Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ystyried anghenion cyn-filwyr wrth ddatblygu eu Cynlluniau Llesiant
- Dylai cynghorau lleol ystyried anghenion cyn-filwyr, fel grŵp agored i niwed, yn eu cynlluniau corfforaethol ac wrth bennu eu blaenoriaethau corfforaethol

Draft

- Dylai BIPBC ystyried anghenion cyn-filwyr wrth ddatblygu ei Gynllun Gweithredu Blynyddol a'i Gynllun Tymor Canolig Integredig
- Wrth iddo ddatblygu ei Strategaeth Iechyd Meddwl, dylai BIPBC ystyried anghenion cyn-filwyr sy'n methu cael mynediad i'r gwasanaeth a ddarperir gan GIG Cymru i Gyn-filwyr (e.e. anghenion nad ydynt yn gysylltiedig â'u gwasanaeth milwrol). Bydd hyn yn cynnwys cydnabod effaith negyddol bosibl stigma ar barodrwydd a gallu cyn-filwyr i ofyn am gymorth â chyflyrau iechyd meddwl. Dylid datblygu iechyd meddwl cyhoeddus yn rhan o'r strategaeth hon gan hybu llesiant emosiynol a dewisiadau eraill heblaw lleoliadau ysbyty
- Dylid adolygu'r gwasanaethau gwella iechyd y mae awdurdodau lleol yn eu darparu i gyn-filwyr, a'u cryfhau lle bo angen
- Dylai'r holl ddarparwyr gwasanaethau gefnogi'r gwaith o ddatblygu Gwasanaethau Iechyd a Llesiant ar gyfer cyn-filwyr yng Ngharchar y Berwyn.

## Darparu gwasanaethau

Mae gan wasanaethau gyfrifoldeb i gyflawni'r ymrwymiadau a bennwyd yng Nghyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

- Dylai pob darparwr gwasanaethau fod yn ymwybodol o'i ymrwymiadau a'i gyfrifoldebau o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaeth o ran mynediad at driniaeth gan y GIG ar gyfer cyflyrau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol cyn-filwyr, ynghyd â blaenoriaeth o ran mynediad i dai cymdeithasol.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau ddarparu gwasanaethau a chymorth effeithiol mewn modd cydlynol, er mwyn cyflawni'r deilliannau angenrheidiol ar gyfer cyn-filwyr, a rhoi sylw i anghenion sydd heb eu diwallu. Dylai'r grwpiau â blaenoriaeth gynnwys y rhai hynaf a mwyaf bregus y mae ganddynt anghenion clir o ran cymorth (corfforol ac emosiynol) i fyw yn annibynnol ac i osgoi arwahanrwydd cymdeithasol; cyn-filwyr 16-54 oed sydd â phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth milwrol, a'r cyn-filwyr ieuengaf a adawodd y lluoedd yn fwyaf diweddar.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau gydweithio i ddatblygu modelau o lwybrau gofal i gyn-filwyr yn seiliedig ar glustnodi cynnar, ymyrraeth gynnar ac ymateb i anghenion ar sail tystiolaeth, gan isrannu rolau yn glir.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â diwylliant y Lluoedd Arfog, a'u deall. Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant priodol, a'u bod yn gofalu gofyn a yw eu cleientiaid yn gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Dylid ystyried cyflwyno system i achredu staff, penodi rhagor o bencampwyr cyn-filwyr, a chynllun ar gyfer gwasanaethau sy'n "gyfeillgar i gyn-filwyr".

Draft

- Dylai pob darparwr gwasanaethau fanteisio ar bob cyfle i gyfeirio cyn-filwyr at gymorth. Gallai lleoliadau rheng flaen penodol gynnwys Adrannau Achosion Brys, dalfeydd yr heddlu a Phwyntiau Cyswllt Sengl/Timau Mynediad at Dai yn y cynghorau lleol.
- Gan fod llawer o sefydliadau trydydd sector yn cael eu sefydlu i weithio gyda chyn-filwyr, argymhellir y dylid ystyried creu safon ansawdd a fyddai'n cynnig sicrwydd i gyn-filwyr, eu teuluoedd, a chyrff sector cyhoeddus, fod y mudiadau y maent yn delio â nhw yn rhai o ansawdd da a chanddynt drefniadau llywodraethu da.
- Dylai contractwyr Gofal Sylfaenol roi blaenoriaeth i gofrestru cyn-filwyr. Dylai meddygon teulu ofyn i'r Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn (DMS) ddarparu cofnodion meddygol llawn er mwyn iddynt gael darlun cyflawn o hanes meddygol cyn-filwyr. Dylid hyrwyddo'r cyhoeddiad ar y cyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu, y Lleng Brydeinig Frenhinol a Combat Stress i'r holl ddarparwyr iechyd lleol.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau flaenoriaethu cymorth iechyd meddwl i gyn-filwyr, gan gynnwys cymorth â phroblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Dylai'r gwaith hwn gynnwys cyfeirio pobl yn well at y cymorth sydd ar gael trwy GIG Cymru i Gyn-filwyr, gwasanaethau iechyd meddwl BIPBC a'r trydydd sector. Dylai'r Grŵp Atal Hunanladdiad yng Ngogledd Cymru roi ystyriaeth benodol i anghenion cyn-filwyr.
- Dylai cynghorau lleol adolygu'r gwasanaethau gwella iechyd a ddarperir i gyn-filwyr, a'u gwella lle bo angen.
- Dylai cynghorau lleol a BIPBC ystyried sut y gallant gefnogi cyn-filwyr ar eu llwybr i gyflogaeth trwy'r cyfleoedd gwirfoddoli a ddatblygir yn eu sefydliadau.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau roi ystyriaeth benodol i anghenion gofalwyr sy'n gyn-filwyr, a rhoi sylw i unrhyw anghenion sydd heb eu diwallu.

Draft

# 11 Digartrefedd

Mae’n ymddangos bod y newidiadau a gyflwynwyd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 yn cael effaith gadarnhaol, gyda’r pwyslais ar ymyrraeth gynharach ac atal digartrefedd yn darparu canlyniadau gwell ar gyfer unigolion. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn parhau. Mae'n bosibl y bydd cynnydd yn cael ei lesteirio os bydd y cyllid trosiannol a ddyrannwyd yn cael ei dynnu.

Gall newidiadau o fewn gwasanaethau eraill gael effaith ar ddigartrefedd, a gall pobl ddigartref gael effaith ar wasanaethau eraill. Disgwylir i ddiwygio lles, ac yn arbennig newidiadau i Fudd-dal Tai a chyflwyno Credyd Cynhwysol, gynyddu'r galw ar rai gwasanaethau, yn enwedig gan rai grwpiau, er enghraifft pobl ifanc, ac y bydd hyn yn creu heriau newydd. Rhaid i ni ganolbwyntio ar nodi ffyrdd o sicrhau'r gwerth mwyaf, gan gyfuno ymdrech ac adnoddau a chanolbwyntio ar ddull ataliol o fynd i’r afael â digartrefedd, a all helpu i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i bobl agored i niwed, a gobeithio osgoi'r angen am ymyraethau mwy dwys a chostus.

## Y prif negeseuon

**Newidiadau i'r budd-daliadau lles** – Nid yw effaith y newidiadau arfaethedig i'r budd-daliadau lles, yn enwedig y rhai a neilltuwyd tuag at gostau sy'n gysylltiedig â thai, wedi ei nodi eto. Disgwylir y bydd rhai unigolion a grwpiau yn profi gostyngiadau sylweddol yn y cyllid ar gyfer cymorth tuag at dai, a bydd yn dod yn fwy anodd sicrhau opsiynau llety priodol ac addas ar y lefelau is hyn. Mae yna gydberthyniad eithaf agos rhwng rhai o'r grwpiau yr effeithir arnynt yn y modd mwyaf andwyol a grwpiau y mae'n hysbys ar hyn o bryd eu bod yn fwy bregus ac agored i ddod yn ddigartref. Mae yna bryderon hefyd y bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol – sy’n cyfuno taliadau’r holl fudd-daliadau, ac nad yw’n caniatáu i'r elfen rent gael ei throsglwyddo yn awtomatig i'r landlord – yn arwain at broblemau. Mae ymchwil o ardaloedd sydd wedi cyflwyno Credyd Cynhwysol yn adrodd am lefel uwch o ôl-ddyledion a allai, dros gyfnod o amser, fod yn broblematig gan effeithio ar gynaliadwyedd tenantiaethau.

**Comisiynu rhanbarthol** – Er mai’r nod fydd darparu'r mwyafrif helaeth o wasanaethau digartrefedd mor agos â phosibl at gymuned wreiddiol yr unigolyn a, lle bo hynny'n bosibl, o fewn ffiniau cynghorau lleol, bydd angen cynllunio a darparu rhai gwasanaethau digartrefedd yn rhanbarthol. Lle nad yw'n bosibl nac yn gosteffeithiol ymateb i anghenion yn lleol, byddwn yn defnyddio partneriaethau strategol hirdymor, er enghraifft y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a grwpiau cynllunio lleol, i ystyried anghenion a blaenoriaethau o ran tai ledled ardaloedd y cynghorau lleol.

**Lleoliadau y tu allan i’r ardal –** Mae’r rhan fwyaf o bobl agored i niwed sy'n ceisio cymorth yn tueddu i fod yn sefydlog o ran lleoliad, gan aros o fewn eu hardal yn hytrach na symud o un ardal i'r llall. Fodd bynnag, mae rhywfaint o symud ar draws ffiniau yn digwydd, ac weithiau bydd angen cefnogi unigolion a hwyluso’r broses adsefydlu. Mae deddfwriaeth ac arfer gorau yn awgrymu y dylai lleoliadau y tu allan

Draft

i’r sir fod yn bethau eithriadol, ac yn seiliedig ar ystyriaethau megis diogelwch personol a chyhoeddus. Lle bydd achosion o'r fath yn codi, mae angen trafod cydweithredu trawsffiniol yn ogystal â chynnal rhwydweithiau cefnogaeth presennol defnyddwyr gwasanaethau, a hynny ar y cam cynharaf posibl.

**Rhannu cyfrifoldeb** – Bydd gan Gymdeithasau Tai a darparwyr cymorth yn y trydydd sector sydd â phrofiad o gyflwyno gwasanaethau i grwpiau agored i niwed penodol, rôl bwysig o ran cynorthwyo ymdrechion sefydliadau statudol. Bydd yna angen parhaus i ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n ategu'r sector statudol, gan ein bod yn rhagweld cynnydd cyson yn y boblogaeth hyd at 2020.

## Bylchau yn y gwasanaeth/gefnogaeth

- Diffyg llety i bobl sengl
- Darpariaeth gyfyngedig mewn hosteli
- Prinder darpariaeth arbenigol ar gyfer unigolion sydd â chyflyrau meddygol parhaus
- Bylchau yn y gwasanaethau cefnogi

Draft

# 12 Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth

Mae plant ac oedolion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth(ASA) yn adrodd ar anghenion heb eu diwallu mewn perthynas â:

- chymorth ymddygiadol/emosiynol;
- materion sy'n ymwneud yn benodol ag ASA a sgiliau bywyd; a
- mynediad at wasanaethau cymdeithasol a hamdden, a chyfle yn y gymuned.

Efallai y bydd gan blant ac oedolion ag ASA anabledd dysgu neu anabledd dysgu ysgafn, neu beidio. Efallai y bydd gan blant ac oedolion ag ASA anawsterau iechyd meddwl cymedrol, neu efallai y byddant yn datblygu anawsterau iechyd meddwl cymedrol os na fydd cymorth ar gael iddynt yn gynnar iawn.

Mae gwasanaeth Awtistiaeth cenedlaethol yn cael ei ddatblygu, a ariennir o Gyllid Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru, a bydd y gwasanaeth yn datblygu yng Ngogledd Cymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, a hynny yn rhan o raglen gyflwyno tair blynedd. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei adeiladu ar arfer gorau ac ymchwil, a bydd ar gael ar gyfer pob oedran.

Hefyd, mae'n bwysig bod y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru trwy amrediad o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithredu yn yr ardal, yn parhau, a'u bod yn ategu'r gwasanaeth cenedlaethol. Dylid hysbysebu argaeledd gwasanaethau cymorth o'r fath yn eang, fel y gall y rheiny y mae angen cymorth arnynt gael mynediad atynt.

Mae yna fylchau o ran codi ymwybyddiaeth ynghylch ASA ar gyfer y cyhoedd, cyflogwyr, staff a meysydd eraill o'r gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft canolfannau hamdden a chludiant cyhoeddus.

Er bod yna amrediad cynhwysfawr o wybodaeth ar y we, nid oes modd gwybod pa un a yw pobl yn defnyddio hyn ai peidio – mae angen codi ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau a chymorth ar wefannau tebyg i DEWIS.

Mae angen hyfforddiant i wella'r ddealltwriaeth o effeithiau a goblygiadau ASA, yn enwedig mewn perthynas â rheoli ymddygiad a strategaethau ymdopi, ac mae angen i hyn ddigwydd ledled y sectorau, ac yn arbennig yn y gwasanaethau addysg. Nodir hefyd fod angen hyfforddi'r gwasanaeth heddlu i adnabod a oes gan unigolyn ASA. Yn ddelfrydol, dylai'r hyfforddiant hwn gael ei ddatblygu ar y cyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'n cynnwys y canlynol yn benodol:

- rheoli diddordebau arbennig,
- y cyfnod pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn,
- tai a byw yn y gymuned,

Draft

- cyflogaeth a hyfforddiant,
- cefnogaeth ar ôl diagnosis ar gyfer partneriaid ac aelodau o'r teulu,
- arunigedd cymdeithasol, datblygu sgiliau cymdeithasol a chynnal perthnasoedd,
- cadw'n ddiogel/ymyraethau gwrth-fictimeiddio,
- awtistiaeth mewn benywod,
- dynion ac awtistiaeth,
- cadw'n iach a rheoli gorbryder,
- ymddygiad heriol a rheoli dicter.

Yn olaf, bydd yna lwybr niwrolegol datblygiadol newydd, sef gwasanaeth a fydd ar gael i blant a phobl ifanc nad ydynt yn ffitio i'r llwybrau CALDS/CAMHS ar gyfer diagnosis a chymorth, a sefydlir yn gynnar yn 2017 yng Nghonwy/Sir Ddinbych – os bydd hyn yn llwyddiannus, dylai fod ar gael ledled Gogledd Cymru.

Draft

# 13 Cyfeiriadau


Bowen-Davies, R. (2016) 'National Adviser for tackling Violence against Women, other forms of Gender based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (1 April 2016 to 31 March 2017)'.

Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) (2016) 'Leading your social care financial strategy - the next steps'.

Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, CYngor Sir y Fflint a Chyngor Wrecsam. (2016) 'Polisi Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Ymgysylltu â Dinasyddion'.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) 'Gwneud gwahaniaeth: Buddsoddi mewn iechyd a llesiant cynaliadwy i bobl Cymru'.

Wavehill (2016) 'Research into Citizen Voice and Control in North Wales'. Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) 'Welsh Index of Multiple Deprivation'. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014/wimd2014.

Llywodraeth Cymru (2016a) 'Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru (sail-2014): Prif amcanestyniad'. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160929-local-authority-population-projections-2014-based-cy.pdf (Cyrchwyd: 17 Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2016b) 'Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021)'.

Llywodraeth Cymru (2016c) *Datganiad i'r wasg: £2m i gefnogi gofalwyr yng Nghymru*. Ar gael yn: http://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2016/carers/?skip=1&lang=cy.

Llywodraeth Cymru (2016d) 'Canllawiau Statudol i Gefnogi Gweithredu Rheoliadau Cytundebau Partneriaeth (Diwygio)(Cymru) 2016 a'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2016 DRAFFT'.

Yeandle, S. a Buckner, L. (2015) 'Valuing Carers'. Carers UK. Ar gael yn: http://www.carersuk.org/for-professionals/policy/policy-library/valuing-carers-2015.


Draft

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Y PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU |
| DYDDIAD | 26.01.17 |
| TEITL | Y Cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yr Ymchwiliad Craffu 'O'r Ysbyty i'r Cartref' |
| AWDUR | Gareth Roberts (Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Lles)<br><br>Ffion Johnstone (Cyfarwyddwr Ardal, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) |

| Rhif | Argymhelliad | Sylwadau |
|---|---|---|
| 1.1 | Gwirio bod Protocol Rhyddhau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi'i adolygu ac yn gyson â threfniadau gweithredol Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn y gymuned | Adolygwyd y protocol rhyddhau ym mis Ionawr 2016 ar y cyd gyda'r awdurdodau lleol a bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei wneud yn 2018.<br><br>Er gwybodaeth mae'r taflenni rhyddhau cleifion wedi'u hatodi.<br>**Atodiad 1 – Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty Cymunedol – Taflen Wybodaeth**<br>**Atodiad 2 – Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty – Taflen Wybodaeth**<br>**Atodiad 3 – O'r Ysbyty i Gartref Gofal – Taflen Wybodaeth** |
| 1.2 | Gofyn i'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gytuno ar Brotocol Rhyddhau o'r ysbyty a threfniadau ymarferol i'w weithredu. | Rhoddwyd trefniadau ar waith yn ystod haf 2016 i wella'r gweithio traws-ffiniol rhwng BIPBC a Bwrdd Iechyd Hywel Dda mewn perthynas â rhyddhau cleifion de Gwynedd o Ysbyty Bronglais. Cynhelir cyfarfod cyswllt bob dydd Mawrth yn Ysbyty Tywyn. Mae hwn yn gyfarfod amlddisgyblaeth sy'n cynnwys nyrs o'r ward, gweithiwr cymdeithasol, nyrs gymunedol, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd a Nyrs Seiciatrig Gymunedol (os ar gael). Dechreuir y |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfarfod trwy roi blaenoriaeth i drafod y cleifion sydd ar y ward a'u cynlluniau o ran rhyddhau o'r Ysbyty gymunedol. Yn dilyn hyn mae sylw yn cael ei roi i gleifion sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned, er enghraifft, cleifion sy'n derbyn gwasanaethau gofal canolraddol a gofal uwch. Yna, yn rhan olaf o'r cyfarfod, cynhelir trafodaeth drwy gyswllt fideo gyda'r tîm rhyddhau yn Ysbyty Bronglais i drafod trefniadau rhyddhau cleifion o Feirionnydd sydd yn Ysbyty Bronglais. Mae rhan yma o'r cyfarfod yn cael ei arwain gan y nyrs gymunedol er mwyn ystyried yr holl opsiynau posib i ddychwelyd cleifion adref i Feirionnydd mewn modd effeithlon, diogel ac effeithiol. |
| 1.3 | Adolygu trefniadau cydweithio a chyfathrebu rhwng y timau hynny sy'n hwyluso rhyddhau a throsglwyddo o'r ysbyty a'r asiantaethau hynny sy'n cynnig cefnogaeth yn y gymuned er mwyn adnabod cyfleoedd i wella'r gwasanaeth i gleifion gan edrych ar ymarfer dda mewn ardaloedd eraill. | **Gwlâu gofal byr dymor Gwynedd -** Mae cyllid y Gronfa Gofal Canolraddol wedi ariannu 26 gwely gofal tymor byr mewn pedwar cartref preswyl ar draws Gwynedd, ond mae hyn bellach wedi'i ehangu ar draws yr holl gartrefi preswyl. Mae'r trefniadau dan sylw wedi bod yn llwyddiannus iawn ers eu sefydlu yn 2015/16 ac yn darparu gofal canolraddol (camu i fyny / camu i lawr), ailalluogi, ac ysbaid ar gyfer pobl hŷn.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd ddwywaith yr wythnos yn Ysbyty Gwynedd rhwng prif nyrs y ward, y metron ardal, a chynrychiolwyr tîm rheoli'r ardal i adnabod y cleifion sy'n barod i'w rhyddhau h.y. sy'n feddygol ffit ac yn barod i'w trosglwyddo o Ysbyty Gwynedd.<br><br>**Prosiect EMI Llys Cadfan -** Mae Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ar brosiect i gynyddu'r capasiti gwlâu Dementia yn Nhywyn (yng Nghartref Gofal Preswyl Llys Cadfan). Mae'r cynigion cychwynnol yn cynnwys ymgymryd â newidiadau cyfalaf yng Nghartref Preswyl Llys Cadfan (wedi'u hariannu drwy gyllid ICF 2016-17) i gynyddu nifer y gwlâu dementia ac arbenigol yn Ne Meirionnydd.<br><br>**Ffordd Gwynedd -** Mae tîm Ffordd Gwynedd yn ceisio datblygu syniadau gwahanol a chreadigol er mwyn atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty. Mae'r fethodoleg yn seiliedig ar y sgwrs "Beth sy'n Bwysig" a chefnogi cleifion i wneud dewis gorau bosib ar yr adeg cywir ac yn y lle cywir. Golygai hyn fod ymyraethau felly'n gwbl seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a cheisir cyflawni hynny trwy fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda hwy a'u rwydweithiau lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| 1.4 | Adolygu'r gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo 7 diwrnod sydd wedi ei gynnig dros dro yn Ysbyty Gwynedd ac ystyried unrhyw faterion perthnasol wrth ddatblygu gwasanaeth tebyg o fewn y Prosiect Gofal Canolradd yn yr un maes. | **Uwch Dim Ryddhau / Gweithio 7 Diwrnod -** Mae'r Uwch Dim Rhyddhau yn canolbwyntio ar wella'r trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion yn ystod y penwythnos, ac mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda. Mae'r gefnogaeth ffisiotherapi a therapi galwedigaethol dros y penwythnosau hefyd yn cyfrannu at atal pobl rhag cael eu cyfeirio i wardiau acíwt. Gwneir hyn trwy gyfeirio cleifion tuag at wasanaethau cymunedol ac hefyd, os yn addas, mae'n fodd o gychwyn ymyraethau therapi yng nghynt. Mae gwaith y tîm hefyd yn rhoi ffocws newydd ar ddatblygu uned asesu pobl hŷn (llesgedd) sydd wedi'i leoli yn Ysbyty Gwynedd.<br><br>**Nyrsio Ardal 24/7 -** Ar draws Gwynedd ac Ynys Môn mae'r oriau gwasanaethau nyrsio cymunedol yn cael eu ehangu o'r oriau cyfredol (9.00am i 5.00pm) i fod yn cynnig gwasanaeth 24 awr. Mae'r trefniadau hyn wedi eu sefydlu yn Arfon bellach mewn lle yn Nwyfor a Meirionnydd yn ogystal. Cynigir felly gwasanaeth 24/7, er y bydd sicrhau cysondeb yn anodd mewn cyfnodau pan fydd swyddi yn wag neu yn ystod cyfnodau o salwch. |
| 1.5 | Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ar gynnydd y Prosiect Gofal Canolradd sydd gyfwerth â gwariant o £1.3 miliwn. | Mae'r Cyngor Gwynedd, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector yn parhau i gydweithio ar amrediad o gynlluniau trwy'r Gronfa Iechyd Canolraddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gronfa yn weithredol ers 2015/16 ac mae'r cynlluniau wedi'u hanelu'n bennaf at gynnal annibyniaeth unigolion a'u galluogi i aros yn eu cartrefi am gyhyd â phosib, er mwyn ceisio atal pobl rhag mynd i ofal preswyl neu i ysbytai heb fod angen, ac osgoi oedi cyn rhyddhau cleifion.<br><br>Mae'r cynlluniau cyfredol yn cynnwys cyflwyno Ffordd Gwynedd, gwlâu camu i fyny / i lawr ar draws holl gartrefi preswyl Gwynedd gan gynnwys gofal galluogi ac ysbaid, cefnogi gweithio ar benwythnosau, sesiynau Dementia GO mewn Canolfannau Hamdden i gefnogi pobl â dementia ynghyd â'u perthnasau a'u gofalwyr i fyw yn well gyda'r cyflwr drwy sesiynau gweithgareddau corfforol, a chefnogi canolfan Byw'n Dda Age Cymru. Mae rhai o gynlluniau newydd eleni yn cynnwys peilot Presgripsiwn Cymdeithasol yn Arfon sy'n canolbwyntio ar unigolion sy'n ymweld â meddygfeydd yn aml, gan eu cefnogi i adnabod eu hanghenion eu hunain a'u cyfeirio at sefydliadau eraill sy'n darparu gweithgareddau cymunedol a gweithgareddau eraill. Fel sydd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | barod wedi ei nodi, rydym hefyd yn gweithio ar brosiect arall i ddiwallu'r angen am gynyddu'r capasiti Dementia yng Nghartref Preswyl Llys Cadfan yn Nhywyn, gan fod prinder o leoliadau arbenigol yn yr ardal honno.<br><br>Mae cyllid hefyd wedi ei glustnodi ar gyfer meysydd Anableddau Dysgu a Phlant ag Anghenion Dwys, ac mae gwaith yn mynd rhagddo o ran y cynlluniau hyn. |
| 1.6 | Pwyso am welliannau i’r Lolfa Drosglwyddo gan ei gwneud yn ystafell gyfforddus a phwrpasol sy’n cynnwys cyfleusterau newid a symud y toiledau anabl yn agosach at y Lolfa er hwylustod. | Wedi'i gwblhau. |
| 1.7 | Gofyn i BIPBC am ddiweddariad ar eu cynlluniau i weithredu ‘Mwy na Geiriau’ | **Atodiad 4 – Darpariaeth yn unol a ‘Mwy na Geiriau’** |
| 1.8 | Datblygu ffyrdd o gasglu data am fodlonrwydd cleifion hŷn ar y gwasanaethau rhyddhau a throsglwyddo er mwyn sicrhau bod ganddynt lais yn y broses o ddatblygu’r gwasanaeth ymhellach a gwella’r ddarpariaeth. | Nid yw Archwiliad Profiadau Cleifion Cymru Gyfan a gynhelir mewn lleoliadau'r GIG yn gofyn cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â rhyddhau neu drosglwyddo, ond mae'n cynnwys y cwestiynau isod:-<br>• A gawsoch gyfle i fod yn rhan o'r penderfyniadau am eich gofal, cymaint ag y byddech wedi'i ddymuno?<br>• A gafodd popeth ei esbonio i chi mewn ffordd yr oeddech yn ei deall?<br>• A oeddech yn teimlo eich bod yn deall beth oedd yn digwydd mewn perthynas â'ch gofal?<br><br>Fel rhan o sicrhau bod gan bobl hŷn lais yn y broses o ddatblygu'r gwasanaethau rhyddhau / trosglwyddo ymhellach, ni ellir pwysleisio pa mor allweddol yw cynnal y sgwrs “Beth sy'n bwysig” rhwng y cleifion a'r gweithwyr proffesiynol – mae’r wybodaeth yma yn cael ei fonitro a’i sgorio. |

| | | |
|---|---|---|
| | | O ran archwilio'r trefniadau sydd mewn lle, gellir cadarnhau fod 'trefniadau rhyddhau' wedi ei gynnwys ar y rhestr o faterion fydd yn derbyn sylw gan Archwilio Clinigol Corfforaethol. |

| Rhif | Argymhelliad | Sylwadau |
|---|---|---|
| 2.1 | Cyfarch rhai o wendidau'r trefniadau trosglwyddo cleifion gan roi sylw lle bo angen i lunio Cynllun Gofal newydd neu i addasu'r Cynllun Gofal cyfredol yn fuan ar ôl i'r claf gyrraedd yr Ysbyty. | Fel rhan o'r ymdrech i weithio mewn modd integredig ar draws Gofal ac Iechyd, mae'r newid yn y pwyslais cyffredinol wrth asesu unigolion wedi'i sefydlu. Cytunir â'r egwyddor y dylid ymgymryd â'r asesiad yn yr amgylchiadau gorau posib ar gyfer yr unigolyn, sef yn eu cartref yn aml iawn - gan mai yma fel rheol y maent yn fwyaf cyfarwydd a chyfforddus. Mae hyn felly yn ymdrech amlwg i symud oddi wrth y dull traddodiadol o asesu yn yr ysbyty.<br><br>Yn dilyn ymarferiad diweddar (Wythnos mewn ystafell) oedd yn cynnwys swyddogion awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd (cynrychiolwyr gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd) a'r trydydd sector, penderfynwyd ail-lansio'r sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', a hynny i atgyfnerthu ei bwysigrwydd. |
| 2.2 | Cefnogi'r Trydydd Sector i gydlynu gwasanaethau ataliol a chefnogol arbenigol yn y gymuned a sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol i ddiwallu hyn ac i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gweithwyr rheng flaen o wasanaethau'r trydydd sector. | Buddsoddwyd cyllid y Gronfa Ganolraddol ar gyfer 2016/17 mewn nifer o brosiectau'r trydydd sector sy'n cydlynu gwasanaethau ataliol ac arbenigol o fewn y gymuned, er enghraifft:<br><br>**Dementia GO -** Sesiynau gyda Chanolfannau Hamdden sy'n ceisio cefnogi pobl â dementia, ynghyd â'u perthnasau a'u gofalwyr, i fyw yn dda gyda'r cyflwr drwy gynnig sesiynau gweithgareddau corfforol. Mae'r prosiect hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth ac i addysgu cymunedau am ddementia.<br><br>**Tai ac Addasiadau – Gofal a Thrwsio -** Mae cynllun diogelwch yn y cartref Gwynedd yn sicrhau bod pobl dros 60 oed, sy'n berchnogion preswyl neu'n byw mewn tai rhent preifat, yn gallu byw yn eu cartrefi am gyhyd â phosib. Gwneir hyn trwy gynnal gwaith atgyweirio bychan ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | addasiadau i'r eiddo, a thrwy hyn sicrhau amgylchedd saff a diogel.<br><br>**Age Cymru – Canolfannau Byw'n Dda -** Mae'r prosiect yn cefnogi pobl hŷn i fod yn annibynnol o fewn eu cymunedau, gan geisio eu grymuso i ddylunio'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Y nod yw creu gwasanaeth ataliol sy'n gohirio'r angen am wasanaethau statudol. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys dysgu gydol oes a gweithgareddau corfforol i gadw'r corff a'r meddwl yn weithgar, sefydlu clybiau cinio, cyfleoedd i gymdeithasu, gwasanaethau cefnogaeth a gofal yn y cartref a'r canolfannau (gan gynnwys gofal traed), a datblygu cymorthfeydd gwybodaeth a chyngor am fuddiannau.<br><br>**Cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon (Mantell Gwynedd) -** Penodwyd 'Hwylusydd Cymunedol' i weithio'n agos gyda meddygfeydd teuluol/gofal sylfaenol/nyrsys cymunedol ayyb ati i sicrhau bod unigolion sy'n mynychu meddygfeydd teulu yn gyson (sydd gyda dim ond ychydig neu ddim angen meddygol) yn derbyn cefnogaeth ymarferol i fod yn manteisio ar weithgareddau a chyfleusterau lleol.<br><br>Mae'r Hwylusydd Cymunedol yn cysylltu gyda meddygfeydd yn yr ardal ac yn cydweithio'n agos. Maent yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf er mwyn canfod atebion i gyfarch anghenion cymdeithasol y cleifion sy'n cael eu cyfeirio at y cynllun. Mae'r Hwylusydd Cymunedol hefyd yn cydweithio'n agos gyda ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac wedi sefydlu cysylltiadau cryf gyda'r swyddogion perthnasol. Mae'r cynllun yn agored i unrhyw un allai gael budd ohono, gyda'r nod o wella iechyd, lles a cynnig gwell ansawdd bywyd. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.3 | Asesu llwyddiant y Prosiect Gofal Canolradd a sicrhau dilyniant yn dilyn terfynu'r grant i ddelio gydag unrhyw ddiffygion sy'n parhau o safbwynt cynnal gwasanaeth y timau rhyddhau ysbytai, a thimau cymunedol yn llawn dros y penwythnosau. | Mae Grŵp wedi ei sefydlu ble ceir cynrychiolaeth o Wynedd, Ynys Mon, Y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector. Pwrpas y grŵp yw cyfarfod yn gyson i adolygu a monitro prosiectau a'u gwariant, ac i ystyried unrhyw gyfleoedd sy'n deillio o lithriadau. Yn ogystal, mae gweithdai wedi eu trefnu i gytuno ar flaenoriaethau'r flwyddyn i ddod gan asesu llwyddiant y prosiectau cyfredol a'u cynaliadwyedd. |
| 2.4 | Cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gytuno trefniant gyda Thîm Rhyddhau Ysbyty Bronglais i ryddhau cleifion i Dde Meirionnydd. | Gweler pwynt 1.2<br><br>Mae gan y Bwrdd Iechyd, ac yn arbennig Ffion Johnstone y Cyfarwyddwr Ardal, gyswllt cryf â Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Yn ogystal, mae Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol, a Gareth Roberts, Aelod Cabinet, yn aelodau o 'Fwrdd Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth', sydd hefyd yn cynnwys Prif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd Iechyd. Mae'r ffrydiau gwaith a sefydlwyd gan Grŵp Cydweithredol Iechyd y Canolbarth yn cynnwys:<br><br>Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol<br>Cyfathrebu ac ymgysylltu<br>Teleiechyd<br>Iechyd meddwl / anableddau dysgu<br>Ysbyty Cyffredinol Bronglais<br>Gofal lliniarol / diwedd oes<br>Canolfan ragoriaeth ar gyfer gofal iechyd gwledig<br>Iechyd a lles<br>Mynediad a Thrafnidiaeth |
| 2.5 | Deallir bod gwaith yn mynd rhagddo i wella sefyllfa prinder meddygon a nyrsys a bod angen datblygu a chyfathrebu'r cynlluniau'n glir ac ar frys gan roi sylw arbennig i'r sefyllfa argyfyngus | Er ein bod yn cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor, dylid pwysleisio na ddylem ddibynnu ar gefnogaeth draddodiadol yn unig, a bod dulliau amgen o ddiwallu anghenion. Gellir defnyddio grwpiau proffesiynol eraill i ddiwallu anghenion unigolion, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn cyllid y 'Strategaeth Gofal Sylfaenol' i ystyried y posibilrwydd o ddatblygu timau aml- |

| | | |
|---|---|---|
| | yn Nwyfor a Meirionnydd. | ddisgyblaethol. Yn benodol, byddai hyn yn cynnwys nyrsys, fferyllwyr, therapyddion ac awdiolegwyr a fyddai'n arbenigo mewn rheoli cyflyrau cronig, gofal cymunedol a'r defnydd o dechnoleg i gynorthwyo cleifion i aros yn eu cartrefi.<br><br>**Recriwtio Meddygon Teulu / Meddygon** - Mae prinder cenedlaethol o feddygon teulu sydd hefyd yn effeithio ar allu meddygfeydd teuluol i lenwi swyddi gwag. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio meddygon teulu trwy’r rhaglen ‘Meddygon Teulu Eithriadol’, gydag un ohonynt bellach yn cael ei gyfogi gan feddygfa yn Nefyn. Yn ystod 2017 byddwn yn ceisio recriwtio rhagor o feddygon teulu trwy’r cynllun hwn. Hefyd, yn ystod 2017 byddwn yn ceisio symud ymlaen â chynllun i fod yn cyflogi meddygon teulu sy'n bwriadu ymddeol er mwyn iddynt ddarparu cefnogaeth i feddygfeydd sy'n cael trafferth recriwtio.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynychu ffeiriau recriwtio i amlygu'r manteision o weithio yng ngogledd Cymru ac i hyrwyddo unrhyw swyddi gwag cyfredol.<br><br>Gan fod y gweithlu gofal sylfaenol mewn ardaloedd gwledig yn wynebu nifer o heriau, mae tîm ardal y gorllewin yn gweithio gyda Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth i sefydlu rolau Meddygon Cysylltiol i gyfrannu'n gadarnhaol at y gweithlu iechyd mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Mae tîm ardal y gorllewin wedi cytuno i ariannu un swydd Meddyg Cysylltiol, gyda'r bwriad i leoli'r swydd o fewn gofal sylfaenol yn ne Gwynedd ar ôl y cyfnod hyfforddi.<br><br>**Recriwtio nyrsys -** Mae ymgyrchoedd yn digwydd ar hyn o bryd i recriwtio nyrsys yn genedlaethol ac yn lleol, a gwelir hysbysebion mewn fferyllfeydd a meddygfeydd teuluol lleol, ond mae'n gynyddol anodd i recriwtio staff newydd, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Mae nifer o gynlluniau yn weithredol ar gyfer cefnogi’r gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys cynnig lleoliadau nyrsio i fyfyrwyr nyrsio yn ne Gwynedd yn ystod eu hyfforddiant er |

| | | |
|---|---|---|
| | | mwyn iddynt fagu profiad o weithio mewn ardal wledig. Cynigir lleoliadau mewn ysbytai cymunedol a gyda'r timau nyrsio cymunedol. Mae lleoliadau yn cael eu hyrwyddo hefyd i fyfyrwyr nyrsio o'r tu allan i Gymru, a chynigir lleoliadau dewisol gyda'r timau nyrsio cymunedol lleol. Yn ogystal, cynigir profiad gwaith mewn ysbytai i bobl sy'n ystyried astudio nyrsio. Mae'r timau Nyrsio Lleol hefyd yn cefnogi cynorthwywyr gofal iechyd i ennill cymhwyster ymarferydd cynorthwyol sy'n eu galluogi i wneud cais er mwyn dilyn cwrs gradd mewn Nyrsio. Cyflwynwyd ymarferwyr cynorthwyol mewn ysbytai cymunedol ac mae'r Bwrdd iechyd hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu swyddogaethau arloesol.<br><br>Rydym yn ystyried penodiadau nyrsio mewn modd hyblyg o ran ymddeoliadau a dychwelyd i'r gwaith, adolygu llwyth gwaith y nyrsys ardal ac yn herio'r modelau gofal cyfredol. |
| 2.6 | Adolygu’r Protocol Rhyddhau gan ymgynghori gyda budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys cleifion a’r cyhoedd yn unol â Pholisïau a Chynlluniau Iaith Cyngor Gwynedd a’r Bwrdd Iechyd. | Mae'r Protocol Rhyddhau bellach wedi'i fabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd.<br>Ystyrir mai Mwy Na Geiriau yw yn un o'r prif egwyddorion a amlinellir yn y Protocol Rhyddhau. “Rhaid i'r holl gyfathrebu fod yn newis iaith y claf. (Mwy na geiriau) Lle nad yw hyn yn bosib, gellir trefnu cyfieithydd”. |
| 2.7 | Asesu llwyddiant y gwaith sy’n mynd rhagddo ar waith Lean/Vanguard yn Ysbyty Alltwen i gyfarch y trefniadau biwrocrataidd presennol er mwyn rhyddhau amser staff i ddelio gyda’u prif ddyletswyddau o ddarparu gofal a nyrsio. | Byddwn yn parhau i herio unrhyw drefniadau biwrocrataidd diangen.<br><br>Bydd Ffordd Gwynedd ei gyflwyno yng ngweddill y sir yn ystod 2017, gan adeiladu ar lwyddiant y peilot cychwynnol yn ardal Eifionydd, a leolwyd yn Ysbyty Alltwen.<br><br>Mae’r cynllun prosiect yn cael ei ddatblygu i gynnwys: amserlenni, strwythurau rheolaeth a’r prif leoliadau ar gyfer staff. |

# RHYDDHAU CLEIFION O'R YSBYTY CYMUNEDOL

# TAFLEN WYBODAETH I GLEIFION

**Dyddiad disgwyliedig rhyddhau'r claf:**

________________________________________________

**Y Meddyg Ymgynghorol sy'n gyfrifol am eich gofal yw:**

________________________________________________

**Enw Rheolwr eich Ward yw:**

________________________________________________

**Rhif ffôn uniongyrchol y ward yw:**

________________________________________________

Lluniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn partneriaeth ag:

- Awdurdod Lleol Ynys Môn
- Awdurdod Lleol Gwynedd
- Awdurdod Lleol Conwy
- Awdurdod Lleol Sir Ddinbych
- Awdurdod Lleol Sir y Fflint
- Awdurdod Lleol Wrecsam

Mae'r wybodaeth hon wedi'i hategu a'i chefnogi'n llawn gan eich ysbytai lleol, eich Awdurdod Lleol, eich comisiynwyr gofal a'ch timau cyfreithiol.

Os ydych yn rhagweld unrhyw broblemau ynglyn â chael eich rhyddau unrhyw adeg yn ystod eich arhosiad yn yr ysbyty, siaradwch â'r nyrs sy'n gofalu am eich gofal.

Yn y daflen hon rydym yn anelu at roi'r holl fanylion i chi am y broses o gynllunio ar gyfer eich rhyddhau yn ddiogel o'r ysbyty. Mae hefyd yn rhestru opsiynau posibl a fydd yn cael eu hystyried gan y tîm sy'n gofalu amdanoch wrth eich rhyddhau.

## Cyflwyniad

Croeso i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Bydd hyd yr amser y byddwch yn ei dreulio yn yr ysbyty'n dibynnu ar eich cyflwr clinigol. Yn fuan ar ôl i chi gael eich derbyn i'r ysbyty, cewch Dyddiad Rhyddhau Disgwyliedig (EDD).

Nod y daflen hon yw rhoi gwybod i chi am y broses o gynllunio at ryddhau claf a dewisiadau posibl a gaiff eu hystyried gan y tîm sy'n gofalu amdanoch ar adeg eich rhyddhau. Tra byddwch yn glaf yn yr ysbyty, cewch eich asesu gan weithwyr proffesiynol amrywiol a chaiff eich barn a'ch amcanion eu cofnodi.

Bydd tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys prif nyrs y ward, meddyg ymgynghorol neu feddyg teulu a nyrsys y ward yn dechrau cynllunio eich trosglwyddo o'r ysbyty cyn gynted ag y cewch eich derbyn yno. Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau unigol, gallai'r tîm hwn gynnwys Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, Nyrsys Cymunedol, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion a chydlynwyr rhyddhau hefyd.

## Gadael yr Ysbyty

Byddwch yn cael eich trosglwyddo o'r ysbyty pan fydd meddyg ymgynghorol/Meddyg Teulu yn penderfynu eich bod yn barod yn glinigol i adael yr ysbyty ac nad ydych angen gwely ysbyty mwyach.

Mae mwyafrif o gleifion yn mynd yn syth adref o'r ysbyty. Mewn rhai achosion byddwch angen ychydig o gefnogaeth ychwangeol i'ch galluogi chi i adennill neu gynnal eich annibynniaeth.

Bydd eich trosglwyddiad diogel ac amserol yn galluogi i gleifion newydd sydd angen triniaeth ysbyty llym gael eu derbyn heb oedi.

**Mae'ch trosglwyddo o'r ysbyty ar yr adeg gywir yn bwysig am y rhesymau canlynol:**

- Mae'n cynnig y cyfle gorau i chi adennill eich annibyniaeth
- Mae rhai unigolion yn gweld hi'n fwy anodd i ddychwelyd adref yr hiraf maent yn aros yn yr ysbyty.
- Mae risg o gael heintiau yn yr ysbyty. Mae gadael yr ysbyty cyn gynted â'ch bod yn ffit yn feddygol yn golygu bod hyn yn llai tebygol ac yn lleihau'r risg o unrhyw gymhlethdodau.

## Ein Hymrywmiad i Chi

- Byddwch yn cael y driniaeth gywir yn y lle cywir a gan y gweithiwr proffesiynol cywir.
- Byddwn yn sicrhau bod eich arhosiad mewn gwely ysbyt yn cael ei gadw cyn fyred â phosibl drwy gynnal asesiadau parhaus i gynllunio ar gyfer eich rhyddhad
- Unwaith bydd eich tîm Ymgynghori yn asesu eich bod yn ffit yn feddygol ar gyfer rhyddhau/trosglwyddo byddwn yn anelu at eich trosglwyddo chi o'r ysbyty.
- Ein bwriad bob amser yw y byddwch yn dychwelyd i'ch cartref eich hun.
- Os nad yw dychwelyd gartref yn bosibl byddwch yn cael eich trosglwyddo i'r gwasanaeth a'r cyfleusterau mwyaf addas a sydd ar gael.
- Byddwn yn anelu at eich trosgwlyddo o'r ysbyty cyn gynted â phosibl ar ddiwrnod eich trosglwyddiad
- Mewn partneriaeth â ni, mae ein Partneriaid Awdurdod Lleol, Sector Gwirfoddol a Sector Annibynnol wedi ymrwymo i sicrhau eich bod yn cael mynediad at gefnogaeth addas wrth gael eich rhyddhau.
- Mewn rhai amgylchiadau bydd y ward yn gwneud trefniadau ar gyfer eich cludo wrth eich rhyddhau/ trosglwyddo. Enghreifftiau o pan mae hyn yn addas yw lle mae gennych anghenion Gofal Iechyd Parhaus wrth gael eich rhyddhau neu angen cael eich trosglwyddo i Ysbyty Cymunedol neu Gartref Gofal.

**Gweithio â Ni**

Helpwch ni i ddod o hyd i'r gofal a'r gefnogaeth orau i chi a chytuno arnynt drwy:

Rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â holl aelodau staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Cymryd rhan wrth gynllunio eich gofal yn y dyfodol

Mynychu Cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol (gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'ch gofal) gyda'ch teulu a bod yn hyblyg o ran pryd mae'r rhain yn digwydd

Trefnu eich cludiant eich hun adref

Darllenwch y wybodaeth hon yn llawn a chefnogi ein hamcanion cyffredinol

**Meddyginiaeth**

Rydym yn annog cleifion i ddod â meddyginiaethau o gartref i'r ysbyty fel y gallwn wirio'n union beth oeddech yn ei gymryd cyn i chi gael eich derbyn i'r ysbyty. Efallai byddwn yn rhoi Bag Meddyginiaethau Gwyrdd i chi wrth eich rhyddhau i gadw eich meddyginiaethau ynddo.

Byddwn yn dychwelyd eich meddyginiaethau i chi wrth eich rhyddhau ynghyd ag unrhyw feddyginiaeth sydd wedi'i ragnodi o'r newydd. Rhowch wybod i'r fferyllydd os oes gennych gyflenwad gartref. Byddwn yn egluro eich meddyginiaethau cyn eich rhyddhau. Mae cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar y pecyn a thaflen gwneuthurwyr y tu mewn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych angen cymorth am eich meddyginiaethau pan rydych yn mynd adref bydd staff y fferyllfa yn hapus i'ch helpu a gellir cysylltu â nhw ar y rhif canlynol

## Llinell Gymorth Meddyginiaethau 01248 384492

## Pan ydych yn gadael yr Ysbyty

Os nad ydych angen gofal ysbyty mwyach a bod oedi cyn dechrau eich pecyn neu leoliad cymunedol sydd orau gennych ni allwch ddewis aros mewn gwely ysbyty.

Er mwyn sicrhau bod asesiad o'ch anghenion gofal yn gywir ac yn briodol, efallai bydd yn cael ei gynnal mewn amgylchedd mwy addas megis gwely cymunedol sydd y tu allan i'r amgylchedd ysbyty llym.

Isod mae enghreifftiau o wasanaethau byddwch eu hangen efallai pan fyddwch yn gadael yr ysbyty.

## Gofal Canolraddol yn y Cartref

Efallai bydd eich timau therapi ysbyty a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn asesu eich bod angen cyfnod o adfer yn eich cartref eich hun pan nad ydych angen gwely ysbyty mwyach.
Weithiau bydd hyn yn cael ei gyfuno gyda phecyn gofal.

## Gwelyau Cymunedol Canolraddol

Efallai bydd tîm yr ysbyty yn awgrymu eich bod yn cael eich rhyddhau i gyfleuster Gofal Canolradd i gefnogi cyfnod o adferiad yn y gwely neu apwyntiad dilynol clinigol. Efallai byddwch yn cael eich trosglwyddo i gyfleuster yn y gymuned megis cartref preswyl neu gartref nyrsio ar gyfer adsefydlu pellach ac asesiad o'ch anghenion hir dymor.

## Pecyn Gofal

Pan fyddwch yn dychwelyd gartref efallai byddwch angen ychydig o gymorth gyda'ch gofal personol a thasgau bob dydd. Os felly, efallai byddwch yn cael eich trosglwyddo at y Gweithiwr Gofal Cymdeithasol o'ch ardal a fydd yn ymweld â chi ar y ward ac yn cwblhau asesiad o'r anghenion. Bydd eich Gweithiwr Gofal Cymdeithasol penodol yn ystyried yr adolygiad a wnaed gan y staff meddygol, nyrsio a therapi. Bydd gan eich pecyn gofal ddull ailalluogi i alluogi bod rhyddhad adref yn gefnogol, wrth eich annog i gynyddu/cynnal eich lefel o annibynniaeth.

**Cartref Gofal**

Os yw'n cael ei ddynodi eich bod angen gofal pellach mewn cartref gofal, bydd gofyn i chi ddewis 3 cartref gofal o'ch dewis, dylai un ohonynt fod ar gael o fewn y pythefnos nesaf a dylech rhoi gwybod i'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd sy'n gyfrifol am eich gofal am eich dewisiadau. Gweler y daflen "*Symud o'r Ysbyty i Gartref Gofal: Eich Dewisiadau*". Mae hwn yn unol â Phrotocol Rhyddhau'r Bwrdd Iechyd.

**Beth mae'n ei olygu i chi**

Rydym yn deall pan yn gadael yr ysbyty byddwch chi, eich teulu, neu ofalwyr weithiau angen amser i wneud penderfyniadau a all newid bywyd. Mae eich ysbyty'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi'r amser i'ch helpu chi wneud y penderfyniadau hyn mewn amgylchedd sy'n fwy addas.

Nid yw aros mewn gwely ysbyty pan nad ydych angen y lefel hwn o ofal mwyach yn opsiwn a byddwch yn cael eich trosglwyddo o'r ysbyty pan mae eich meddyg ymgynghorol/ Meddyg Teulu yn asesu eich bod yn ffit yn feddygol ac yn barod i adael yr ysbyty. Byddwn yn anelu at eich trosglwyddo chi o'r ysbyty i amgylchedd mwy addas.

**Sylwer:** y byddwn bob amser yn ceisio gwneud ein gorau i gynnwys aelodau enwebedig o'ch teulu neu eich ffrinidau yn eich gofal i'r dyfodol. Nid yw absenoldeb aelodau'r teulu oherwydd gwyliau, ymrwymiadau gwaith ayyb yn golygu y bydd penderfyniadau ynglyn â'ch trosglwyddiad o'r ysbyty yn gallu cael ei atal neu'n cael ei atal nes bod eich teulu ar gael. Os bydd angen eiriolwr i'ch cefnogi gyda darpariaeth gofal i'r dyfodol bydd eich ysbyty yn trefnu hyn i chi.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl mae ein bwriad yw darparu'r gofal mwyaf addas ar gyfer ein holl gleifion yn yr amgylchedd mwyaf addas.

Eich GIG Cymru

Dewis doeth

Choose well

# A oes angen gofal arnoch **chi?**

## Hunanofal

Gofalu am eich hun.

- Peswch
- Briw ar y pen-glin
- Llwnc tost
- Trwyn sy'n rhedeg
- Mân broblemau eraill

## Gwasanaethau Lleol y GIG

Gan gynnwys

- Meddygfeydd
- Fferyllfeydd
- Optometryddion
- Deintyddion
- Ymwelwyr Iechyd
- Bydwragedd
- Uned Mân Anafiadau

**Meddygfeydd neu Wasanaethau y Tu Allan i Oriau**

- Chwydu'n barhaus
- Pigyn clust
- Peswch poenus
- Symptomau nad ydynt yn gwella

**Fferyllfeydd**

- Dolur rhydd
- Poen yn y bol
- Pen tost / Cur pen

**Uned Mân Anafiadau**

- Briwiau
- Brathiadau
- Troi troed
- Mân salwch neu anaf

## Yr Adran Achosion Brys

Ar gyfer salwch neu anaf difrifol.

Ffoniwch **999** ar gyfer cyflyrau brys sy'n peryglu bywydau ac sydd angen sylw meddygol ar frys.

- Tagu
- Poen difrifol yn y frest
- Llewygu
- Colli llawer o waed
- Anaf difrifol
- Amau strôc

© Hawlfraint y Goron 2015 WG26459

Yn dal i fod yn ansicr? Cysylltwch â

**Galw Iechyd Cymru**

**0845 46 47**

www.nhsdirect.wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES

Lawrlwythwch eich ap dewis doeth

@DewisDoethCymru

# RHYDDHAU CLEIFION O'R YSBYTY

# TAFLEN WYBODAETH I GLEIFION

**Dyddiad disgwyliedig rhyddhau'r claf:**

_______________________________________________

**Y Meddyg Ymgynghorol sy'n gyfrifol am eich gofal yw:**

_______________________________________________

**Enw Rheolwr eich Ward yw:**

_______________________________________________

**Rhif ffôn uniongyrchol y ward yw:**

_______________________________________________

Lluniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn partneriaeth ag:

- Awdurdod Lleol Ynys Môn
- Awdurdod Lleol Gwynedd
- Awdurdod Lleol Conwy
- Awdurdod Lleol Sir Ddinbych
- Awdurdod Lleol Sir y Fflint
- Awdurdod Lleol Wrecsam

Mae'r wybodaeth hon wedi'i hategu a'i chefnogi'n llawn gan eich ysbytai lleol, eich Awdurdod Lleol, eich comisiynwyr gofal a'ch timau cyfreithiol.

Os ydych yn rhagweld unrhyw broblemau ynglyn â chael eich rhyddau unrhyw adeg yn ystod eich arhosiad yn yr ysbyty, siaradwch â'r nyrs sy'n gofalu am eich gofal.

Yn y daflen hon rydym yn anelu at roi'r holl fanylion i chi am y broses o gynllunio ar gyfer eich rhyddhau yn ddiogel o'r ysbyty. Mae hefyd yn rhestru opsiynau posibl a fydd yn cael eu hystyried gan y tîm sy'n gofalu amdanoch wrth eich rhyddhau.

## Cyflwyniad

Croeso i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Bydd hyd yr amser y byddwch yn ei dreulio yn yr ysbyty'n dibynnu ar eich cyflwr clinigol. Yn fuan ar ôl i chi gael eich derbyn i'r ysbyty, cewch Dyddiad Rhyddhau Disgwyliedig.

Tra byddwch yn glaf yn yr ysbyty, cewch eich asesu gan weithwyr proffesiynol amrywiol a chaiff eich barn a'ch amcanion eu cofnodi.

Bydd tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys prif nyrs y ward, meddyg ymgynghorol neu feddyg teulu a nyrsys y ward yn dechrau cynllunio eich trosglwyddo o'r ysbyty cyn gynted ag y cewch eich derbyn yno. Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau unigol, gallai'r tîm hwn gynnwys Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, Nyrsys Cymunedol, Therapyddion Galwedigaethol a Ffisiotherapyddion hefyd.

## Gadael yr Ysbyty

Byddwch yn cael eich trosglwyddo o'r ysbyty pan fydd meddyg ymgynghorol/Meddyg Teulu yn penderfynu eich bod yn barod yn glinigol i adael yr ysbyty ac nad ydych angen gwely ysbyty mwyach.

Bydd y rhan fwyaf o gleifion yn mynd adref yn syth o'r ysbyty; fodd bynnag, mewn rhai achosion, gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i'w galluogi i adennill eu hannibyniaeth neu i'w chadw, efallai bydd hyn yn cynnwys cyfnod o adsefydlu mewn ysbyty cymunedol neu leoliad arall.

Bydd eich trosglwyddiad diogel ac amserol yn galluogi i gleifion newydd sydd angen triniaeth ysbyty llym gael eu derbyn heb oedi.

## Mae'ch trosglwyddo o'r ysbyty ar yr adeg gywir yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- Mae'n cynnig y cyfle gorau i chi adennill eich annibyniaeth
- Mae rhai unigolion yn gweld hi'n fwy anodd i ddychwelyd adref yr hiraf maent yn aros yn yr ysbyty.
- Mae risg o gael heintiau yn yr ysbyty. Mae gadael yr ysbyty cyn gynted â'ch bod yn ffit yn feddygol yn golygu bod hyn yn llai tebygol ac yn lleihau'r risg o unrhyw gymhlethdodau.

## Ein Hymrwymiad i Chi

- Byddwch yn cael y driniaeth gywir yn y lle cywir a gan y gweithiwr proffesiynol cywir.
- Byddwn yn sicrhau bod eich arhosiad mewn gwely ysbyt yn cael ei gadw cyn fyred â phosibl drwy gynnal asesiadau parhaus i gynllunio ar gyfer eich rhyddhad.
- Unwaith bydd eich tîm Ymgynghori yn asesu eich bod yn ffit yn feddygol ar gyfer rhyddhau/trosglwyddo byddwn yn anelu at eich trosglwyddo chi o'r ysbyty.
- Ein bwriad bob amser yw y byddwch yn dychwelyd i'ch cartref eich hun.
- Os nad yw dychwelyd gartref yn bosibl byddwch yn cael eich trosglwyddo i'r gwasanaeth a'r cyfleusterau mwyaf addas a sydd ar gael.
- Byddwn yn anelu at eich trosgwlyddo o'r ysbyty cyn gynted â phosibl ar ddiwrnod eich trosglwyddiad
- Mewn partneriaeth â ni, mae ein Partneriaid Awdurdod Lleol, Sector Gwirfoddol a Sector Annibynnol wedi ymrwymo i sicrhau eich bod yn cael mynediad at gefnogaeth addas wrth gael eich rhyddhau.
- Mewn rhai amgylchiadau bydd y ward yn gwneud trefniadau ar gyfer eich cludo wrth eich rhyddhau/ trosglwyddo. Enghreifftiau o pan mae hyn yn addas yw lle mae gennych anghenion Gofal Iechyd Parhaus wrth gael eich rhyddhau neu angen cael eich trosglwyddo i Ysbyty Cymunedol neu Gartref Gofal.

## Gweithio â Ni

Helpwch ni i ddod o hyd i'r gofal a'r gefnogaeth orau i chi a chytuno arnynt drwy:

- Rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â holl aelodau staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Cymryd rhan wrth gynllunio eich gofal yn y dyfodol
- Mynychu Cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol (gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'ch gofal) gyda'ch teulu a bod yn hyblyg o ran pryd mae'r rhain yn digwydd
- Trefnu eich cludiant eich hun adref
- Darllenwch y wybodaeth hon yn llawn a chefnogi ein hamcanion cyffredinol

## Meddyginiaeth

Rydym yn annog cleifion i ddod â meddyginiaethau o gartref i'r ysbyty fel y gallwn wirio'n union beth oeddech yn ei gymryd cyn i chi gael eich derbyn i'r ysbyty. Efallai byddwn yn rhoi Bag Meddyginiaethau Gwyrdd i chi wrth eich rhyddhau i gadw eich meddyginiaethau ynddo.

Byddwn yn dychwelyd eich meddyginiaethau i chi wrth eich rhyddhau ynghyd ag unrhyw feddyginiaeth sydd wedi'i ragnodi o'r newydd. Rhowch wybod i'r fferyllydd os oes gennych gyflenwad gartref.

Byddwn yn egluro eich meddyginiaethau cyn eich rhyddhau. Mae cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar y pecyn a thaflen gwneuthurwyr y tu mewn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych angen cymorth am eich meddyginiaethau pan rydych yn mynd adref bydd staff y fferyllfa yn hapus i'ch helpu a gellir cysylltu â nhw ar y rhif canlynol

**Llinell Gymorth Meddyginiaethau 01248 384492**

## Pan ydych yn gadael yr Ysbyty

Os nad ydych angen gofal ysbyty mwyach a bod oedi cyn dechrau eich pecyn neu leoliad cymunedol sydd orau gennych ni allwch ddewis aros mewn gwely ysbyty.

Er mwyn sicrhau bod asesiad o'ch anghenion gofal yn gywir ac yn briodol, efallai bydd yn cael ei gynnal mewn amgylchedd mwy addas megis gwely cymunedol sydd y tu allan i'r amgylchedd ysbyty llym.

Isod mae enghreifftiau o wasanaethau byddwch eu hangen efallai pan fyddwch yn gadael yr ysbyty.

### Gofal Canolraddol yn y Cartref

Efallai y bydd eich timau therapi yn yr ysbyty a'ch Gweithiwr Gofal Cymdeithasol yn asesu bod angen cyfnod o adsefydlu yn eich cartref eich hun pan na fydd angen gwely ysbyty arnoch mwyach. Caiff hyn ei gyfuno â phecyn gofal weithiau.

### Gwelyau Cymunedol Canolraddol

Efallai bydd tîm yr ysbyty yn awgrymu eich bod yn cael eich rhyddhau i gyfleuster Gofal Canolradd i gefnogi cyfnod o adferiad yn y gwely neu apwyntiad dilynol clinigol. Efallai byddwch yn cael eich trosglwyddo i gyfleuster yn y gymuned megis cartref preswyl neu gartref nyrsio ar gyfer adsefydlu pellach ac asesiad o'ch anghenion hir dymor.

### Pecyn Gofal (POC)

Pan fyddwch yn dychwelyd gartref efallai byddwch angen ychydig o gymorth gyda'ch gofal personol a thasgau bob dydd. Os felly, efallai byddwch yn cael eich trosglwyddo at y Gweithiwr Gofal Cymdeithasol o'ch ardal a fydd yn ymweld â chi ar y ward ac yn cwblhau asesiad o'r anghenion. Bydd eich Gweithiwr Gofal Cymdeithasol penodol yn ystyried yr adolygiad a wnaed gan y staff meddygol, nyrsio a therapi. Bydd gan eich pecyn gofal ddull ailalluogi i alluogi bod rhyddhad adref yn gefnogol, wrth eich annog i gynyddu/cynnal eich lefel o annibynniaeth.

## Cartref Gofal

Os yw'n cael ei ddynodi eich bod angen gofal pellach mewn cartref gofal, bydd gofyn i chi ddewis 3 cartref gofal o'ch dewis, dylai un ohonynt fod ar gael o fewn y pythefnos nesaf a dylech rhoi gwybod i'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd sy'n gyfrifol am eich gofal am eich dewisiadau. Gweler y daflen "*Symud o'r Ysbyty i Gartref Gofal: Eich Dewisiadau*". Mae hwn yn unol â Phrotocol Rhyddhau'r Bwrdd Iechyd.

## Beth mae'n ei olygu i chi

Rydym yn deall pan yn gadael yr ysbyty byddwch chi, eich teulu, neu ofalwyr weithiau angen amser i wneud penderfyniadau a all newid bywyd. Mae eich ysbyty'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi'r amser i'ch helpu chi wneud y penderfyniadau hyn mewn amgylchedd sy'n fwy addas.

Nid yw aros mewn gwely ysbyty pan nad ydych angen y lefel hwn o ofal mwyach yn opsiwn a byddwch yn cael eich trosglwyddo o'r ysbyty pan mae eich meddyg ymgynghorol/ Meddyg Teulu yn asesu eich bod yn ffit yn feddygol ac yn barod i adael yr ysbyty. Byddwn yn anelu at eich trosglwyddo chi o'r ysbyty i amgylchedd mwy addas.

**Sylwer:** y byddwn bob amser yn ceisio gwneud ein gorau i gynnwys aelodau enwebedig o'ch teulu neu eich ffrinidau yn eich gofal i'r dyfodol. Nid yw absenoldeb aelodau'r teulu oherwydd gwyliau, ymrwymiadau gwaith ayyb yn golygu y bydd penderfyniadau ynglyn â'ch trosglwyddiad o'r ysbyty yn gallu cael ei atal neu'n cael ei atal nes bod eich teulu ar gael. Os bydd angen eiriolwr i'ch cefnogi gyda darpariaeth gofal i'r dyfodol bydd eich ysbyty yn trefnu hyn i chi.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl mae ein bwriad yw darparu'r gofal mwyaf addas ar gyfer ein holl gleifion yn yr amgylchedd mwyaf addas.

Eich GIG Cymru

Dewis doeth
Choose well

# A oes angen gofal arnoch **chi?**

## Hunanofal

Gofalu am eich hun.

- Peswch
- Briw ar y pen-glin
- Llwnc tost
- Trwyn sy'n rhedeg
- Mân broblemau eraill

## Gwasanaethau Lleol y GIG

Gan gynnwys

- Meddygfeydd
- Fferyllfeydd
- Optometryddion
- Deintyddion
- Ymwelwyr Iechyd
- Bydwragedd
- Uned Mân Anafiadau

**Meddygfeydd neu Wasanaethau y Tu Allan i Oriau**

- Chwydu'n barhaus
- Pigyn clust
- Peswch poenus
- Symptomau nad ydynt yn gwella

**Fferyllfeydd**

- Dolur rhydd
- Poen yn y bol
- Pen tost / Cur pen

**Uned Mân Anafiadau**

- Briwiau
- Brathiadau
- Troi troed
- Mân salwch neu anaf

## Yr Adran Achosion Brys

Ar gyfer salwch neu anaf difrifol.

Ffoniwch **999** ar gyfer cyflyrau brys sy'n peryglu bywydau ac sydd angen sylw meddygol ar frys.

- Tagu
- Poen difrifol yn y frest
- Llewygu
- Colli llawer o waed
- Anaf difrifol
- Amau strôc

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26459

Yn dal i fod yn ansicr? Cysylltwch â

**Galw Iechyd Cymru**

**0845 46 47**

www.nhsdirect.wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES

Lawrlwythwch eich ap dewis doeth

@DewisDoethCymru

# SYMUD O'R YSBYTY I GARTREF GOFAL

# EICH DEWISIADAU

Wrth gynllunio a threfnu rhyddhad o'r ysbyty, y nod yw sicrhau bod cleifion bob amser yn gallu dychwelyd adref os yw hyn yn bosibl. Dim ond os nad yw hyn yn bosibl bydd dewisiadau eraill ar gyfer gofal a gefnogir, gan gynnwys cartrefi gofal yn cael eu hystyried.

**Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth am y broses a ddilynnir pan fo claf wedi'i asesu i fod angen gofal mewn cartref gofal - gofal preswyl neu ofal nyrsio.**

Mae Deddf Cymorth Cenedlaethol 1948 (Dewis o Lety) Cyfarwyddiadau 1993 yn ymwneud â hawliau unigolion i ddewis lle byddant yn derbyn gofal preswyl. Cyhoeddwyd canllawiau i awdurdodau lleol ac i'r GIG ar sut mae'n rhaid iddynt gwrdd â'u cyfrifoldebau yn ymwneud â dewis llety. Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am hyn. Dylid ei darllen ynghyd ag unrhyw wybodaeth leol ychwanegol neu daflen leol a gynhyrchwyd gan yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

## Ar gyfer pwy mae'r daflen hon?

Mae'r daflen hon ar gyfer unrhyw un a all fod angen symud o'r ysbyty i gartref gofal. Efallai bydd y daflen hon o gymorth i gyfeillion, teulu, gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau eiriolaeth neu'r sector gofal hefyd.

## Beth fydd yn digwydd pan fydd penderfyniad wedi'i wneud eich bod angen symud o'r ysbyty i gartref gofal?

Mae symud i gartref gofal o'r ysbyty yn newid mawr ym mywyd unrhyw un. Mae gan y GIG a'r awdurdod lleol gyfrifoldebau i sicrhau bod y broses hon yn digwydd yn gywir. Mae'r GIG yn gyfrifol am drefniadau eich rhyddhau o'r ysbyty, ond cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw gofal ôl-ysbyty, os oes gennych anghenion a aseswyd sydd angen cefnogaeth. Mae rheoli'r broses hon angen i'r ddau sefydliad gydweithio i sicrhau bod eich anghenion yn cael eu cwrdd yn ddiogel. Bydd gweithwyr cymdeithasol a staff yr ysbyty felly'n eich helpu i wneud dewisiadau pwysig a rhoi gwybodaeth ynghylch symud i gartref gofal ar y pwynt lle mae'n amlygu ei hyn bydd hyn yn bosibilrwydd mawr. Byddant yn rhoi gwybod i chi am brotocol rhyddau eich ysbyty lleol a rhoi gwybodaeth i chi ar yr hyn ddylai ddigwydd ac am y dewisiadau sydd ar gael i chi. Dylech dderbyn gwybodaeth gynhwysfawr ynghylch yr ystod o gartrefi gofal sydd ar gael yn eich ardal a'ch cynghori ar yr argaeledd, amserau aros a chostau posibl. Byddwch hefyd yn cael gwybod sut i dderbyn adroddiadau archwiliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru - bydd yr adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi ar ddarganfyddiadau archwilwyr ac am y gwsanaethau all y cartrefi gofal eu cynnig.

## Beth os nad ydyw i'n credu y dylwn i gael fy rhyddhau o'r ysbyty?

Gall treulio amser yn yr ysbyty yn ddiangen effeithio'ch iechyd a lles ac arwain at lai o sgiliau, hyder ac annibyniaeth. Bydd sawl proffesiynolyn sy'n gweithio mewn partneriaeth â chi wedi cymryd y penderfyniad eich bod yn barod i'ch rhyddhau o'r ysbyty gan sicrhau bod eich anghenion wedi'u cwrdd. Fodd bynnag, os ydych chi'n credu nad yw penderfyniad i'ch rhyddhau yn briodol, y peth cyntaf i'w wneud yw trafod hyn gyda'r bobl sydd wedi gwneud y penderfyniad a chyda'ch rheolwr gofal neu gydlynydd gofal. Os ydych yn dal o'r farn bod rhyddhau yn dal i fod yn amhriodol ar ôl gwneud hyn, dylech hysbysu Prif Nyrs y Ward a'ch Gweithiwr Cymdeithasol fel eu bod yn cael trefnu asesiad arall o'ch anghenion. Os bydd yr asesiad pellach hwn yn nodi byddai'ch anghenion yn cael eu cwrdd yn fwy diogel mewn lleoliad arall, bydd y staff y gweithio gyda chi i drafod a chytuno ar eich opsiynau ar gyfer gofal pellach - ni fyddwch yn gallu parhau i fod yn yr ysbyty. Byddai gwneud hyn yn eich gosod mewn risg pellach o salwch neu anaf pellach a all arwain at effeithiau tymor hir ar eich annibyniaeth.

## Sut ddylwn i ddewis cartref gofal?

Pan gytunir eich bod angen i chi symud i gartref gofal, byddwch yn cael y cyfle i wneud dewis o fysg sawl cartref gofal, bydd rhai â lle ar gael ar unwaith ac eraill yn disgwyl bod â lle o fewn yr ychydig wythnosau nesaf. Nid yw bob amser yn bosibl cynnig ystod eang o gartrefi am amrywiol resymau - er enghraifft, os ydych yn byw mewn ardal wledig lle nad oes llawer o gartrefi, neu efallai bydd y tîm sy'n gofalu amdanoch wedi dod i'r casgliad eich bod angen lefel gofal sydd ond ar gael mewn nifer cyfyngedig o gartrefi gofal. Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis, bydd staff y gwasanaethau cymdeithasol yn ceisio cael lle i chi yn un o'r cartrefi gofal rydych wedi'u dewis. Fel arfer, bydd lle wedi'i ddarganfod yn un o'r cartrefi hyn o fewn pythefnos o benderfynu eich rhyddhau o'r ysbyty. Efallai bydd hi'n briodol i chi gael ymweliad treial i sicrhau bod y cartref gofal yn gallu cwrdd â'ch anghenion. Os hoffech i hyn gael ei ystyried, dywedwch wrth eich gweithiwr cymdeithasol sy'n rheoli eich gofal.

## Pa mor hir ddylai symyd i gartref gofal gymryd?

Pan fydd cytuneb nad oes angen gofal claf-mewnol arnoch, bydd y broses i'ch rhyddhau o'r ysbyty yn dechrau cyn gynted â phosibl. Byddwch yn cael gwybod beth fydd y dyddiad rhyddhau tebygol a sut mae'r broses ryddhau yn symud ymlaen gan y sawl sy'n cydlynnu eich gofal. Mae sicrhau bod rhyddhau cyn gynted â'i fod yn briodol yn helpu i arbed eich annibyniaeth ac i sicrhau nad ydych yn cael eich amlygu i unrhyw risg a all ddigwydd yn sgil arhosiad amhriodol o hir.

## Beth os bydd y cartrefi gofal rydw i wedu'u dewis yn llawn?

Os na fydd lle yn debygol o fod ar gael yn eich dewis o gartref(i) gofal o fewn pythefnos i chi gael gwybod eich bod yn barod i'ch rhyddhau, bydd yr Awdurdod Lleol yn edrych ar argaeledd lleoedd mewn cartrefi gofal eraill fforddiadwy. Os doir o hyd i leoliad arall, bydd yn eich helpu i symud yno fel cartref gofal dewis dros dro. Bydd hyn fel arfer yn digwydd o fewn tair wythnos i chi gael gwybod eich bod yn barod i'ch rhyddhau. Byddwch yn parhau ar restrau aros y cartrefi gofal a ddewiswyd gennych yn wreiddiol, os mai hyn yr ydych eisiau. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn rheoli rhestrau aros cartrefi gofal nad yw'n eu rhedeg yn uniongyrchol, ond bydd staff yn gwneud eu gorau i'ch hysbysu o'r sefyllfa leol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud yn siwr na fydd angen i chi symud dros dro fwy nag unwaith os yw'ch cartref(i) gofal o'ch dewis yn llawn. Er nad y lleoliad dros dro efallai yw eich dewis cyntaf, mae'n bwysig bod eich anghenion yn cael eu cwrdd yn y lleoliad mwyaf priodol cyn gynted â phosibl.

Nid yw aros yn yr ysbyty am le gwag yn briodol, gall arwain at risgiau i'ch annibyniaeth a'ch lles.

### Beth os ydw i am aros yn y cartref gofal dros dro?

Os ydych wedi'ch lleoli mewn cartref gofal dewis dros dro ac os byddwch yn penderfynu y byddai'n well gennych aros yno, bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio sicrhau bod hyn yn bosibl. Mae'n bosibl na fydd modd gwneud hyn dan rai amgylchiadau.

### Beth os yw'r cartref gofal ymhell i ffwrdd oddi wrth fy nheulu a ffrindiau?

Os byddwch yn symud i lleoliad dros dros sydd gryn bellter i ffwrdd o'ch cartref o ddewis, gall eich teulu, cyfeillion a gofalwyr wynebu costau teithio ychwanegol arwyddocaol i'ch cyrraedd. Gall cytundebau lleol rhwng partneriaeth Awdurdodau Lleol a'r GIG mewn rhai achosion ddarparu cymorth ariannol. Dylai hyn gael ei esbonio yn eu taflen leol.

### Lle ddylwn i fynd i dderbyn cymorth neu gyngor?

Bydd staff iechyd a chymdeithasol yn gallu cynnig cymorth a chyngor i chi yn ystod y broses hon, yn ogystal â'ch cyfeirio at ffynonellau cymorth lleol eraill, megis taflenni gwybodaeth a chyngor a gynhyrchir gan amrywiol elusennau a'r broses i dderbyn eiriolaeth annibynnol. Bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gallu darparu gwybodaeth am gartrefi gofal yn eich ardal.

## A fydd raid i mi dalu am fy ngofal?

Mae'n bosibl bydd raid i chi dalu am eich gofal yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn ddibynnol ar eich amgylchiadau ariannol. Bydd eich awdurdod lleol yn gallu helpu a'ch cynghori ynghylch eich sefyllfa benodol, yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol.

Os ydych yn ariannu eich costau gofal eich hunan, byddwch yn cael cynnig yr un cyngor, arweiniad a chymorth am ddewisiadau cartrefi gofal â rhywun sy'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol. Os byddwch yn dewis peidio derbyn y cyngor, arweiniad a'r cymorth hwn gan yr Awdurdod Lleol, disgwylir i chi wneud eich trefniadau eich hunan ar gyfer gofal ôl ysbyty. Dan yr amgylchiadau hyn, disgwylir i'r GIG sicrhau eich bod yn cael eich rhyddhau o'r ysbyty o fewn pythefnos fel nad yw'n effeithio ar driniaeth pobl eraill.

Os yw'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am gyllido eich gofal, ond rydych yn dewis preswylio mewn cartref sy'n codi ffioedd uwch na fyddai'r awdurdod lleol yn ei dalu er mwyn cwrdd â'ch anghenion, mae'n bosibl y gofynnir i chi neu'ch perthnasau i roi cyfranniad at y ffi cyfan. Gelwir hyn yn drefniant 'cynhaliaeth' Unwaith eto, bydd eich awdurdod lleol yn gallu'ch cynghori a yw hyn yn berthnasol ar gyfer eich amgylchiadau chi.

Os cewch eich asesu i fod â hawl am Ofal Iechyd Parhaus gan y GIG, bydd y GIG yn talu'ch costau. Mae taflen wybodaeth ar wahân yn darparu mwy o fanylion am y pwnc hwn.

## Beth fydd yn digwydd os nad ydw i'n hapus gydag unrhyw agwedd o fy ngofal neu leoliad?

Mae gan y GIG a'r llywodraeth leol brosesau cwyno a fydd yn eich helpu i godi pryderon am unrhyw agwedd o'ch gofal a/neu drefniadau'ch gofal. Fel cam cyntaf, fe'ch anogir i godi'r pryderon hyn cyn gynted â phosibl gyda'r staff rydych mewn cysylltiad â nhw o fewn y GIG a/neu'r awdurdod lleol - yn aml gellir mynd i'r afael â phryder neu gwyn y ffordd hyn. Os byddwch yn dal i fod â phryderon, mae ffyrdd ffurfiol i godi hyn ac i ofyn i rywun edrych i mewn i'ch pryderon drwy Weithdrefn Gwynion y GIG neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gennych chi neu'ch cynrychiolwyr hawl i dderbyn copi o'r weithdrefn gwynion ar gais

Cyfeiriadau:

WG (2011) Supplementary Guidance to WHC 2004(066): Gweithdrefnau wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty i leoliad gofal (Saesneg yn unig) Atodiad A: Symud o ysbyty i gartref gofal - eich dewisiadau (taflen wybodaeth)

**Gwasanaethau Iaith Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
**Darpariaeth yn unol â 'Mwy Na Geiriau'**

**Adroddiad Cynnydd Terfynol – Ionawr 2017**
**Gweithred 1.7 – diweddariad ar y cynnydd ar weithredu 'Mwy Na Geiriau'**
Mae'n ofynnol i BIPBC sefydlu camau gweithredu i ddarparu'r fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau iaith Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, sef 'Mwy Na Geiriau'. Mae wedi ei ddatblygu er mwyn bodloni anghenion gofal siaradwyr Cymraeg, eu teuluoedd neu eu gofalwyr. Mae camau gweithredu i gyflwyno'r fframwaith yn ymdrin â'r sectorau gofal cynradd ac eilaidd.

Mae cynnydd yn erbyn meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt o fewn 'Mwy Na Geiriau' wedi derbyn sylw fel rhan o Gynllun Strategol Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd. Mae’r Cynllun Strategol yn sicrhau bod newidiadau yn y tirlun deddfwriaethol yn cael eu hadlewyrchu yn ein dull o gynllunio gofal o safon uchel sydd yn ieithyddol addas. Safonau Iaith Gymraeg a'r Fframwaith i 'Mwy Na Geiriau' sy'n darparu'r sylfaen i'r hyn ydym ni'n parhau i adeiladu a gwella arno.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu dull tri dimensiwn, gan osod y lefel angenrheidiol o gynllunio a darpariaeth ieithyddol:

- Mae ***Ymyrraeth Strategol*** yn sicrhau bod ein hamcanion yn rhoi sylfaen i gynllunio gweithlu drwy Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y sefydliad. Mae holl bolisïau, comisiynu a chontractio gwasanaethau yn adlewyrchu ystyriaethau'r iaith Gymraeg, gan sicrhau eglurder o ran yr ymroddiad a'r ymgysylltiad angenrheidiol. Bydd yr iaith Gymraeg wedi'i gwreiddio mewn cynllunio gweithredol a darpariaeth gwasanaeth, gan gynnig sicrwydd bod anghenion a dewisiadau ieithyddol yn dylanwadu ar gynllunio, comisiynu a chontractio gwasanaethau.
- Mae ***Newid Ymddygiad*** yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn creu amgylchedd sydd yn cefnogi ac yn annog staff i ddatblygu a defnyddio'u sgiliau ieithyddol. Bydd y dimensiwn hwn hefyd yn sicrhau cydymffurfiad mewn hunaniaeth gorfforaethol ac mae'n hanfodol wrth weithio i hyrwyddo ei wasanaethau iaith Gymraeg ac ymgysylltu gyda staff ar bob lefel.

- Mae ***Perfformiad a Monitro*** yn sicrhau cylchred cyson o lywodraethu gyda llif gwaith a chamau gweithredu yn cael eu mesur yn erbyn matrics sgorio gan alluogi adrodd clir a thystiolaeth o gydymffurfiad. Mae hefyd yn darparu llwyfan ar gyfer adnabod arfer da ar draws y sefydliad yn ogystal â sicrhau bod gwersi wedi cael eu dysgu wrth ymdrin ag unrhyw bryderon.

Mae'r lefel clir hwn o ymroddiad at gyflwyno Safonau Iaith Gymraeg yn sicrhau bod amcanion ymroddedig wedi eu gosod ar lefel sefydliadol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog di-dor i'n cleifion ac i'n staff.

Mae camau gweithredu penodol a chynnydd o fewn ein meysydd blaenoriaeth wedi eu hamlinellu yn y tabl isod.

| **Maes Blaenoriaeth** | **Statws** | **Camau gweithredu a gyflawnwyd a chamau gweithredu pellach a osodwyd er mwyn gwneud cynnydd** |
|---|---|---|
| **Asesiad Anghenion Poblogaeth** | | |
| Y sefydliad i adnabod anghenion y boblogaeth am yr iaith Gymraeg, gan ddefnyddio hyn fel sylfaen i gynllunio ei wasanaethau | **Cydsyniol** | Mae asesiad anghenion poblogaeth wedi ei gyflawni ar lefel sirol, gyda'r wybodaeth wedi'i gynnwys yn rhan o'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Bwrdd Iechyd.<br><br>Diben y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yw caniatáu cynllunio gweithlu effeithiol a recriwtio staff er mwyn sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu darparu, yn unol â dewis unigol ac anghenion y boblogaeth yn yr ardal. Y weledigaeth yw darparu gwasanaeth sydd yn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, gan sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain yn ystod y broses ofal.<br><br>Er mwyn cyflwyno hyn, mae gan y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog bedwar maes llif gwaith allweddol er mwyn sicrhau bod sgiliau iaith Gymraeg addas ar gael o fewn y gweithlu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog:<br>• Archwilio sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu cyfredol<br>• Asesiad o anghenion gwasanaeth y Gymraeg/dwyieithog |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Adnabod bylchau mewn sgiliau<br>• Cynllunio a recriwtio'r gweithlu<br>Yn ystod y flwyddyn yr adroddwyd amdani, mae cynnydd wedi ei wneud o ran archwilio sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu sydd wedi ei fanylu arno ymhellach isod. Mae'r Grŵp Gweithredu Sgiliau Dwyieithog, sydd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, hefyd wedi bod yn canolbwyntio ar adolygu'r Safonau Gweithredu Iaith Gymraeg. Mae hyn wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i brif-ffrydio anghenion y dyfodol i'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, gan sicrhau ymgorfforiad a chynhwysiad cyffredinol.<br><br>Mae'r strategaeth wedi cael ei gadarnhau gan Strategaeth y Bwrdd Iaith, Pwyllgor Iechyd Partneriaeth a Phoblogaeth, sydd yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Gadeirydd y Bwrdd Iechyd. |
| **Sgiliau Iaith Gymraeg** | | |
| Y sefydliad i adnabod lefelau sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu. | **Parhaus** | Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gynyddu nifer y staff sydd wedi cwblhau eu data Sgiliau Iaith Gymraeg ar y system Cofnod Staff Electronig (ESR). Mae meysydd sydd â diffyg cydymffurfiad wedi'u hamlygu, gyda Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn ymdrin â'r gwasanaethau a'r meysydd hyn yn uniongyrchol er mwyn sicrhau cydymffurfiad. Mae'r adroddiadau cydymffurfiad diweddaraf wedi dangos cyfradd cydymffurfiad o 69%. Fodd bynnag, mae rhai meysydd erbyn hyn wedi cyrraedd y meincnod o 100%, ac mae gwaith dal ar y gweill i sicrhau cwblhad ar draws y Bwrdd Iechyd.<br><br>Er mwyn sicrhau bod hyn yn derbyn ymdriniaeth ar lefel lleol, mae negeseuon e-bost unigol, sydd yn cynnwys rhestr o staff nad ydynt yn cydymffurfio (staff heb lefelau o sgiliau Iaith Gymraeg wedi eu cofnodi yn eu cofnodion ESR), wedi cael eu gyrru at reolwyr llinell yn gofyn iddyn nhw ddiweddaru'r ESR gyda lefelau sgiliau Iaith Gymraeg unigol y gweithiwr. Cafodd y rheolwyr dri dewis ar gyfer diweddaru cofnodion ESR gweithiwr: |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Gweithiwr neu reolwr i ddiweddaru'r ESR gan ddefnyddio Hunanwasanaeth yr ESR<br>• Rheolwr i gyflwyno ffurflen Iaith Gymraeg ar gyfer diweddariad yn ei grynswth<br>• Gweithiwr i gwblhau a chyflwyno holiadur sgiliau Iaith Gymraeg unigol<br><br>Rhagwelir y bydd cynnydd sylweddol yn y gwaith hwn dros y misoedd nesaf gyda tharged cydymffurfiad llwyr o 100% wedi'i osod.<br><br>Mae disgwyl i rheolwyr gwasanaeth i adolygu data cwblhau o fewn eu maes cyfrifoldeb i ymdrin yn uniongyrchol ag unrhyw beth heb ei gwblhau.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu Tiwtor Iaith Gymraeg llawn amser a fydd yn darparu hyfforddiant i staff ar draws y sefydliad. Bydd data sgiliau ieithyddol sydd wedi ei gasglu fel rhan o'r prosiect glanhau data yn cael ei ddefnyddio i adnabod meysydd sydd yn gofyn am ddarpariaeth. |
| Defnyddio data i adnabod swyddi ble mae Cymraeg yn Hanfodol a Chymraeg yn Ddymunol. | | Mae adnabod swyddi fel Cymraeg yn Hanfodol a Chymraeg yn Ddymunol yn elfen allweddol o fewn Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Bwrdd Iechyd. Hyd yma, mae Tîm Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol wedi ychwanegu asesiad gofynion sgiliau iaith Gymraeg i ffurflen gais safle'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn o gymorth i reolwyr benderfynu a ddylai swyddi gael eu hysbysebu fel Cymraeg yn Hanfodol neu Gymraeg yn Ddymunol. Mae'r arf hwn yn sicrhau bod rheolwyr sy'n recriwtio yn dilyn fformiwlâu gosodedig, yn edrych ar ofynion ieithyddol y boblogaeth, cymysgedd sgiliau cyfredol a'r bwlch mewn sgiliau o fewn y tîm. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaethau i sicrhau bod unigolion sydd â'r lefel gofynnol yng ngallu'r iaith Gymraeg yn cael eu recriwtio er mwyn sicrhau bod gwasanaeth dwyieithog cynhwysfawr ar gael.<br><br>I ganiatáu ar gyfer darpariaeth ddigonol mewn hyfforddiant i wella sgiliau'r gweithlu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan o'i Bolisi Absenoldeb Astudio i sicrhau ei fod yn elfen allweddol o ddatblygiad |

| | | |
|---|---|---|
| | | personol. Bydd hyn yn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gynnig i staff clinigol a gweinyddol er mwyn cefnogi gweithrediad Safonau Cyflwyno'r Gwasanaeth - yr Iaith Gymraeg.<br><br>Unwaith bydd y Tiwtor yn ei swydd, bydd darpariaeth yn cael ei chynnig yn ddechreuol i staff rheng flaen i wella sgiliau yn y gweithlu yn unol â hynny h.y. gwasanaethau rheng flaen |
| **Gwasanaethau wedi'u Comisiynu a'u Contractio** | | |
| Y sefydliad i sicrhau bod ystyriaethau'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yng ngwasanaethau comisiynu a chontractio | **Parhaus** | Mae gwaith wedi cael ei gynnal gyda'r Adran Contractwyr o fewn y Bwrdd Iechyd i ddatblygu prosesau i gryfhau ac egluro gofynion yr iaith Gymraeg mewn cytundebau amodol. Tra bod mwyafrif y gofal yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd, mae gofal hefyd yn cael ei gomisiynu gan ystod eang o ddarparwyr GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol. Mae'n hanfodol bod gofynion yr iaith Gymraeg yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn ystod y broses gomisiynu. Fel comisiynydd gofal, mae cyfrifoldeb i sicrhau bod darparwyr allanol wedi'u contractio'n ffurfiol i ddarparu gofal yn unol â disgwyliadau'r Bwrdd Iechyd, gyda chyfeiriad penodol at anghenion yr iaith Gymraeg.<br><br>Er mwyn sicrhau cryfder rheolaeth perfformiad amodol, mae Grŵp Adolygu Contractau a Llywodraethu wedi cael ei sefydlu er mwyn goruchwylio proses Maes Cefnogi, Gofal Eilaidd, timau Plant ac Iechyd Meddwl (y comisiynwyr), Cyllid, adrannau Cynllunio a Pherfformiad er mwyn ymgymryd â dull amlddisgyblaethol i gefnogi trefniadau rheolaeth contract cyffredinol. Mae'r Tîm Iaith Gymraeg yn gweithio fel rhan o'r dull amlddisgyblaethol o reoli perfformiad, gan weithio ar y cyd â thimau Cyllid, Ansawdd a Pherfformiad.<br><br>Mae mesurau deilliannau'r iaith Gymraeg wedi'u hadnabod ynghyd â rheolyddion manylu a monitro er mwyn sicrhau dull integredig o ddarparu gofal dwyieithog. Mae rhestr wirio gadarn hefyd wedi cael ei datblygu er mwyn sicrhau ymlyniad at bob agwedd ar broblemau perfformiad a gofynion Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | gofyn i Gontractwyr sicrhau darpariaeth gohebiaeth ddwyieithog, cyfathrebiadau ffôn, arwyddion, cynhyrchu gwybodaeth ddwyieithog, cyhoeddusrwydd a gweithgareddau yn ogystal â gofynion staffio cyn i gytundebau gael eu rhoi, h.y. mewn 'Cytundeb cyn-leoliad'. Yn ystod cyfnod y contract, bydd rheoliadau monitro yn cael eu sefydlu a'u gweithredu drwy gyfarfodydd adolygu contract chwarterol, gwiriadau ymweld ar hap yn ogystal ag adborth cleifion. |
| **Mae darpariaeth 'Cynnig Rhagweithiol' yn sichrau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch yn y gwasanaethau dementia** | | |
| Cofnodi dewis iaith y claf er mwyn hwyluso darpariaeth y 'Cynnig Rhagweithiol' | **Parhaus** | Mae menter wedi cael ei datblygu ar Ward Glaslyn yn Ysbyty Gwynedd i gynnwys y magnetau gyda'r arwydd 'Siarad Cymraeg' ar fyrddau gwyn cleifion ar y ward fel bod staff yn gallu adnabod cleifion sydd yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn galluogi'r ward i gynllunio ei gweithlu fel bod staff sydd yn siarad Cymraeg yn cael eu pario gyda chleifion sydd yn siarad Cymraeg. Mae'r system 'ymuno' hefyd wedi sicrhau bod magnetau 'Siarad Cymraeg' mawr yn cael eu harddangos uwchben welyau cleifion. Mae hyn hefyd wedi sicrhau cynllunio ehangach, gan alluogi ffisiotherapyddion, fferyllwyr a'r gweithlu clinigol ehangach i gynllunio eu gofal wrth fynd i'r ward. Yn dilyn llwyddiant y peilot hwn, ehangwyd y cynllun i gleifion strôc ar Ward Prysor, a bydd yn parhau ymhellach.<br><br>I gefnogi ac adlewyrchu'r datblygiad hwn, mae egwyddorion y 'Cynnig Rhagweithiol' wedi cael eu cynnwys yn y ddogfennaeth graidd o fewn y ffurflenni asesu nyrsio. Mae'r maes hwn wedi cael ei roi ar dudalen gyntaf y ddogfennaeth, ac mae'n cynnwys cyfeiriad at sicrhau bod iaith gyntaf y claf yn cael ei hadnabod, a bod y symbolau magnetig 'Siarad Cymraeg' wedi cael eu harddangos ar fyrddau ward.<br><br>Mae system gyfeirio newydd yn cael ei datblygu o fewn y Gwasanaeth Paediatreg Cymunedol ar gyfer plant sydd ag awtistiaeth neu ADHD posib. Mae'r ffurflen |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfeirio gychwynnol yn gofyn y cwestiwn am 'iaith y cartref' a fydd o gymorth i'r clinigwr ddeall hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol y teulu gan fod hyn yn anhepgor ar gyfer cynllunio gofal y plentyn. Bydd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei throsglwyddo i'r clinigwr perthnasol ac, fel rhan o apwyntiad sgrinio'r Paediatregydd Cymunedol, bydd y teulu'n cael eu holi am iaith ddethol y plentyn ar gyfer holl asesiadau'r dyfodol. Os nad oes unrhyw aseswr iaith Gymraeg ar gael, bydd y Tîm yn sicrhau bod cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gyfer teuluoedd sydd wedi ymateb gan ddweud yr hoffent wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr wybodaeth a ddarperir hefyd yn cael ei chynnwys yn y llwybr gofal weinyddu er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei chofnodi yn electroneg ac o fewn ffeiliau unigol. |



Datblygiad pwysig yn ystod y chwe mis diwethaf oedd sefydlu Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru, a fu gwrdd am y tro cyntaf fis Mai 2016. BIPBC oedd yn bennaf gyfrifol am ffurfio'r Fforwm newydd, sydd yn dod â chynrychiolwyr ynghyd o awdurdodau lleol (gan gynnwys Cyngor Gwynedd), nifer o sefydliadau perthnasol sydd yn darparu naill ai wasanaethau gofal iechyd neu ofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Mae'n llwyfan i rannu gwybodaeth ac yn arfer da ar gyfer hyrwyddo gwaith ar y cyd er mwyn cyflawni rhai gweithrediadau penodol sydd wedi eu cynnwys yn 'Mwy Na Geiriau'.

**Camau Nesaf**

Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn credu bod sgôp pellach i weithio gyda Chyngor Gwynedd ar ddatblygu elfennau penodol o fewn y fframwaith ac yn croesawu trafodaethau pellach i adnabod ffyrdd o weithio ar y cyd.

Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2017/2018, mae Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Iaith Gymraeg penodol wedi ei ddatblygu, ac mae gweithredu 'Mwy Na Geiriau' yn un o'i brif amcanion. Mae dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer bob chwarter wedi cael eu hamlinellu gyda  chyfyngiadau amser gweithredu.

**Eleri Hughes-Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Iaith Gymraeg**
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 26 Ionawr 2017 |
| **Teitl yr Adroddiad** | Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg – adroddiad cynnydd |
| **Aelod Cabinet :** | Y Cyng. Gareth Thomas |
| **Swyddog Perthnasol:** | Arwyn Thomas |

**CEFNDIR**

Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn asesu:

- sut y gweithredir Polisi Iaith yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol,

- y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.

Ar ddiwedd yr Ymchwiliad, lluniwyd argymhellion ar gyfer gwella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn y dalgylchoedd yn awr ac i'r dyfodol.

Mae'r papur ynghlwm (Atodiad 1) yn Tracio Cynnydd ar gyflawniad yr argymhellion hynny.

Atodiad 1

**Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg**

**Cyflwynwyd yr Argymhellion Medi 2015**

**Adroddiad Cynnydd Terfynol Ionawr 2017**

| Argymhellion mesuradwy | Maes | Cyfrifoldeb | Y Mesur posib / Allbwn | Asesiad Aelod Cabinet | Sylwadau'r Aelod Cabinet |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, dylai'r Cyngor ddiffinio yr hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithog gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg y staff. | Polisi | Adran Addysg | Polisi Iaith ddiwygiedig yn ei le. | | Mae Swyddogion Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd wedi bod yn gweithio ar y cyd ag Ymgynghorydd Allanol i gyflawni Astudiaeth yn dilyn derbyn argymhellion 'Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg'.<br><br>Roedd yr astudiaeth yn ymwneud â'r ail argymhelliad yn bennaf ond bod y dasg o ddiffinio natur ieithyddol ysgolion uwchradd y sir yn ymgorffori hefyd elfen o'r argymhelliad cyntaf, sef beth yn union a olygir wrth addysgu a dysgu dwyieithog lle bo hynny ar waith.<br><br>Roedd yn golygu archwilio dogfennaeth berthnasol gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru, cyfweld â staff yn yr ysgolion a rhoi sylw i unrhyw ddata a gwybodaeth gysylltiedig. |

Tud. 96

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Bydd cyfle i drafod argymhellion a chasgliadau'r Adroddiad yn ystod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau - gweler adroddiad Alun Charles, Ymgynghorydd Allanol. |
| **2.** Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei fod yn glir i'r holl randdeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad. | Polisi | Adran Addysg (Penaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd) | A) Adran Addysg wedi sicrhau diffiniad ieithyddol safonol ar gyfer pob ysgol uwchradd a'i wneud yn eglur i'r holl randdeiliaid.<br><br>B) Llywodraethwyr pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant i sicrhau eu dealltwriaeth o ddiffiniad ieithyddol yr ysgolion a gofynion y Polisi Iaith.<br><br>C) Adran Addysg yn gweithredu trefniadau monitro cadarn er sicrhau fod pob ysgol uwchradd yn cydymffurfio gyda'r diffiniad a Pholisi Iaith (Addysg) y sir. | | Fel yr uchod – gweler adroddiad Alun Charles, Ymgynghorydd Allanol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **3.** Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i blethu'r polisi i ddatblygu sgiliau dwyieithog hyfedr gyda gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. | Polisi (Gweithredu) | Adran Addysg | A) Gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cyd-fynd â Pholisi Iaith (Addysg). | | Mae'r ysgolion yn rhoi sylw i feithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg. Drwy'r Fframwaith llythrennedd a rhifedd, adroddir ar lwyddiant y disgyblion - ar ddeilliannau pwnc a datblygiad yn eu sgiliau ar draws y pynciau. |
| **4.** Dylid sicrhau fod canlyniadau arholiadau Saesneg yr un mor dda â'r Gymraeg, gan mai hyn yn ei dro fydd yn sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith. | Polisi (Gweithredu) | | A) Y Llywodraethwyr a'r Cyngor yn monitro canlyniadau arholiadau'n fanwl ac yn rheolaidd. | | Mae canlyniadau a data perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd.<br><br>Cyflwynir adroddiadau cychwynnol i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn yr Hydref gan gyflwyno gwybodaeth gynnar i aelodau etholedig ar berfformiad diwedd y cyfnodau allweddol.<br><br>Yn yr adroddiad, rhoddir ystyriaeth i'r cwestiynau a ganlyn:<br>• Sut mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu gyda pherfformiad y flwyddyn flaenorol?<br>• Sut mae perfformiad yr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Awdurdod yn cymharu gyda'r targedau a bennwyd ar gyfer y flwyddyn ddilynol?<br>• A yw perfformiad yn y pynciau craidd yn debyg?<br>• Ym mha gyfnod allweddol mae'r perfformiad ar ei orau? Ym mha agweddau y mae angen gwelliannau?<br>• A oes ysgolion sydd i'w gweld yn tanberfformio?<br><br>Amlinellir y prif negeseuon a'r prif benawdau a bydd y rhain yn cael eu bwydo i'r fanyleb rhwng GwE a'r Awdurdod. Bydd adroddiad blynyddol yr Adran Addysg yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu mis Mawrth ble bydd cyfle pellach i graffu ar berfformiad.<br><br>Yn ogystal, mae'r Aelod Cabinet dros Addysg yn adrodd yn rheolaidd i'r Cabinet ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes addysg gan gynnwys y mesurau perfformiad.<br><br>Mae trefn newydd wedi'i sefydlu ar gyfer monitro perfformiad ac ansawdd ar bob lefel yn ysgolion Gwynedd drwy'r Bwrdd Ansawdd Sirol (BAS). Mae'r BAS yn caniatáu i'r Awdurdod a GwE gael darlun cyflawn o berfformiad |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ac ansawdd yr ysgolion, er mwyn targedu'r ysgolion sydd yn tanberfformio.<br><br>Mae Cyrff Llywodraethu yn derbyn adroddiadau ar ddata perfformiad yr ysgolion gan graffu ar y deilliannau. |
| **5.** Er mwyn cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion yn unol â'r Polisi Iaith, dylai Ysgol Friars, gyda chefnogaeth y Cyngor, adnabod cyfleoedd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol. | Polisi (Gweithredu) | Ysgol Friars / Adran Addysg | A) Y Cyngor yn cefnogi Ysgol Friars yn rheolaidd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.<br><br>B) Y Cyngor wedi sicrhau dealltwriaeth y Llywodraethwyr ac wedi sefydlu trefn fonitro gadarn.<br><br>C) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi rhaglennu eu gwaith i fonitro'r sefyllfa yn rheolaidd. | | Mae'r Cyngor yn cefnogi'r Ysgol i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolaeth o athrawon a'r uwch dîm rheoli Ysgol Friars yn Hydref 2016. Bwriad y cyfarfod oedd rhaeadru gwybodaeth ynglŷn â gofynion/egwyddorion y Siarter Iaith. Eglurwyd y strategaethau a'r gweithgareddau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddata'r gwe iaith yn y cynradd. Ar ddiwedd y cyfarfod daethpwyd i gytundeb ar gamau gweithredu penodol.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod pellach gyda Rheolwr a Swyddog Datblygu Menter Iaith Bangor yn Rhagfyr 2016 a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | chytunwyd ar gynllun gweithredu o ran cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn yr Ysgol<br><br>Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI) - Yn ystod 2016-17 mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu hyd at £1000 i bob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg / dwyieithog ar draws y gogledd er mwyn gweithredu elfennau o'r PCAI. Mae disgwyl i'r ysgolion ddefnyddio'r cyllid i wneud un neu gyfuniad o'r canlynol:<br>• gweithgareddau yn cael eu datblygu a'u harwain gan ddisgyblion hŷn yr ysgol er mwyn ceisio newid arferion iaith cymdeithasol oedrannau iau.<br>• gwaith dwys mewn rhai o'r ysgolion i ddylanwadu ar ddefnydd iaith, yn cynnwys llunio cynlluniau ysgol gyfan i fynd i'r afael a'r maes dylanwadu ar ddefnydd iaith.<br>• sesiynau seicoleg iaith er mwyn cynnig hyfforddiant ac arweiniad i gynrychiolwyr o'r ysgolion allu cynnal sesiynau gyda disgyblion.<br><br>Mae trafodaethau cychwynnol eisoes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | wedi eu cynnal gyda'r ysgol a bydd disgwyl i bob Ysgol Uwchradd yng Ngwynedd ddarparu adroddiad i'r Adran Addysg ar sut maent wedi gweithredu elfennau o'r Prosiect erbyn diwedd Mawrth 2017 .<br><br>Yn ogystal, mae adroddiad y Cyd-gysylltydd iaith yn cadarnhau fod yr ethos Gymraeg yn fwy amlwg yn Ysgol Friars eleni. Mae'r ysgol wedi sefyldu ac yn parhau i ddefnyddio strategaethau i hyrwyddo'r Gymraeg megis:<br>• Eisteddfod Ysgol Friars yn parhau i fynd o nerth i nerth;<br>• Parhau gyda gwaith y grŵp ffocws o'r enw Camau Bach Cymraeg, sydd yn gweithio eleni ar hyrwyddo a hybu'r iaith Gymraeg y tu allan i'r ysgol;<br>• System "Tocynnau Iaith" a rhennir y rhain ymysg y disgyblion hynny sy'n ymdrechu gyda'r iaith;<br>• Cynnal diwrnod, i hybu'r Gymraeg ymhellach, yn ystod y tymor nesaf.<br><br>Gweler hefyd argymhelliad 9.9 yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Adroddiad Alun Charles sy'n cyfeirio'n benodol at ardal Bangor. |
| **6.** Sicrhau bod Llywodraethwyr pob ysgol yng Ngwynedd yn derbyn hyfforddiant ar ofynion y Polisi Iaith. | Hyfforddiant | Adran Addysg | A) Pob Llywodraethwr wedi derbyn hyfforddiant ar ofynion y Polisi Iaith. | | Mae hyfforddiant ar ofynion y Polisi Iaith wedi cael ei raglennu ar gyfer Tymor yr Haf 2017. |
| **7.** Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor sicrhau cefnogaeth i athrawon, cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter Iaith, a derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith. | Hyfforddiant | Adran Addysg | A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter Iaith ac Ymwybyddiaeth Iaith. | | Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd/hyfforddiant dalgylchol efo cynrychiolaeth o bob ysgol yn ystod misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2016 i hyrwyddo a deall gofynion y Siarter Iaith. Trwy gyfrwng y Siarter Iaith sicrheir fod pob haen o gymuned yr ysgol h.y. disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, yn atebol/weithredol wrth hyrwyddo agwedd iach/cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Arfogwyd y gweithlu, gan drosglwyddo ffeithiau pendant am werth dwyieithrwydd ac ymwybyddiaeth Iaith<br><br>Dyddiadau isod:<br><br>Dalgylch Y Berwyn – 10/11/2016<br>Dalgylch Dyffryn – 02/12/2016 |

Atodiad 1

| | |
|---|---|
| Ogwen | |
| Dalgylch Dyffryn Nantlle | 28/11/2016 |
| Dalgylch Syr Hugh Owen | 16/11/2016 |
| Dalgylch Botwnnog | 14/11/2016 |
| Dalgylch Y Gader | 07/11/2016 |
| Dalgylch Eifionydd | 11/11/2016 |
| Dalgylch Y Moelwyn | 11/11/2016 |
| Dalgylch Tywyn | 08/11/2016 |
| Dalgylch Ardudwy | 07/11/2016 |
| DalgylchTryfan/Friars | 02/11/2016 |
| Dalgylch Glan y Môr | 08/11/2016 |
| Dalgylch Brynrefail | 14/11/2016 |

Gwnaed hyn dan arweiniad y cyd gysylltwyr iaith yn ddalgylchol a chydlynydd y Siarter Iaith. Rhoddwyd arweiniad a gosodwyd disgwyliadau clir

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | i benaethiaid/gweithlu ysgolion yn eu dalgylchoedd ynglŷn â'r ffyrdd i gynnal gofynion gwobr aur Y Siarter. Rhannwyd dogfen arweiniol yn nodi'r holl weithgareddau sydd wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddata'r Gwe iaith â'r arferion mwyaf llwyddiannus wrth ateb y gwahanol ofynion.<br><br>Mae'r Adran Addysg mewn trafodaethau gyda thiwtor Iaith, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor o ran y posibilrwydd o gynnal cwrs Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg i gymorthyddion ysgolion Gwynedd rhwng Ebrill - Gorffennaf 2018. Bydd cynrychiolydd o'r Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd busnes rhanbarthol y penaethiaid cynradd yn y misoedd nesaf er mwyn rhaeadru gwybodaeth ynglŷn â'r cwrs. |
| **8.** Er cysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor ar draws y sir mae angen sicrhau bod holl ysgolion Gwynedd yn cydymffurfio â'r Polisi gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn | Monitro ac atebolrwydd | Adran Addysg | A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn monitro reolaidd.<br><br>B) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi craffu data perthnasol yn | | Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) i Lywodraeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| atebol am ei weithrediad. | | | rheolaidd i sicrhau gweithrediad y Polisi Iaith (Addysg). | | Cymru.<br><br>Mae'r Cynlluniau hyn yn amlinellu sut bydd awdurdodau lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Dehonglir y Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a thrwy hynny wireddu'r deilliannau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y prif elfennau yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw priodol yn y Cynllun Strategol.<br><br>Bydd unrhyw ddiffyg gweithredu mewn perthynas â'r Gymraeg a sicrhau dilyniant o un cyfnod allweddol i'r nesaf yn ddarostyngedig i'r trefniadau rhwng yr Awdurdod a'r ysgolion a'r cylchoedd meithrin. Yn y cyd-destun hwn dygir sylw'r aelodau etholedig lleol ynghyd â Chadeirydd y Llywodraethwyr at unrhyw faterion o bryder sydd yn berthnasol i ddiffyg gweithredu ar gynnwys y Polisi Iaith neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.<br><br>Mae'r Adran yn y broses o sefydlu Swyddfeydd Ardal ar gyfer ysgolion yng ngogledd-ddwyrain, gogledd- |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | orllewin a de'r sir o dan arweiniad 'Swyddog Addysg Ardal' penodol ac mi fydd 'Swyddogion Busnes a Gwasanaethau' yn cydlynu'r gwasanaethau cefnogol ac yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol.<br><br>Bydd gan y Swyddfeydd Ardal rôl benodol o ran sicrhau bod holl ysgolion Gwynedd yn cydymffurfio â'r Polisi gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad. |
| **9.** Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i sefydlu'r arfer bod pob athro pwnc yn y cyfnod cynradd ac uwchradd yn monitro ac yn adrodd ar ddatblygiad sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl mewn adroddiadau cynnydd ac yn trafod eu datblygiad gyda'r disgybl a'u rhieni | Monitro ac atebolrwydd | Ysgolion Cynradd / Uwchradd | A) Trefn fonitro yn ei lle ar gyfer pob athro pwnc i baratoi adroddiadau cynnydd (cynradd ac uwchradd) ar ddatblygu sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl.<br><br>B) Wedi trafod yr adroddiadau cynnydd gyda'r disgybl a'r rhieni. | | Gweler argymhelliad 3. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ar achlysur nosweithiau rhieni. | | | | | |
| **10.** Sicrhau dilyniant ieithyddol cadarn rhwng CA2, CA3, CA4 a CA5 gan weithredu dulliau monitro cyson a phriodol, fyddai hefyd yn tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm.<br><br>(Argymhelliad Adroddiad ESTYN Tachwedd 2014: "olrhain fesul ysgol y cyfrannau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg". | Monitro ac atebolrwydd | Adran Addysg / Ysgolion Cynradd / Uwchradd | A) Y Cyngor wedi sicrhau bod trefn gadarn yn ei lle ar gyfer monitro dilyniant ieithyddol a hefyd tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm gan adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau. | | Mae sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu, ar draws y cyfnodau allweddol, yn darged sydd wedi ei nodi yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.<br><br>Rhoddir pwyslais yn y Polisi Iaith ar sicrhau dilyniant ieithyddol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall. Mae swydd y Cyd-gysylltydd Iaith Dalgylchol yn greiddiol i hyn. Mae'r Cyd-gysylltwyr Iaith yn cael eu rhyddhau am 10 diwrnod y flwyddyn i gefnogi ysgolion y dalgylch i weithredu'r Polisi Iaith. Drwy hyn mae trefn gadarn yn ei le o ran cydlynu a monitro dilyniant ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd yn y dalgylchoedd.<br><br>Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i weithio gydag adrannau Cymraeg yr ysgolion drwy fforwm y Cydlynwyr Iaith Uwchradd yn ogystal â Grŵp Strategol y Penaethiaid gan roi sylw i'r maes yma. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Yn ogystal, gweler adroddiad Alun Charles, Ymgynghorydd Allanol. |
| **11.** Dylid sicrhau eglurder a chysondeb yn nulliau addysgu dwyieithog yn yr ysgolion gan feithrin sgiliau trawsieithu ymysg staff, gan ddiffinio'n eglur yr hyn ydyw dysgu dwyieithog gan fanylu ar:<br>i.) faint o'r Gymraeg a'r Saesneg y dylid ei ddefnyddio i addysgu<br>ii.) iaith ysgrifennu disgyblion mewn gwersi dwyieithog<br>iii.) beth yw'r disgwyliadau o safbwynt defnyddio'r Gymraeg/Saesneg mewn sgyrsiau a thrafodaethau dosbarth. | Addysgu dwyieithog | Adran Addysg | A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant addas ar gyfer Athrawon<br>- addysgu dwyieithog<br>- a meithrin sgiliau trawsieithu | | Gweler argymhelliad 7.<br><br>Gweler adroddiad Alun Charles, Ymgynghorydd Allanol. |
| **12.** Sicrhau bod:<br>i) y Siarter Iaith yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd<br>ii) arfer dda ar weithredu'r Siarter Iaith a chefnogi ac annog | Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc | Cyngor Gwynedd (Adran Addysg / Hunaniaith) | A) Y Cyngor yn monitro'n rheolaidd gweithrediad y Siarter Iaith yn ysgolion cynradd y sir, ac yn rhoi cefnogaeth i'r | | Mae hyfforddiant trylwyr wedi'i roi i'r Cyd-gysylltwyr Iaith Cynradd fel eu bod yn unigolion cymwys i gynnig arweiniad a chefnogaeth i'r ysgolion yn eu dalgylchoedd. O dan eu gofal, mae'r gwaith o fonitro'r Siarter yn cael ei |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn modd adeiladol yn cael ei rannu rhwng ysgolion<br>iii) gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r we trwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi un o amcanion y Siarter Iaith. Dylai ysgolion wneud defnydd mwy helaeth o'r gwefannau, deunyddiau ac adnoddau ar-lein Cymraeg. Dylid cefnogi'r ysgolion i gyflawni hyn, lle bo'n briodol. | | | ysgolion.<br><br>B) Y Cyngor a'r ysgolion yn creu cyfleoedd.<br><br>C) Y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i'r ysgolion i alluogi disgyblion i wneud mwy o ddefnydd o'r gwefannau ac adnoddau ar-lein Cymraeg. | | weithredu.<br><br>Mae elfen gryf o hyfforddi yn dod yn sgil yr ymweliadau achredu a chyfle euraid i rannu gwybodaeth ac arferion da rhwng ysgolion a'i gilydd. Cwblheir adroddiad ar gyrhaeddiad a datblygiad pob ysgol yn erbyn gofynion y gwobrau arian ac aur yn flynyddol.<br><br>Llwyddodd 69 o'r ysgolion yng Ngwynedd i ateb gofynion y Safon Aur y flwyddyn diwethaf.<br><br>Trwy gynnal cyfres o gyfarfodydd efo bob pennaeth yn eu dalgylchoedd, rhannwyd negeseuon a rhoddwyd arweiniad a chanllawiau clir i bob ysgol ar y meini prawf sydd angen eu hateb er mwyn cynnal y gofynion a safonau'r wobr aur. Mae pob ysgol yn sicrhau bod data'r Gwe iaith yn gyfredol.<br><br>Mae 11 ysgol ar draws y tri rhanbarth o Wynedd wedi'u hadnabod fel sefydliadau sy'n gweithredu arferion da wrth ateb gofynion y Siarter Iaith. Mae'r ysgolion sydd wedi'u hadnabod yn cynrychioli trawsdoriad cyferbyniol o ran cefndir ieithyddol/diwylliannol, eu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | disgyblion a'r strategaethau'n amrywio wrth i'r ysgolion wireddu eu gweledigaeth a'u rhaglenni gweithredu.<br><br>Mae strategaethau amrywiol sy'n cael eu gweithredu a'r dogfennau/adnoddau sy'n cael eu defnyddio er mwyn cyflawni'r nodau gwahanol yn yr ysgolion yma'n cael eu rhannu trwy gyfrwng 'templed byw'. Mae gan bob ysgol yng Ngwynedd fynediad i'r dogfennau 'arferion da' a'r strategaethau sydd wedi dwyn effaith gadarnhaol ar ddata'r Gwe iaith.<br><br>Yn dilyn casglu tystiolaeth o weithrediad y Siarter iaith yn ysgolion Gwynedd, mae'r wybodaeth ac enghreifftiau o'r arferion da yn yr adroddiadau wedi'u coladu i lunio 'dogfen arweiniol'. Trwy gyfrwng y ddogfen yma, mae cyfeiriad clir wedi'i osod ar gyfer ysgolion ar y strategaethau a'r gweithgareddau sydd wedi bod yn effeithiol wrth gynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Rhannwyd a thrafodwyd y ddogfen yma efo pob ysgol yn ystod cyfarfodydd yn ystod misoedd Hydref, |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Tachwedd a Rhagfyr 2016.<br><br>Mae cynyddu defnydd o'r dechnoleg trwy gyfrwng Y Gymraeg yn gwestiwn yn y Gwe iaith. Mae'r ysgolion yn llwyr ymwybodol o'r gofyn ac mae nifer o weithdrefnau mewn lle i sicrhau bod y cynnydd yna'n digwydd (gwelir hyn yn nhargedau cynllun gweithredu nifer helaeth o ysgolion.) Mae cyfeiriad at wefannau defnyddiol o dan adran 'Siarter Iaith' ar wefannau sawl ysgol bellach hefyd. Sicrheir bod atebolrwydd i'r ogwydd yma trwy graffu ar ail ddarlleniad data'r Gwe iaith, ar dargedau rhaglenni gweithredu ysgolion a thrwy'r ymweliadau dilysu blynyddol.<br><br>Trwy gyfrwng gwefan newydd y Siarter Iaith bydd banc canolog o wybodaeth berthnasol fydd yn fodd o rannu gwybodaeth ynglŷn â gwefannau perthnasol ar gyfer pobol ifanc a rhieni ynghyd ag apiau Cymraeg poblogaidd. |
| **13.** Mae rhai o ddarganfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu yn | Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg | Cyngor Gwynedd (Adran | A) Y Cyngor wedi sefydlu cynllun gweithredu i ymateb | | Un o'r prosiectau sydd yng Nghynllun Strategol y Cyngor yw 'Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol'. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ymddangos yn adroddiad Trywydd ac argymhellir bod y Cyngor a'r Ysgolion yn gweithredu ar yr argymhellion yn yr adroddiad. | gan blant a phobl ifanc | Addysg / Hamdden / Gwasanaeth Ieuenctid / Hunaniaith) | i argymhellion adroddiad Trywydd. | | Pwrpas y prosiect yw sicrhau dilyniant cadarn i'r prosiect Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd.<br><br>Y targed erbyn diwedd Mawrth 2017 yw bydd strategaeth wedi ei llunio a'i chymeradwyo, fydd yn gosod cynllun clir ar gyfer ehangu defnydd o'r Gwe iaith a chynllunio ymyrraeth ar sail ei ganfyddiadau.<br><br>O Ionawr 2017, bydd Arweinydd y Ganolfan Iaith Uwchradd yn cydweithio â'r Adran Addysg i lunio Strategaeth ar gyfer yr Uwchradd.<br><br>Bydd y Strategaeth Uwchradd yn ymgorffori argymhellion adroddiad Cwmni Trywydd, Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Uwchradd (PCAI), Strategaeth Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Bydd rôl a llais y bobl ifanc yn allweddol ynghyd â gwasanaethau ieuenctid a rhanddeiliad allweddol. Bydd y Strategaeth yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gosod disgwyliadau ac arweiniad clir i ysgolion uwchradd y sir am dechnegau newid arferion iaith a'r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol disgyblion y tu mewn a thu allan i'r ysgol. |
| **14.** Dylai'r ysgolion gynnwys y disgyblion mewn trafodaethau am:<br>i.) y Polisi Iaith<br>ii.) y Siarter Iaith<br>iii.) arferion iaith yr ysgol gan sicrhau eu perchnogaeth hwythau ar y polisi. Dylai pob ysgol sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg. | Cynnwys disgyblion | Ysgolion Cynradd /Uwchradd | A) Y disgyblion yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau am y Polisi Iaith, y Siarter Iaith ac arferion iaith yr ysgol.<br><br>B) Wedi sefydlu trefn i sicrhau perchnogaeth y disgyblion ar y Polisi.<br><br>C) Wedi sefydlu cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg. | | Cynhwysir y disgyblion yn y trafodaethau am y Siarter Iaith ac arferion iaith a sicrheir bod cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd gan arddel y Gymraeg.<br><br>Mae llais y plentyn yn gryf yn y broses o hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg e.e. aelodau'r Cyngor Ysgol, yn gweithredu ar syniadau i ddylanwadu ar y gymuned ehangach i ddefnyddio'r Gymraeg. |
| **15.** Er mwyn cadw myfyrwyr sydd yn ceisio am yr ail radd yng Nghymru | Grant Myfyrwyr | | A) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi lobio Llywodraeth | | Mater i'r Pwyllgor Craffu. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| dylai'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau lobio Llywodraeth Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd hefyd fel sydd yn digwydd yn Lloegr. | | | Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd. | | |
| **16.** Dylid hyrwyddo a marchnata manteision dwyieithrwydd mewn cydweithrediad gyda phob ysgol ar draws y sir, gyda'r ysgolion hefyd yn marchnata'r manteision rheiny ar eu gwefan, ymysg rhieni a disgyblion. | Manteision dwyieithrwydd | | A) Y Cyngor wedi cynnal adolygiad i adnabod cyfleoedd i farchnata manteision dwyieithrwydd.<br><br>B) Y Cyngor wedi sefydlu trefn i fonitro bod pob ysgol yn y sir yn marchnata'r manteision hynny ar eu gwefan, ac ymysg rhieni a disgyblion. | | Mewn cydweithrediad â'r ysgolion, rydym yn parhau i farchnata a sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd gan arddel y Gymraeg.<br><br>Anelir at newid agweddau / cynnal agweddau iach tuag at yr iaith a manteision dwyieithrwydd, gyda phob ysgol yn gyfrifol am gyflwyno pamffled sy'n trosglwyddo'r neges pa mor werthfawr ydy siarad Cymraeg a'r fantais sydd yna o fod yn hyfedr ddwyieithog: '**Dwy iaith…dwywaith y dewis'**.<br><br>Byddwn yn parhau i geisio ysbrydoli ein plant i wneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gwaith ac ennill arian. |
| **17.** Dylai'r Cyngor ddathlu llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir (bod canlyniadau profion yn y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd) a sicrhau bod yr holl ysgolion yn codi ymwybyddiaeth am y llwyddiannau hynny ar wefan yr ysgol. | Manteision dwyieithrwydd | | A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn i ddathlu llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir yn y dulliau diweddaraf poblogaidd.<br><br>B) Yr Ysgolion wedi gosod y llwyddiannau ar wefan yr ysgol. | | Mae'r ysgolion yn adrodd ar eu canlyniadau a'u llwyddiannau yn flynyddol. |
| **18.** Er mwyn cefnogi disgyblion o gartrefi di-gymraeg i arddel y Gymraeg, dylai ysgolion a'r Cyngor ddatblygu dulliau (megis sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith, sgyrsiau gyda darpar ddisgyblion/rhieni ayyb) i sefydlu agweddau sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg a dwyieithrwydd. Dylid sicrhau bod arferion da sy'n bodoli eisoes yn cael eu rhannu. | Manteision dwyieithrwydd | | A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen o sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith.<br><br>B) Yr Ysgolion wedi sefydlu trefn i gynnal sgyrsiau gyda darpar ddisgyblion / rhieni.<br><br>C) Y Cyngor wedi rhannu arferion da gyda'r holl ysgolion ar draws y sir. | | Mae pecyn ymwybyddiaeth/seicoleg iaith yn cael ei lunio a'i ddatblygu i sicrhau bod gweithlu ysgolion yn deall eu rôl a'u cyfranogiad yn llawn wrth weithredu gweledigaeth y Sir a Llywodraeth Cymru i annog a chefnogi pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Bydd y pecyn adnoddau ymwybyddiaeth iaith a'r hyfforddiant seicoleg iaith yn arfogi'r gweithlu ar sut i ddelio efo sefyllfaoedd ieithyddol gwahanol. Ynghyd â hyn, rhennir cyflwyniadau pwerbwynt efo staff yr ysgolion ar sut i drosglwyddo negesuon |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | grymus ar werth dwyieithrwydd. Bydd y pecyn adnoddau newydd a'r hyfforddiant yn cael ei dreialu yn ystod mis Chwefror mewn dwy ysgol uwchradd.<br><br>Mae Cymunedau Dysgu Proffesiynol Siarter Iaith wedi'u ffurfio er mwyn cyd-weithio ar brosiectau i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Gymraeg yn ddalgylchol gan rannu arferion da.<br><br>Cynhelir gweithgareddau sy'n rhoi ffocws ar godi proffil a gwerth y Gymraeg mewn ysgolion<br><br>Trwy gyfrwng y gwefan newydd y Siarter Iaith, bydd banc canolog o wybodaeth berthnasol fydd yn fodd o rannu gwybodaeth a rhannu arferion da gyda'r ysgolion a'r rhanddeiliad allweddol. |
| **19.** Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor gryfhau'r drefn o sefydlu gofynion ieithyddol swyddi mewn ysgolion | Trefniadau Penodi Staff | Adran Addysg | A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn gadarn ar gyfer penodi staff newydd. | | Wrth hysbysebu swyddi mae'r Awdurdod yn datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| wrth benodi staff newydd. | | | | | |
| **20.** Dylid sicrhau fod pob ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r Canolfannau Iaith, gan sicrhau atebolrwydd pob ysgol dros weithredu'r pecynnau ôl-ofal. | Canolfannau Iaith / Monitro ac atebolrwydd | Ysgolion Cynradd / Uwchradd | A) Y Cyngor yn monitro defnydd o'r Canolfannau Iaith a gweithrediad y pecynnau ôl-ofal yn rheolaidd. | | Mae'r Canolfannau Iaith yn parhau i ddarparu cyrsiau dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol. Mae'r Adran Addysg yn monitro'r defnydd o'r Canolfannau Iaith gan sicrhau fod yr ysgolion yn gwneud defnydd llawn ohonynt. Rhwng 2005 a Hydref 2016 mae cyfanswm o 1628 o ddisgyblion cynradd a 510 o ddisgyblion uwchradd wedi elwa o gael mynychu'r canolfannau iaith.<br><br>Datblygiad eithaf diweddar yw penodi Athrawes Ôl Ofal Canolfannau Iaith Cynradd Gwynedd sy'n gyfrifol am addysgu'r Gymraeg i grwpiau o hwyrddyfodiad gan ymwneud yn benodol â sicrhau gweithrediad y cynllun ôl-ofal i ddisgyblion sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth a dilyniant |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | priodol i ddisgyblion wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgolion ac hefyd yn sicrhau atebolrwydd pob ysgol dros weithredu'r pecynnau ol-ofal. |
| **21.** Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu Canolfan Iaith i Fangor er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi Iaith. | Canolfannau Iaith | Cyngor Gwynedd / Llywodraeth Cymru | A) Y Cyngor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu Canolfan Iaith benodol ar gyfer dalgylch Bangor. | | Ar 14 Hydref 2016, lansiwyd Popdy-Canolfan Iaith Bangor fel canolfan penodol ar gyfer hybu'r Gymraeg ym Mangor, a hynny mewn partneriaeth rhwng Menter Iaith Bangor, hunan**iaith** a Llywodraeth Cymru. Mae cyswllt eisoes wedi ei wneud rhwng Rheolwr Datblygu Canolfan Iaith Bangor a phob ysgol gynradd, y 2 ysgol uwchradd a Choleg Menai yn y ddinas er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg. |
| **22.** Sicrhau bod arfer dda yn cael ei rannu rhwng y Canolfannau Iaith a'r ysgolion. | Canolfannau Iaith | Canolfannau Iaith / Ysgolion Cynradd / Uwchradd | A) Y Cyngor a'r Canolfannau Iaith yn rhannu arfer dda gyda'r holl ysgolion yn rheolaidd. | | Sicrheir bod arferion da yn cael eu rhannu rhwng y Canolfannau Iaith a'r ysgolion yn rheolaidd. Mae'r Canolfannau Iaith yn darparu gwasanaeth ôl- ofal mewn partneriaeth â'r ysgolion er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn parhau i wneud cynnydd arwyddocaol yn y Gymraeg, a thrwy hynny, rhannu arferion da. Bwriedir hefyd ail gyflwyno'r strategaeth ôl ofal yng nghyfarfodydd busnes yr ysgolion cynradd er mwyn hyrwyddo'r strategaeth ymhellach. Yn ogystal mae |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cyfleoedd i'r ysgolion ymweld â'r Canolfannau Iaith yn ystod y flwyddyn addysgol.<br><br>Yn Ionawr 2017, bydd gwefan penodol ar gyfer y Canolfannau Iaith yn weithredol. Trwy gyfrwng y gwefan newydd yma, bydd banc canolog o wybodaeth berthnasol fydd yn fodd o rannu gwybodaeth a rhannu arferion da gyda'r ysgolion a'r rhanddeiliad allweddol. |
| **23.** Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu darpariaeth addysg drochi benodol ar gyfer Ysgol Ardudwy (ac ysgolion a leolir mewn dalgylchoedd demograffig cyffelyb) er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi Iaith. | Addysg drochi | Cyngor Gwynedd / Llywodraeth Cymru | A) Y Cyngor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu darpariaeth addysg drochi yn Ysgol Ardudwy (ac eraill). | | O ran yr uwchradd, mae'r Ganolfan Iaith Uwchradd yn diwallu'r angen o ran addysg drochi ar gyfer Ysgol Ardudwy.<br><br>Mae'r Ganolfan Uwchradd yn cynnig lle i uchafswm o 16 disgybl ar gyfer cyfnodau o 8 wythnos gan ganolbwyntio ar ddisgyblion B7 i ddechrau ac yna B8 gyda niferoedd bychain o B9 pe bai lle, yn ôl y meini prawf penodol a osodwyd. Byddir yn trochi'r disgyblion hyn gyda chwrs dwys yn y Gymraeg mewn cyfnod byr, gan gynnig arlwy o bynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal. |
| **24.** Dylai'r Cyngor drafod | Prifysgol | | A) Y Cyngor wedi | | Mae'r Adran Addysg mewn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| gyda Phrifysgol Bangor, y posibilrwydd o osod safon benodol i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a safon i ddatblygu sgiliau dwyieithog ar gyfer darpar athrawon fel rhan o'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC). | Bangor | | trafod ac wedi dod i gytundeb gyda Phrifysgol Bangor. | | trafodaethau efo'r Brifysgol am nifer o agweddau o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Byddwn yn parhau â'r trafodaethau yma. |



Asesiad

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Argymhelliad wedi'i gyflawni'n llawn |
| Melyn | Argymhelliad wedi'i gyflawni'n rhannol |
| Coch | Argymhelliad heb ei gyflawni |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 26 Ionawr 2017 |
| **Teitl yr Adroddiad** | Cyflwyno Adroddiad Astudiaeth Alun Charles, Ymgynghorydd Allanol. |
| **Aelod Cabinet :** | Y Cyng. Gareth Thomas |
| **Swyddog Perthnasol:** | Arwyn Thomas |

**CEFNDIR**

Mae'r Adroddiad Ymchwiliad Craffu i Addysg Gymraeg y Cyngor Sir i weithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi Iaith Cyngor Sir Gwynedd yn ysgolion y sir yn dod i'r casgliad, ar sail astudiaeth o dair ardal benodol, fod 'dehongli'r polisi'n amrywio'n arw ac yn ddibynnol ar ddemograffi ieithyddol dalgylchoedd ysgolion yn ogystal ag o ran sêl athrawon a phrifathrawon dros y Gymraeg.' Mae'n ychwanegu 'nad oes cysondeb nac ychwaith ddealltwriaeth cyffredinol o'r gofynion.' Caiff hyn ei ategu hefyd yn adroddiad Cwmni Trywydd ar sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifainc ysgolion uwchradd Gwynedd.

Mae'r Adroddiad Ymchwiliad Craffu ei hunan yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r mater cyn cloi gyda nifer o argymhellion ar gyfer gwella cysondeb gweithredu'r Polisi. Yn eu plith mae'r argymhellion canlynol:

*Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith Addysg y Cyngor dylai'r Cyngor ddiffinio yr hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithrwydd gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg staff.*

*Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei bod yn glir i'r holl randdeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.'*

Mae'r astudiaeth hon yn ymwneud â'r ail argymhelliad yn bennaf ond bod y dasg o ddiffinio natur ieithyddol ysgolion uwchradd y sir yn ymgorffori hefyd elfen o'r argymhelliad cyntaf, sef beth yn union a olygir wrth addysgu a dysgu dwyieithog lle bo hynny ar waith.

Mae Swyddogion Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd wedi bod yn gweithio ar y cyd ag Ymgynghorydd Allanol, Alun Charles, i gyflawni'r Astudiaeth. Ffrwyth yr Astudiaeth yw'r adroddiad ynghlwm – Atodiad 1 - sydd yn cynnwys nifer o gasgliadau ac argymhellion i'w hystyried.

# ASTUDIAETH AR GYFER CYNGOR GWYNEDD

## 1.0 CYLCH GORCHWYL YR ASTUDIAETH

Mae'r Adroddiad *Ymchwilad Craffu i Addysg Gymraeg y Cyngor Sir* i weithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi Iaith Cyngor Sir Gwynedd yn ysgolion y sir yn dod i'r casgliad, ar sail astudiaeth o dair ardal benodol, fod *'dehongli'r polisi'n amrywio'n arw ac yn ddibynnol ar ddemograffi ieithyddol dalgylchoedd ysgolion yn ogystal ag o ran sêl athrawon a phrifathrawon dros y Gymraeg.'* Mae'n ychwanegu *'nad oes cysondeb nac ychwaith ddealltwriaeth cyffredinol o'r gofynion.'* Caiff hyn ei ategu hefyd yn adroddiad Cwmni Trywydd ar sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifainc ysgolion uwchradd Gwynedd.

Mae'r Adroddiad Ymchwiliad Craffu ei hunan yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r mater cyn cloi gyda nifer o argymhellion ar gyfer gwella cysondeb gweithredu'r Polisi. Yn eu plith mae'r argymhellion canlynol:

*Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith Addysg y Cyngor dylai'r Cyngor ddiffinio yr hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithrwydd gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg staff*.

*Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei bod yn glir i'r holl randdeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.'*

Mae'r astudiaeth hon yn ymwneud â'r ail argymhelliad yn bennaf ond bod y dasg o ddiffinio natur ieithyddol ysgolion uwchradd y sir yn ymgorffori hefyd elfen o'r argymhelliad cyntaf, sef beth yn union a olygir wrth addysgu a dysgu dwyieithog lle bo hynny ar waith.

Mae Swyddogion Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd yn gweithio ar y cyd ag Ymgynghorydd Allanol i gyflawni'r Astudiaeth. Mae'n golygu archwilio dogfennaeth berthnasol gan Gyngor Sir Gwynedd a Llywodraeth Cymru, cyfweld â staff yn yr ysgolion a rhoi sylw i unrhyw ddata a gwybodaeth gysylltiedig. Ffrwyth yr Astudiaeth fydd cynhyrchu adroddiad yn cynnwys casgliadau ac argymhellion.

## 2.0 Y CEFNDIR

### 2.1 *Cyfrifiad 2011*

Pery Gwynedd y Sir Cymreiciaf o ddigon yn ôl unrhyw faen prawf. Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 65.4% o bobl yn siarad Cymraeg yng Ngwynedd, y ganraf uchaf o

siaradwyr Cymraeg o holl siroedd Cymru, fel y dengys y tabl isod, er bod amrywiaeth eang yn y canrannau mewn gwahanol ardaloedd ar draws y sir.

Gwybodaeth o'r Gymraeg

| | Pob preswylydd arferol 3 oed a throsodd | Dim sgiliau Cymraeg (%) | Gallu deall Cymraeg lafar yn unig | Gallu siarad Cymraeg (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 2,955,841 | 73.35% | 5.3% | 19.0% |
| Gwynedd | 117,789 | 26.50% | 6.9% | 65.4% |

Mae'r Cyfrifiad 2011 yn dangos y bu cwymp cyffredinol yn niferoedd y plant sy'n gallu siarad Cymraeg ond bod y canrannau yn y grwpiau oedran 3-4 a 5-15 ers y Cyfrifiad blaenorol:

| Cyfrifiad | 2001 | 2011 | Newid |
|---|---|---|---|
| 3-4 oed | 70.9% | 73.0% | +2.1% |
| 5-15 oed | 91.8% | 92.3% | +0.5% |

Er bod y ganraf uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yng Ngwynedd, nid yw'r sir yn gorffwys ar ei rhwyfau o gwbl. Mae'n ymwybodol iawn o'r gostyngiad yn nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg mewn rhai ardaoledd ac yn amlygu ewyllys a phenderfyniad i wynebu'r her o gynnal a hefyd gryfhau'r Gymraeg yn ei chymunedau ar draws y sir.

**2.2 *Strategaeth Iaith Cyngor Sir Gwynedd***

Datblygwyd Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017, a Chynllun Gweithredu ar ei chyfer, ar sail data Cyfrifiad 2011, yn ogystal â thrafodaethau cychwynnol gyda phrif bartneriaid, gwasanaethau a chynrychiolwyr cymunedol. Prif nod y Strategaeth, a lansiwyd yn swyddogol ar 19 Tachwedd 2014, oedd cyrraedd targed heriol, sef: '*Sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd erbyn 2021'*

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar chwech o feysydd gweithredu sy'n cynnwys y teulu, plant a phobl ifanc; cymunedau a'r seilwaith, i sicrhau bod y Gymraeg yn cael y gofod i ffynnu.

Gweledigaeth yr ail faes strategol – 'Plant a Phobl Ifainc' – yw '*cynyddu defnydd y Gymraeg ymysg plant a phobl ifainc, gwella eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith, ynghyd â sicrhau gwell mynediad at weithgareddau cymdeithasol a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg*.'

### 2.3 *Polisi Iaith Cyngor Sir Gwynedd*

Datblygwyd polisi Iaith Cyngor Sir Gwynedd ym 1996.

Mae'n datgan mai'r un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd Cyfnod Allweddol (CA) 2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, y nod yw parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Mae gofyn i ysgolion uwchradd adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### 2.4 *Diffinio categorïau ieithyddol adeg y trosglwyddo o CA2 i CA3*

Pan yw'r disgyblion yn trosglwyddo o CA2 i CA3 diffinnir eu categorïau ieithyddol yn ôl y carfannau canlynol:

| CARFAN | DIFFINIAD O'R MATH O DDISGYBL YN ÔL EI ALLU IEITHYDDOL |
|---|---|
| A | Disgyblion sydd â hyfedredd oed-berthnasol yn y ddwy iaith |
| B | Disgyblion sydd â hyfedredd priodol yn y Gymraeg ond sydd angen atgyfnerthu agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg |
| C1 | Disgyblion sydd â'r hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg |
| C2 | Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg, ond sydd heb y sgiliau oed-berthnasol priodol yn y Gymraeg |
| Ch | Disgyblion heb sgiliau oed-berthnasol priodol yn y naill iaith na'r llall. |

Mae canllawiau clir yn y Polisi Iaith ynghylch dilyn llwybr Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector uwchradd. Mae'r ysgolion uwchradd yn derbyn asesiad o allu ieithyddol y disgyblion yn y Gymraeg adeg y trosglwyddo. Mae'r asesiad hwn yn ystyriol o fedrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

Mae'r argymhelliad ar gyfer y sector uwchradd fel a ganlyn:

- Yn CA3, sicrhau bod pob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3+ [sydd yng Ngharfannau A a B] ar ddiwedd CA2 yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol.
- Yn CA4, sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn cael asesiad yn y Gymraeg ar ddiwedd CA4.

Mae disgwyl felly i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef 3+ , ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg [Iaith Gyntaf] a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11.

### 2.5 *Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2014-2017*

Ers pasio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 daeth y gofyniad i siroedd Cymru baratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn statudol.

Ar sail canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013 bu rhaid i awdurdodau lleol lunio'u Cynlluniau statudol cyntaf ar gyfer y cyfnod 2014 i 2017. Cymeradwywyd Cynllun Gwynedd fel y cafodd ei gyflwyno. Mae disgwyl i bob awdurdod lleol adolygu eu Cynlluniau'n flynyddol a chyflwyno unrhyw gynlluniau diwygiedig i Weinidogion Cymru. Yn dilyn y tair blynedd gyntaf o gylch cynllunio CSGA, mae'r awdurdodau bellach yn symud ymlaen i'r cam cynllunio nesaf ar gyfer 2017-2020.

Mae'r Cynllun yn dangos sut mae'r Sir yn ceisio gwireddu nod y Polisi Iaith o ran datblygu'r Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen.

Mae'n nodi nad yw'r Sir yn diffinio ysgolion cynradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ym mhob ysgol. Yr un yw'r pwyslais ar ddwyieithrwydd, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyderus ddwyieithog. Mae'r disgwyliad hwn yn greiddiol i unrhyw gynlluniau ad-drefnu neu gynlluniau newydd sy'n cael eu cyflwyno, fel Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Nid yw'r Cynllun ychwaith yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y sir fod yn hyderus ddwyieithog.

Ymhlith nodau'r Sir ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd mae'r canlynol:

- Yn CA3 a CA4 defnyddio'r wybodaeth am gyflawniad blaenorol [yn y Gymraeg fel pwnc] i sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu'r sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu.
- Sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg [yn CA2] a CA3 yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl ac yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu.

### *2.6 Gweinyddiad, Bywyd Cymdeithasol a Threfn Fugeiliol*

Yn ychwanegol at ddatblygu hyfedredd disgyblion yn y ddwy iaith, disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad,

eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

**2.7 *Cymraeg Iaith Gyntaf***

Mae'n nod barhaus gan y Sir i sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn parhau i wella'u sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac yna drwy Gyfnodau Allweddol 3 a 4.

Mae ysgolion uwchradd yn derbyn gwybodaeth am garfannau iaith pob disgybl gan gyd-gysylltydd iaith y gwahanol dalgylchoedd wrth iddynt drosglwyddo o CA2 i CA3.

Mae canran y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 fel a ganlyn:

| 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 99.6% | 99.6% | 99.2% | 99.2% | 97.5% | 98.8% | 97.9% |

Mae'r data'n dangos cynnydd o 1.3% rhwng 2014 a 2015, yn dilyn ychydig o ostyngiad cyn hynny.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn y cyfnod 2010-16:

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 3+ | 95.0% | 95.0% | 95.1% | 96.8% | 96.9% | 97.4% | 98.3% |

Mae'r ffigwr yn gymharol sefydlog gydag ychydig o amrywiaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rhwng 2014 a 2015 gwelwyd cynnydd o 0.5%.

Mae canran y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 fel a ganlyn:

| 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 81.7% | 83.0% | 86.1% | 82.5% | 81.2% | 83.2% | 83.7% |

Bu gostyngiad yn y ganran dros 2012-14 ond gwelwyd cynnydd o 2.5% rhwng 2014 a 2016. Hefyd, mae cymharu'r ganran a asesir yn CA3 yn erbyn yr un cohort yn CA2 yn dangos peth cwymp rhwng y cyfnodau allweddol yn flynyddol.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y disgyblion a enillodd lefel 3+ yn CA2 ac a gafodd asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3 yn y cyfnod 2010-16.

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 88.7% | 89.9% | 91.6% | 90.0% | 87.4% | 89.5% | 88.7% |

Mae cymharu'r tabl hwn â'r tabl blaenorol sy'n dangos canran y disgyblion a gyrhaeddod lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn y cyfnod 2010-16 yn amlygu gostyngiad yn y ganran dros bob un o'r blynyddoedd.

Anelir at sicrhau bod pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn cael asesiad yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA4. Er bod y ganran hon yn uchel mewn cymhariaeth â gweddill Cymru, mae ffordd i fynd i gyflawni nod y sir yn llawn, fel y dengys y tabl isod:

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % yn sefyll Cymraeg Iaith Gyntaf | 78.3% | 78.6% | 78.7% | 80.8% | 85.0% | 80.6% | 76.3% |
| % A*-C | 70.9% | 74.4% | 76.4% | 72.6% | 73.3% | 78.8% | 76.3% |

Mae CSGA Gwynedd yn gosod targed o 80% erbyn 2017 ar gyfer ennill gradd A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf.

### 2.7 *Cymraeg fel Cyfrwng*

Mae'r wybodaeth am garfannau iaith yn gymorth hefyd i ysgolion uwchradd gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu.

Ni chynhwysir data am ganran y disgyblion sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn CA3 yn CSGA Gwynedd ond mae gwybodaeth ynddo am CA4.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y disgyblion ym M11 sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg:

| **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **78.1%** | **78.8%** | **79.1%** | **82.0%** | **87.5%** | **82%** | **79.4%** |

Mae'r tabl canlynol yn dangos canran y disgyblion ym M11 sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg:

| **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **60.8%** | **64.7%** | **67%** | **71.3%** | **73.3%** | **74.9%** | **69.4%** |

### 2.8 *Cymraeg Ail Iaith*

Mae'r tabl isod yn dangos mai cymharol fach yw canran y disgyblion yng Ngwynedd sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg Ail Iaith ac yn sefyll arholiad Cymraeg Ail Iaith erbyn diwedd CA4 ond y bu tipyn o gynnydd rhwng 2014-15:

| Blwyddyn | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % wedi sefyll Cymraeg Ail Iaith | 17.6% | 16.5% | 15.2% | 15.1% | 11.9% | 16.7% | 16.7% |

**2.9 *Cynlluniau Trochi***

Bu'r sir yn flaengar dros y blynyddoedd yn datblygu canolfannau iaith i gynorthwyo disgyblion hwyrddyfod i'w galluogi i ymdoddi i'w cymdeithas ddwyieithog ac i gyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog yn yr ysgolion. Ar yr un pryd, mae'r canolfannau'n hanfodol ar gyfer helpu ysgolion i weithredu'r Polisi Iaith yn llawn. Mae pedair canolfan gynradd gan y sir ac un ganolfan uwchradd ym Mhorthmadog, sef yr unig un o'i bath yng Nghymru.

Noda CSGA Gwynedd fod 'lle i uchafswm o 16 disgyblion ar gyfer cyfnodau o wyth wythnos, gan ganolbwyntio ar ddisgyblion B7 i ddechrau ac yna B8 gyda niferoedd bychain o B9 pe bai lle. Mae athrawon y Ganolfan hefyd yn cynnig ôl-ofal i bob disgybl ar ôl iddynt ddychwelyd i'w hysgolion.

Yn ôl CSGA Gwynedd 'Rhwng 2005 a Hydref 2016 mae cyfanswm o 1628 o ddisgyblion cynradd a 510 o ddisgyblion uwchradd wedi mynychu'r canolfannau

**2.10 *Defnydd Iaith y tu hwnt i'r Dosbarth***

Nid yw diddordeb y sir yn nefnydd disgyblion o'r Gymraeg yn gyfyngedig i faterion cwricwlaidd yn unig ac mae'n rhoi pwys mawr ar ddatblygu'r defnydd a wnânt ohoni'r tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn y cymunedau o'u cwmpas. I'r diben hwn y datblygwyd *Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd* ac y comisiynwyd Cwmni Trywydd i gynnal arolwg o sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifainc ysgolion uwchradd y sir.

**2.11 *Yr Ysgolion uwchradd***

Mae 14 o ysgolion uwchradd yn nhair is-ardal Gwynedd fel a ganlyn:

**ARFON**
Ysgol Brynrefail (11-18)
Ysgol Dyffryn Nantlle (11-18)
Ysgol Dyffryn Ogwen (11-18)
Ysgol Friars (11-18)
Ysgol Syr Hugh Owen (11-18)
Ysgol Tryfan (11-18)

**DWYFOR**
Ysgol Botwnnog (11-16)
Ysgol Eifionnydd (11-16)
Ysgol Glan-y-môr (11-16)

**MEIRION**
Ysgol Y Gader (11-16)
Ysgol Tywyn (11-16)
Ysgol y Moelwyn (1-16)
Ysgol y Berwyn (11-18)
Ysgol Dyffryn Ardudwy (11-16)

Adlewyrchir yr amrywiaeth mawr yn y gallu i siarad yr iaith ar draws y gwahanol ardaloedd yng Ngwynedd yn nalgylchoedd gwahanol ysgolion uwchradd y sir. Mae'r adroddiad Ymchwiliad Craffu i Addysg Gymraeg y Cyngor Sir yn rhoi cipolwg i ni o'r amrywiaeth hwn wrth drafod tair ardal:

*Canfuwyd bod dalgylchoedd Ardudwy, Bangor a Botwnnog yn wahanol iawn i'w gilydd o safbwynt ieithyddol. Mae hefyd amrywiaeth o fewn y dalgylchoedd, er enghraifft mae gogledd dalgylch Ardudwy yn ardal Gymreig gydag ardal y de yn fwy Seisnigaidd. Dalgylch Botwnnog yw'r mwyaf Cymreig o'r dalgylchoedd dan sylw. Mae amrywiaethau eraill ym Mangor, gydag ardaloedd Cymraeg, ardaloedd Saesneg ac ardaloedd sydd yn bwydo'r Brifysgoll ac Ysbyty Gwynedd.*

Yn CSGA Gwynedd tynnir sylw hefyd at amgylchiadau gwahanol yn y ddwy ysgol ym Mangor, sef Ysgol Tryfan ac Ysgol Friars. Yn un ohonynt, sef Ysgol Friars, nid yw'r disgyblion yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf os nad ydynt wedi derbyn Lefel 4 neu well ar ddiwedd CA2. A thra bo'r holl bynciau'n cael eu cynnig drwy'r Gymraeg yn Ysgol Tryfan, nod yn y tymor hir yn Ysgol Friars yw sicrhau bod mwy o rannau'r cwricwlwm ar gael yn ddwyieithog.

Mae'r sir yn datgan mai'r un yw'r disgwyliad sydd i'r Polisi Iaith ym mhob un o'r ysgolion uwchradd. Yn naturiol, mae mwy o her yn wynebu rhai o'r ysgolion hyn nag eraill i gyflawni'r disgwyliad hwn.

## 3.0 DIFFINIO CATEGORÏAU YSGOLION

Mae *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (Hydref 2007), dogfen a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn amlinellu disgrifiadau a chategorïau ysgolion yn ôl faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio wrth addysgu a dysgu, ac yn yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y categorïau er mwyn casglu gwybodaeth ynglŷn â darpariaeth genedlaethol a hefyd yn lleol gan awdurdodau addysg ac ysgolion er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni am ba fath o ysgolion sydd ar gael mewn cymdogaethau gwahanol. Mae'r ddogfen yn datgan y dylai'r wybodaeth helpu llywodraeth leol a chenedlaethol i asesu a yw'r ddarpariaeth yn cwrdd â'r galw lleol. Mae dogfen y Llywodraeth yn datgan fel a ganlyn: '*Er nad oes unrhyw sail*

*gyfreithiol i'r diffiniadau, eu diben yw rhoi gwell gwybodaeth i rieni ac i lywodraeth leol a chenedlaethol ynghylch i ba raddau mae disgyblion yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.'* Byddai angen rheoliadau er mwyn gwneud hyn yn orfodol.

Mae'r categorïau canlynol yn y sector uwchradd:

- Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg
- Ysgol Uwchradd Ddwyieithog (a'r categori wedi'i rannu'n 4 is-adran).
- Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
- Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf

Mae esboniad manwl o bob categori yn Atodiad 1.

Nodwyd eisoes na fu hi'n arfer gan ysgolion uwchradd Gwynedd i ddiffinio'u hysgolion yn y modd a amlinellir uchod gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ym mhob un ohonynt.

Eto i gyd, mae *Fy Ysgol Leol*, sef gwefan boblogaidd iawn a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, i'w gwneud yn haws i rieni ac i bawb arall sydd â diddordeb gael gweld data am ysgolion, yn cynnwys adran ar Gategoreiddio Ysgolion yng Ngwynedd. Mae'n seiliedig ar y ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (Hydref 2007).

Mae *Fy Ysgol Leol* yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am gategorïau ysgolion uwchradd y sir:

| YSGOL | DIFFINIO CATEGORI IAITH |
|---|---|
| **Ysgol Ardudwy** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| | |
| **Ysgol Botwnnog** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Brynrefail** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Dyffryn Nantlle** | **Dwyieithog (Categori B)** |
| | |
| **Ysgol Dyffryn Ogwen** | **Dwyieithog (Categori Ch)** |
| | |
| **Ysgol Eifionydd** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| | |
| **Ysgol Friars** | **Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg** |
| | |
| **Ysgol Glan-y-môr** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| | |
| **Ysgol Syr Hugh Owen** | **Dwyieithog (Categori Ch)** |
| | |

| | |
|---|---|
| **Ysgol Tryfan** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| | |
| **Ysgol Tywyn** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Y Berwyn** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| | |
| **Ysgol Y Gader** | **Dwyieithog (Categori Ch)** |
| | |
| **Ysgol Y Moelwyn** | **Cyfrwng Cymraeg** |

Mae'r diffiniadau hyn yn tueddu i gadarnhau un o gasgliadau Adroddiad Ymchwilad Craffu i Addysg Gymraeg y Cyngor Sir, sef nad oes cysondeb yn y modd y dehonglir y Polisi Iaith ar draws y sir. Mae'r Adroddiad hefyd yn nodi bod 'yr ansicrwydd ynghylch natur ieithyddol yr ysgolion i'w ganfod hefyd ymhlith y rhanddeiliaid – *'a yw'r ysgol yn Ysgol Gymraeg naturiol, yn Ysgol Ddwyieithog, neu'n Ysgol Saesneg (mewn ambell achos)'*.

Bydd angen hefyd ddiwygio unrhyw wybodaeth fel yr uchod unwaith y daw'r ddwy ysgol ddilynol sydd i'w sefydlu yn y sir, y naill yn Nolgellau (3-16) a'r llall yn y Bala (3-19) i fodolaeth.

## 4.0 YR ASTUDIAETH A'I CHASGLIADAU

Mae'r astudiaeth a'i chasgliadau'n seiliedig ar drafodaethau â phenaethiaid a staff hŷn ysgolion uwchradd y sir ynghyd â holiaduron cryno a gwblhawyd ganddynt a dogfennaeth sirol a chenedlaethol y cyfeiriwyd atynt wrth drafod y cylch gorchwyl a'r cefndir.

## 5.0 DIFFINIO YSGOLION UWCHRADD YN IEITHYDDOL

### 5.1*Y Sefyllfa Gyfredol*

Er nad yw'r sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol, mae diffiniadau fel hyn ar waith, er enghraifft ar *Fy Ysgol Leol*,fel y nodwyd eisoes *(Gweler 3.0).* Cânt hefyd eu defnyddio gan Estyn, Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, wrth drafod cefndir ysgolion unigol mewn adroddiadau arolygu.

Yr hyn sy'n nodweddu'r defnydd o ddiffiniadau, lle bônt ar waith, yw diffyg cysondeb. Yn aml, mae gwahanol gategorïau, er enghraifft 'Cymraeg', 'dwyieithog' a 'naturiol ddwyieithog' yn cael eu nodi ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n debyg iawn i'w gilydd yn ieithyddol. Hyd yn oed wrth ddiffinio'r un ysgol mae categori Llywodraeth Cymru ac Estyn yn gallu amrywio. Nid yw'r diffiniadau a ddefnyddir o anghenraid ychwaith yn llwyr gipio sefyllfaoedd ieithyddol yr ysgolion, yn sicr nid yn fanwl gywir. A dweud yn gryno, mae'r diffyg gweithredu cyson a chlir yn gallu peri cryn ddryswch.

## 5.2 *Gosod y Seiliau*

Mae'n galonogol fod canran y disgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA2 yn y nawdegau uchel. Felly hefyd ganran y disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 3+ mewn Cymraeg Iaith Gyntaf. *(Gweler 2.6).* Bydd amrywiaeth weithiau o ran cyrhaeddiad y disgyblion yn y ddwy iaith, ac yn y gwahanol foddau iaith, ond, at ei gilydd, mae lefel eu dwyieithrwydd yn hwyluso trefniadaeth yr ysgolion uwchradd adeg y trosglwyddo o'r cynradd ar gyfer symud addysg ddwyieithog ymlaen ymhellach.

Mae hyn hefyd yn gam mawr ymlaen at wireddu un o amcanion y sir, sef mai'r un disgwyliad sydd i'r Polisi Iaith ym mhob un o'r ysgolion uwchradd, nid nad oes ffordd i fynd eto i sicrhau dilyniant esmwyth dros gyfnod y trosglwyddo rhwng CA2 a 3. Mae'r gostyngiad, rhwng y ganran a asesir mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA2 ac ar ddiwedd CA3 a rhwng y ganran sy'n cyrraedd L3+ ar ddiwedd CA2 a'r ganran a asesir ar ddiwedd CA3 *(Gweler 2.6)* yn fater sydd angen sylw pellach gan y gall arwain at dangyflawni ac amharu ar ddilyniant yn y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng addysgu a dysgu.

## 5.3 *Cyflwyno profiadau yn y Ddwy Iaith*

Mae Polisi Iaith Gwynedd yn gosod canllawiau digon clir ar gyfer gweithredu o ran cyflwyno profiadau yn y ddwy iaith yn y sector uwchradd:

*Yn achos disgyblion sydd â hyfedredd priodol yn y Gymraeg ond sydd angen datblygu ymhellach eu gafael ar y Gymraeg a gwella sgiliau penodol yn y Saesneg [carfanmau A a B], bydd cyfran helaeth o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol, cynllunnir profiadau penodol ar draws y cwricwlwm er mwyn iddynt ddatblygu a gwella'u sgiliau yn y Saesneg. Mewn achosion o'r fath bydd yr amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cyfateb yn fras i 70%:30%.*

A derbyn y bydd peth amrywiaeth yn yr amser cwricwlaidd a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg. mae'n briodol fod y Polisi Iaith yn nodi 70% fel isafswm ar gyfer gwaith cyfrwng Cymraeg. Ategir yr egwyddor hon yn y ddogfen *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill* 2010) sy'n datgan fel a ganlyn:

*Derbynnir yn gyffredinol y dylai o leiaf tua 70% o amser y cwricwlwm fod drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i ddysgwyr feistroli'r iaith yn ddigon cadarn i'w galluogi i'w defnyddio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau yn hyderus ac yn rhugl. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr egwyddor ganolog hon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd.*

Fodd bynnag, nid yw sefyllfaoedd mor syml â hyn ychwaith yn ysgolion uwchradd y sir, gan fod ynddynt hefyd ddisgyblion sydd yng Nharfannau C1-Ch a'r rheiny'n gallu bod yn yr un dosbarthiadau â disgyblion Carfannau A a B. Yn naturiol ddigon felly, fel yr amlinellir yn y Polisi Iaith, bydd y cydbwysedd a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r disgyblion hyn yn gwahaniaethau, o leiaf am gyfnod, gan ddibynnu ar ba mor gyflym y maent yn caffael medrau Cymraeg:

*Yn achos dysgwyr sydd angen datblygu ac atgyfnerthu eu sgiliau yn y Gymraeg [carfan C1] cynllunnir y cwricwlwm mewn modd fydd yn caniatáu iddynt ymarfer a datblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Mewn achosion o'r fath bydd yr amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg yn 50% o leiaf.*

*Yn achos lleiafrif y disgyblion sydd â sgiliau priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau priodol yn y Gymraeg [carfan C2], rhoddir pwyslais ar gynllunio cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu sgiliau llafar yn y Gymraeg. Mewn achosion o'r fath bydd yr amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg yn 30% o leiaf.*

Nid caethiwo yw diben canllawiau'r Polisi Iaith ond, yn hytrach, helpu ysgolion i gynllunio'n effeithiol ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd a hynny'n gwbl briodol. Ar yr un pryd, dylid cofio mai llawer pwysicach na mesur amser yn union i'r llythyren yw ystyried natur ac ansawdd y profiadau ieithyddol a ddarperir yn y ddwy iaith yn y cyfnodau a neilltuir ar gyfer hynny.

Dylanwad arall ar y broses o osod cyfeiriad strategol i'r ysgol mewn perthynas â datblygu addysg drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yw'r corff llywodraethu. Nododd sawl ysgol fel y mae cefnogaeth llywodraethwyr a'u swyddogaeth fel cyfeillion beirniadol yn y cyswllt hwn yn gymorth iddynt geisio cyflawni'u hamcanion ieithyddol ac addysgol.

**5.4 *Gweithio at y Nod***

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd yn gweithio i gyfeiriad y cydbwysedd ieithyddol a argymhellir yn y Polisi Iaith, rhai'n fwy agos na'i gilydd. Gwelir cynnydd arbennig yn y cyfeiriad hwn mewn talcenni digon heriol, er enghraifft yn CA3 yn Ysgol Ardudwy, Ysgol Uwchradd Tywyn ac Ysgol y Gader yn is-ardal Meirion lle mae camau breision wedi'u cymryd i roi lle sicrach i'r Gymraeg fel cyfrwng ac i osod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiadau pellach.

Ceir peth amrywiaeth yn nhrefniadaeth rhai ysgolion. Ar hybu yn hytrach na gorfodi, er enghraifft, mae'r pwyslais mewn un ysgol uwchradd mewn ardal Gymraeg. Yn yr ysgol honno mae disgwyl i ddisgyblion ddilyn tri phwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 ond bod llawer, mewn gwirionedd, yn dilyn y cyfan yn yr iaith honno.

Ffactor sy'n hwyluso trefniadau'r ysgolion uwchradd yw cyfraniad sylweddol y Ganolfan Iaith Uwchradd Gwynedd ym Mhorthmadog lle mae cynifer o hwyrddyfodiaid a phlant tramor (nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt bob tro), yn CA3 yn caffael y Gymraeg drwy ddulliau trochi. Mae hynny'n eu galluogi i ymdoddi wrth iddynt ddychwelyd i'w hysgolion.a hefyd ddilyn elfennau o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r ysgolion uwchradd hefyd yn gwerthfawrogi ymweliadau ôl-ofal y Ganolfan wedi i'r disgyblion ddychwelyd fel rhan o'r broses o gadw golwg ar gynnydd ac yn cael budd ohonynt.

Tra bo ysgolion at ei gilydd yn datblygu dwyieithrwydd, gan ddilyn patrwm y Polisi Iaith yn CA3, mae'r sefyllfa ychydig yn fwy cymysg yn CA4 lle ceir mwy o amrywiaethau rhwng ysgolion. Bydd ambell ysgol, lle mae lleiafrif y disgyblion yn dod

o gartrefi Cymraeg, yn mynnu bod disgyblion yn sefyll eu harholiadau allanol mewn o leiaf 80% o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg  Mewn ysgolion eraill  fodd bynnag, mae’r sefyllfa’n fwy agored a chaiff disgyblion ganiatâd i ddilyn cwrs neu gyrsiau ar gyfer arholiad allanol drwy gyfrwng eu dewis iaith.

Mae’r sefyllfa’n anghyson yn achos cyrsiau galwedigaethol a drefnir ar y cyd â cholegau lleol.  Yn yr achosion hynny, gall ymgeiswyr sefyll eu harholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar yr amod bod y cyfleuster yn cael ei gynnig gan y sefydliad dyfarnu.  Nid yw’r cyfleuster hwn ar gael drwy’r Gymraeg ym mhob achos ac mae hynny, yn ei dro, yn gallu dylanwadu ar natur ieithyddol yr addysgu a’r dysgu yn y colegau.

Mae gofyn edrych a oes modd cael gwell dilyniant rhwng CA3 a CA4 a mwy o gysondeb ymarfer yn CA4, yn enwedig gan fod yr argoelion presennol ychydig tuag at i lawr o safbwynt disgyblion sy’n astudio ar gyfer dau neu fwy o gymwysterau drwy’r Gymraeg a phump neu fwy o gymwysterau drwy’r Gymraeg (Gweler t.5).  Nid bod y cofrestriadau hyn ynddynt eu hunain ychwaith yn amlygu’n fanwl gywir faint y gwaith a sefir drwy’r Gymraeg gan fod hawl gan ddisgyblion a gofrestrwyd ar gyfer cymhwyster drwy’r Gymraeg sefyll rhannau o’r cymhwyster hwnnw drwy’r Gymraeg neu’r Saesneg er mwyn adlewyrchu’r iaith yr addysgwyd hwy ynddi. (Gw. Examination Provision 2016, CBAC.11.2).

Yn CA5, yn yr ysgolion, mae’r ddarpariaeth ieithyddol,i raddau helaeth, yn adlewyrchu’r patrwm a sefydlwyd yn CA4.  Erbyn hynny hefyd bydd nifer o ysgolion fel rheol yn rhoi mwy o ddweud i unigolion ynghylch dewis cyfrwng.

### 5.5 *Sefyllfa Bangor*

Tra bo ysgolion uwchradd dwyieithog Gwynedd, gyda pheth amrywiaethau, yn gweithredu’n gymharol debyg i’w gilydd yn ieithyddol ac yn gynyddol felly, yn arbennig yn CA3, mae’r sefyllfa’n groes i’r patrwm yn rhanbarth Bangor lle mae’r ddwy ysgol uwchradd yn darparu’n dra gwahanol i’w gilydd.  Gellir olrhain hynny’n ôl i’r arfer a sefydlwyd adeg ad-drefnu addysg yn y ddinas ym 1978.

Mae Ysgol Tryfan yn gogwyddo at addysgu a dysgu drwy’r Gymraeg bron yn llwyr, gan ddilyn patrwm ieithyddol ysgolion penodedig Cymraeg a sefydlwyd mewn rhannau eraill o Gymru. Mae gogwydd Ysgol Friars bron yn gyfan gwbl at addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac eithrio Cymraeg Iaith Gyntaf a pheth mewnbwn cyfrwng Cymraeg i rai dosbarthiadau yn unig yn CA3.

Mae Cyfrifiad 2011 (mewn cymhariaeth â Chyfrifiad 2001) yn dangos dirywiad yn y niferoedd sy’n gallu siarad Cymraeg ym mhob ward ym Mangor. Bu cwymp o 10% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas mewn degawd -  o 45% yn 2001 i 35% erbyn 2011.  Fel rhan o’r ymgyrch i adfer y Gymraeg ar ôl cyfnod o erydu sefydlwyd Menter Iaith Bangor gyda’r nod o ‘*hyrwyddo ac ehangu'r iaith Gymraeg ar lefel gymunedol ar draws y ddinas’* er mwyn gweld yr iaith *‘ yn dod yn rhan ganolog a naturiol o fywyd bob dydd .... ar y strydoedd, yn y siopau, ac yn wir ymhobman, gyda phawb o'r trigolion yn rhannu’r cyfrifoldeb am ei dyfodol a’i ffyniant’.* Yn ddiweddar

hefyd, agorwyd Canolfan Popdy yn swyddfa i Fenter Iaith Bangor a staff rhanbarth Eryri o Urdd Gobaith Cymru, ac mae'n fwriad i logi allan rhan o'r adeilad i sefydliadau a mudiadau eraill sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ddiamau, mae cyfraniad pwysig i'w wneud gan ddwy ysgol uwchradd y ddinas, fel ei gilydd, nid yn unig i gynnal safonau addysg a sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'i botensial yn llawn ond hefyd i hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd, gan adeiladu ar y cynnydd a wneir yn y sector cynradd. Fel y gwyddys, y system addysg i blant yw'r llwybr pwysicaf o ran creu a datblygu siaradwyr Cymraeg ac mae Llywodraeth Cymru am i bawb gael cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar i addysg uwch, fel y nodwyd adeg cyhoeddi'n swyddogol y cynigion ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru – Y Fenni 2016.

Mae Ysgol Tryfan yn addysgu a dysgu Cymraeg i'w disgyblion a datblygu'u dwyieithrwydd yn llwyddiannus mewn amgylchedd gadarn a chefnogol i'r iaith a'i diwylliant. Mae cydweithio agos hefyd rhwng yr ysgol a'r Fenter Iaith.

Canran fechan (tua 4%) o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith sydd yn Ysgol Friars. Mewn cymhariaeth, mae canran uwch o ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Daw nifer sylweddol o ddisgyblion i'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch arferol – o fannau eraill yn y sir ac o ardaloedd y tu allan i'r sir, er enghraifft Conwy ac Ynys Môn - a hynny am amrywiol resymau. Addysgir Cymraeg Iaith Gyntaf yn yr ysgol drwy CA3 a CA4 ond Cymraeg Ail Iaith yw llwybr rhan fwyaf y disgyblion. Cofrestir carfan gymharol fach o ddisgyblion ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA4 ar ôl ymgynghori â'r rhieni – disgyblion o gefndir Cymraeg yw'r rhain ran amlaf. Ni wna'r ysgol fawr o ddefnydd o'r Ganolfan Uwchradd ym Mhorthmadog ond mae'n werthfawrogol o'r mewnbwn a gyfrennir gan y staff pan maent yn dod i'r ysgol eu hunain. Nid yw teithio yn ôl ac ymlaen i'r Ganolfan yn hwylus bob tro, yn enwedig i ddisgyblion sy'n dod gryn bellter i'r ysgol yn y lle cyntaf. Mae'r ysgol yn awgrymu y byddai'n haws manteisio ar y math hwn o ddarpariaeth pe bai ar gael ar gampws yr ysgol ei hunan. Ceir elfen o addysgu dwyieithog ar draws y cwricwlwm i'r dosbarthiadau Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 yn unig, ond darpariaeth dameidiog iawn yw hon.

Mae'r ffactorau i'w hystyried er mwyn ceisio symud dwyieithrwydd ymlaen yn yr ysgol a chryfhau'r dilyniant iaith rhwng CA3 a CA4 yn cynnwys sut y gellir gwneud y Gymraeg Iaith Gyntaf yn fwy cynhwysol ar ddechrau'r cyfnod uwchradd gan y caiff ei chyfyngu i ddisgyblion sy'n ennill Lefel 4 mewn asesiad Cymraeg ar ddiwedd CA2 ar hyn o bryd. Ffactor arall yw ystyried sut y gellir ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn yr ysgol mewn dull mwy strwythuredig, nid yn unig yn CA3 ond hefyd drwodd i CA4. Yn ôl yr ysgol, anhawster mawr yn y cyswllt hwn ar hyn o bryd yw diffyg digon o staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn galw am ddatblygiad proffesiynol parhaus i staff i wella'u sgiliau a'u hanghenion ac, o bosib, o leiaf dros dro, ddulliau mwy arloesol, lle bo hynny'n ymarferol, fel rhannu arbenigedd staff ag ysgolion eraill.

Nid oes ateb cyflym i'r sefyllfa ieithyddol ac addysgol gymhleth ym Mangor a bydd angen ei hadolygu'n ddiweddarach pan ddaw rhagor o wybodaeth a chynlluniau

ynghylch nod Llywodraeth Cymru yn y pen draw o sefydlu un ffrwd ar gyfer y Gymraeg pa fydd pawb yn dysgu'r iaith ar yr un continwwm.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi sefydlu ac yn defnyddio strategaethau i hyrwyddo'r Gymraeg - mae angen adeiladu ymhellach ar yr arferion da hynny. Dylid paratoi cynllun gweithredu manwl ar gyfer ardal Bangor sy'n pennu'r camau i'w cymryd i ymestyn canran y disgyblion sy'n dilyn llwybr Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 ac ymlaen i CA4 ac yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.

**5.6 *Un Categori***

Mae peth gwahaniaeth barn yn yr ysgolion uwchradd ymhlith priodoldeb y cysyniad o ddiffinio ysgolion yn ôl categori ieithyddol, gydag ambell un yn gweld hyn fel offeryn yn bennaf i hwyluso trafod a dadansoddi data ac ati. Fodd bynnag. mae'n deg dweud fod galw'n gyffredinol am fwy o gysondeb o ran diffinio ysgolion uwchradd yn ieithyddol gan fod y sefyllfa bresennol yn gallu bod yn un mor ddryslyd, yn enwedig i'r cyhoedd a darpar rieni.

Yr hyn yn arbennig mae'r diffiniadau a'r categorïau ieithyddol a ddefnyddir yn methu â'i wneud yn llwyddiannus yw adlewyrchu *i ba raddau* ac *ym mha fodd* mae'r ysgolion uwchradd yn addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'n ddwyieithog.

Mae addysgu a dysgu dwyieithog i wahanol raddau'n nodwedd o bob ysgol uwchradd yn y sir. Mae'r cydbwysedd rhwng y defnydd o'r ddwy iaith yn gallu amrywio o ysgol i ysgol ac yn sylweddol felly mewn ambell ysgol. Felly hefyd yr ystod o ddulliau addysgu a dysgu dwyieithog,, hyd yn oed rhwng ysgolion sy'n debyg i'w gilydd yn ieithyddol. Nid yw addysgu a dysgu dwyieithog o anghenraid yn golygu y dylid cyflwyno'r ddwy iaith i'r disgyblion drwy'r amser ychwaith. Mae'r dulliau eu hunain yn gallu amrywio o addysgu a dysgu pynciau, neu unedau cyflawn o waith oddi mewn i bynciau neilltuol, yn Gymraeg neu Saesneg hyd at gyflwyno pynciau'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg gyda pheth mewnbwn yn Saesneg, gan ddibynnu ar amgylchiadau ieithyddol yr ysgolion ac weithiau ddosbarthiadau oddi mewn i'r ysgolion hynny. Y nod yn sicr yw cynllunio i sicrhau rhugl rwyddineb yn y ddwy iaith yn eu gwahanol foddau gan beidio â thanseilio mewn unrhyw fodd y cynnydd a wnaed yn y Gymraeg wrth wneud hynny.

Dylid diffinio'n glir ysgolion y sir yn ieithyddol er mwy datrys y dryswch presennol. Bernir mai un categori sy'n addas ar gyfer yr ysgolion ac mai'r term craidd mwyaf addas ar gyfer hwnnw yw 'ysgolion dwyieithog'. Anghyflawn yw'r disgrifiad hwnnw wrth ei hunan, fodd bynnag, i ddangos yn glir beth yn union yw patrwm yr addysgu a dysgu a fabwysiedir ganddynt.

Wrth fanylu ar y term 'ysgol ddwyieithog' ac er mwyn dangos cydbwysedd ieithyddol cyfrwng yr addysgu a'r dysgu, mae'n fwy cydnaws meddwl yn nhermau profiadau na phynciau gan fod hynny ran amlaf yn cydfynd yn well â'r dulliau o gyflwyno sydd ar

waith yn y rhan fwyaf o wersi.. Mae gofyn hefyd ddangos a oes gwahaniaethau yn y cydbwysedd rhwng CA3 a 4 a, lle bo hynny'n berthnasol, CA5.

Dylid hefyd ddiffinio'n ieithyddol y ddwy ysgol ddilynol newydd i'w sefydlu yn y sir, y naill yn Nolgellau (3-16) a'r llall yn Y Bala (3-19).

Mae gofyn hefyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi ystyriaeth bellach i sefyllfa Gwynedd pan ddaw'n amser i ddiwygio'r ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.*

## 5.7 ADDYSGU A DYSGU DWYIEITHOG A DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Mater sydd angen sylw parhaus yw cynllunio a chyflwyno addysg yn ddwyieithog yn y dosbarth. Ni ellir gorbwysleisio'r her sy'n wynebu ysgolion, yn enwedig yn y sefyllfaoedd hynny lle ceir disgyblion sy'n cynrychioli gwahanol garfannau iaith, weithiau oddi mewn i'r un dosbarthiadau. Tra bo defnydd o'r ieithoedd fel cyfrwng addysgu'n destun trafod a chynllunio ar raddfa ysgol gyfan mewn rhai ysgolion, nid yw hynny wedi datblygu mewn modd strwythuredig i'r un graddau mewn eraill.

Mater sy'n cael cryn sylw ar raddfa ysgol mewn nifer o'r ysgolion uwchradd lle mae canran uchel o Gymry Cymraeg, er enghraifft, yw sut orau i ddatblygu a mireinio medrau Saesneg y disgyblion fel y bônt yn hyfedr wrth gyfathrebu yn yr iaith honno. Maent yn gweld manteision mewn defnyddio'r Saesneg ar gyfer rhai profiadau yn y cwricwlwm ehangach er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i'w disgyblion ddefnyddio'u medrau iaith mewn cyd-destunau ar wahân i'r gwersi iaith a thrwy hynny atgyfnerthu gwaith yr adrannau Saesneg. Bu hyn yn destun cynllunio manwl. Aethpwyd ati i fapio'n ofalus y medrau llythrennedd drwy'r Saesneg y gellir eu hymgorffori yn y profiadau dysgu ar draws y pynciau gyda'r nod o helpu'r disgyblion i ddefnyddio'r iaith honno'n bwrpasol, yn enwedig wrth ysgrifennu. Lle digwydd hyn, mae cyd-dealltwriaeth ar raddfa ysgol ynghylch y ffordd i weithredu ac i sicrhau dilyniant addas i'r gwaith dros gyfnod / au allweddol. Yn yr ysgolion hyn, mae'r cynllunio ieithyddol yn parhau i roi cyfleoedd yr un mor gadarn a defnyddiol i'r disgyblion ddefnyddio a datblygu'u medrau llythrennedd drwy'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r math hwn o gynllunio'n enghraifft o arfer dda.

Mae'n amserol i ailymweld â thechnegau addysgu a dysgu dwyieithog ar hyn o bryd tra bo Llywodraeth Cymru'n gwneud newidiadau sylfaenol i addysgu a dysgu yng Nghymru ac yn datblygu'r cwricwlwm newydd *Cwricwlwm am Oe*s, yn seiliedig ar ***'****Dyfodol Llwyddiannus****'*** yr Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru a gyflawnwyd gan yr Athro Graham Donaldson ym mis Chwefror 2015. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) yn pennu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu y disgwylir i ddisgyblion fod yn fedrus ynddynt ar draws y cwricwlwm ac mae gofyn i athrawon integreiddio llythrennedd (a rhifedd) yn eu haddysgu, beth bynnag y bo'r pwnc. Mae cymhwysedd digidol hefyd yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd a bydd y

Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) yn amlinellu'r sgiliau a gwybodaeth y disgwylir i ddysgwyr ei datblygu. Mae polisïau yn y meysydd hyn yn allweddol i ddatblygiad ysgol. Mae hefyd yn bwysig fod technegau addysgu a dysgu dwyieithog yn cyd-gerdded â'r datblygiadau hyn oll a bod y staff wedi'u trwytho yn y sgiliau sydd eu hangen.

Dylai hyfforddiant ystyried materion fel y canlynol wrth addysgu'n ddwyieithog:

cynllunio dwyieithrwydd;
modelau iaith;
trawsieithu;
technegau holi;
cyfathreu â disgyblion hwyrddyfod ar ôl iddynt fod ar Gyrsiau Trochi Cymraeg;
hyrwyddo sgiliau llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel ei gilydd, oddi mewn i bynciau;
cyfraniad technolegau ac adnoddau pynciol;
defnydd o lyfrynnau geirfa ac iaith;;
lefel darllenedd deunydd addysgu;
asesu a dwyieithrwydd.

Dylid manteisio ar enghreifftiau o arfer dda sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion wrth ddatblygu'r hyfforddiant, yn enwedig y cydweithio a'r cyd-gynllunio a'r modelu sy'n digwydd rhwng clwstwr o ysgolion, er enghraifft mewn un ardal wrth gyflwyno profiadau mewn mathemateg.

**6.0 STAFFIO**

Gyda chynnydd yng ngallu disgyblion adeg y trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd i ddilyn pynciau ar draws y cwricwlwm yn ddwyieithog, mae'n ddiffyg mewn ambell ysgol uwchradd nad oes gan y staff i gyd y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i ymestyn y defnydd o'r iaith honno fel cyfrwng addysgu a dysgu. Mae hynny'n wir am ddwy ysgol uwchradd yn y sir yn fwyaf arbennig.

Dylid sefydlu cynllun y i gynorthwyo athrawon sydd angen cynyddu a gwella'u sgiliau iaith hyd at safon addysgu.

Dylid ystyried yn y tymor byr gynlluniau fel cyfnewid athrawon ag ysgol / ion eraill, lle bo hynny'n ymarferol, er mwyn cynnal a datblygu addysgu a dysgu drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog lle bo hynny'n anodd ar hyn o bryd.

**7.0 SIARTER IAITH**

Mae'r ysgolion uwchradd yn croesawu'r Siarter Iaith Cynradd a lansiwyd gan Wynedd yn 2012 i ddylanwadu ar ddefnydd plant o'r Gymraeg nid yn unig yn y dosbarth ond ym mhob agwedd ar eu bywyd. Maent yn nodi bod y Siarter wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion y plant ac arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Arwydd o lwyddiant y Siarter Iaith hefyd yw bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cyngor Gwynedd i arwain ar waith ymestyn

Siarter yr Iaith Gymraeg ledled siroedd gogledd Cymru ac mae'n fwriad i'w ymestyn ledled Cymru dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r ysgolion uwchradd yn ymwybodol o'r perygl o weld ychydig o lithro'n ôl ar ddechrau'r cyfnod uwchradd oni bai bod ymdrech fwriadus i atal hyn. Gan hynny, mae nifer o flaengareddau dyfeisgar gan sawl ysgol ar waith i gynnal y momentwm dros gyfnod y pontio.

Mae'r ysgolion uwchradd yn gyffredinol yn croesawu'r cam nesaf yng nghynlluniau'r sir. sef cyfeirio sylw at y sector uwchradd, nid yn unig i ddefnydd cymdeithasol o'r iaith ymhlith disgyblion ond hefyd i ddefnydd iaith a'r cwricwlwm, Y nod yn y pen draw yw dileu anghysondeb yn y materion hyn yn draws sirol drwy gynllunio strategol a gweithredu pwrpasol.

Dylid symud ymlaen i gyflawni'r Siarter Iaith Uwchradd, ei osod ar waith a monitro cynnydd yn rheolaidd wrth ei weithredu.

## 8.0 MANTEISION DWYIEITHRWYDD

Codwyd pwysigrwydd tynnu sylw at fanteision dwyieithrwydd gan sawl ysgol, yn enwedig er mwyn dangos fel y gall y Gymraeg a dwyieithrwydd esgor ar nifer o gyfleoedd newydd mewn bywyd. Mae'r ysgolion hefyd yn gweld manteision cyflwyno gwybodaeth (hyd yn oed yn CA4) am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n sicrhau cymaint yn fwy o gyfleoedd astudio i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg erbyn hyn. Mae hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o natur ieithyddol Cymru a'r posibiliadau sydd ynghlwm wrth ddwyieithrwydd yn gallu cryfhau'u cymhelliant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth astudio a chymdeithasu a'u hysbrydoli i ddal ati gydol oes.

Dylid achub ar bob cyfle yn yr ysgolion i hyrwyddo gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd a thynnu sylw at ddarpariaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sefydliadau eraill sy'n darparu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

## 9.0 ARGYMHELLION

**Argymhellir y canlynol fel camau i greu gwelliannau:**

**9.1 Diffinio ysgolion uwchradd Gwynedd yn ôl iaith y cyfrwng addysgu a dysgu dan un categori, sef ysgolion dwyieithog. Meddwl yn nhermau profiadau yn hytrach na phynciau wrth bennu cydbwysedd rhwng y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfryngau addysgu a dysgu yn CA3 a 4. Ystyried 70% fel isafswm yr amser cyswllt â'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer disgyblion carfannau A a B.**

**9.2 Diffinio'r ddarpariaeth ieithyddol ar gyfer y cyfnod ôl-16 yn yr ysgolion lle bo hynny'n briodol. Diffinio'r ddarpariaeth ieithyddol ar gyfer ysgolion dilynol neu Gydol Oes newydd sydd i'w sefydlu yn y sir fel rhai dwyieithog.**

**9.3 Annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried ymhellach sefyllfa neilltuol Gwynedd pan fydd yn diwygio'r ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* .**

**9.4 Cynnal a hyrwyddo Datblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n cefnogi hyfforddiant i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog, gan fanteisio ar enghreifftiau o arfer dda sydd eisoes ar waith yn nifer yr ysgolion ac ymchwil ddiweddar wrth wneud hynny.**

**9.5 Sicrhau bod staff nad ydynt yn medru cyfathrebu yn y Gymraeg ond sy'n addysgu mewn ysgolion uwchradd lle mae addysgu a dysgu dwyieithog ar gynnydd, yn derbyn anogaeth a chymorth i ddatblygu eu sgiliau dwyieithiog hyd at safon addysgu.**

**9.6 Sicrhau mwy o gysondeb traws sirol fel y bo disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 3+ ar ddiwedd CA2, yn unol ag argymhelliad y sir, yn parhau i ddilyn cwrs Cymraeg Iaith Gyntaf a phynciau drwy'r Gymraeg yn y sector uwchradd.**

**9.7 Cynyddu ymhellach ganran y disgyblion sy'n parhau i astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn CA4 hyd at sefyll arholiadau allanol, gan dorri i lawr ar yr amrywiaeth ymarfer sydd rhwng ysgolion tebyg i'w gilydd.**

**9.8 Dileu unrhyw rwystrau sy'n atal disgyblion yn CA4 ar gyrsiau galwedigaethol rhag cael eu cofrestru i sefyll arholiadau allanol drwy'r Gymraeg.**

**9.9 Darparu Cynllun Gweithredu ar gyfer ardal Bangor gyda chamau gweithredu, targedau penodol, terfynau amser a meini prawf gwerthuso ar gyfer ymestyn canran y disgyblion sy'n dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 a 4 ac yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.**

**9.10 Parhau i ddatblygu'r Siarter Iaith Uwchradd fel offeryn cynllunio effeithiol, gan adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith Cynradd, ar gyfer arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.**

**9.11 Parhau i fod yn weithredol yn glyweledol o ran dangos gwerth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau rhugl rwydd yn y ddwy iaith.**

## Atodiad 1

**Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2007)**

**Y Categorïau ar gyfer Ysgolion Uwchradd**

### 1.Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg

**Y cwricwlwm**

Addysgir pob pwnc (gan gynnwys Addysg Grefyddol ac ABCh) heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl, er bod rhai ysgolion, o bosibl, yn cyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau.

**Iaith yr Ysgol**

Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw’r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â’r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae’r ysgol yn cyfathrebu â’r rhieni yn y naill iaith a’r llall.

**Y canlyniadau**

Fel rheol, disgwylir y bydd pob disgybl yn cael ei asesu ym mhob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 a CA4 ac y bydd y disgyblion yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 6 cyfrwng Cymraeg.

**2. Ysgol Uwchradd Ddwyieithog**

**Y cwricwlwm**

Mae’r categori hwn wedi ei rannu’n 4 is-adran, yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chan ddibynnu a yw’n cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg. Nid yw’r categorïau a’r diffiniadau yn adlewyrchu nifer neu gyfran y disgyblion sy’n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol. Bydd disgwyl i’r cyrff llywodraethu roi gwybodaeth ym mhrosbectws yr ysgol ynghylch i ba raddau y ceir dewis y ddarpariaeth ac a yw cael manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amodol ar gymhwysedd y disgybl yn y Gymraeg. Dylid nodi hefyd yn y prosbectws faint o ddisgyblion sy’n manteisio ar y dewisiadau sydd ar gael.

**Categori 2A**

Addysgir o leiaf 80% o’r pynciau ac eithrio’r Gymraeg a’r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o’r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a’r llall.

**Categori 2B**

Addysgir o leiaf 80% o’r pynciau (ac eithrio’r Gymraeg a’r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe’u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

**Categori 2C**

Addysgir 50 - 79% o bynciau (ac eithrio’r Gymraeg a’r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe’u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

**Categori 2CH**

Addysgir pob pwnc (ac eithrio’r Gymraeg a’r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio’r naill iaith a’r llall.

**Iaith yr Ysgol**

Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a’r llall i gyfathrebu â’r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae’r ysgol yn cyfathrebu â’r rhieni yn y naill iaith a’r llall.

**Y canlyniadau**

Ar gyfer disgyblion yng nghategorïau 2A, 2B a 2C sy’n dilyn y nifer uchaf posibl o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac y byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 6 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis. Ar gyfer disgyblion yng nghategori 2Ch, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwyg gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc heblaw am

Saesneg yn CA3 a CA4 ac y byddent, fel rheol, yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 6 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis.

**3. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg**

**Y cwricwlwm**

Addysgir yn y naill iaith a'r llall, ac addysgir 20 - 49% o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rheol, byddai pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

**Iaith yr Ysgol**

Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol.Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn y naill iaith a'r llall, neu yn Saesneg.

**Y canlyniadau**

Fel rheol, disgwylir y gallai'r disgyblion hynny sy'n dewis y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac y byddant, o bosibl, yn gallu symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar ôl 16.

**4. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf**

**Y cwricwlwm**

Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at CA4. Mae'n bosibl y gellir dewis dysgu un neu ddau bwnc (a allai gynnwys y Gymraeg fel iaith gyntaf) drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y naill iaith a'r llall.

**Iaith yr Ysgol**

Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg hefyd i gyfathrebu â'r disgyblion, gan anelu at wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.

**Y canlyniadau**

Fel rheol, disgwylir y gallai unrhyw ddisgyblion sy'n dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac mae'n bosibl y byddent yn gallu symud ymlaen i astudio'r pynciau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl 6. Byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Saesneg yn y rhan fwyaf o bynciau a byddent yn symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Saesneg ar ôl 16.